**Awdurdod Parc Cenedlaethol**

**Arfordir Penfro**

***Eich helpu chi i ddeall***
***Incwm a gwariant yr Awdurdod***

# DATGANIAD O GYFRIFON
# 2017/18

# MYNEGAI


**TUDALEN**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad Naratif a Chyfrifon Cryno:**<br>***Y cyfan sydd angen i chi ei wybod o'r Datganiad o Gyfrifon*** | **3** |

**DATGANIAD O GYFRIFON**
***y wybodaeth statudol***

| | |
|---|---|
| **Datganiad o Bolisïau Cyfrifyddu** | **16** |
| **Cyfrif Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | **23** |
| **Mantolen** | **24** |
| **Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn** | **25** |
| **Datganiad Llif Arian** | **27** |
| **Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol** | **28** |
| **Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad o Gyfrifon** | **65** |
| **Datganiad Llywodraethu Blynyddol** | **66** |
| **Adroddiad yr Archwilwyr** | **83** |
| **Atodiad I: Rhestr o Lwfansau a Threuliau Aelodau a Dalwyd** | **86** |

# DATGANIAD O GYFRIFON 2017/18

## ADRODDIAD NARATIF A CHYFRIFON CRYNO

*CYFLWYNIAD*

**1.** O dan ddarpariaethau Adran 63 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995, a Gorchymyn Awdurdodau Parciau Cenedlaethol (Cymru) 1995, sefydlodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ar y 23ain o Dachwedd 1995. O'r 1af o Ebrill 1996, nid oedd y Parc Cenedlaethol bellach yn cael ei reoli fel pwyllgor o Gyngor Sir Dyfed, a daeth yn awdurdod lleol annibynnol â diben arbennig. Effaith gyffredinol Erthygl 17(1) o Orchymyn Ad-drefnu Llywodraeth Leol (Cymru) (Eiddo ac ati) 1996 oedd breinio hawliau a rhwymedigaethau eiddo yn yr Awdurdod Parc Cenedlaethol newydd (ond nid unrhyw ddyled benthyciadau) yr hen Gyngor Sir, o ran ardal y Parc Cenedlaethol.

**2.** Mae'r Datganiad o Gyfrifon yn gyhoeddiad sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith sy'n rhoi gwybodaeth glir i drethdalwyr lleol, aelodau'r Awdurdod a rhanddeiliaid eraill am berfformiad a sefyllfa ariannol Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, er mwyn hwyluso asesiad o stiwardiaeth arian cyhoeddus ac ar gyfer gwneud penderfyniadau economaidd.

**3.** Mae'r Adroddiad Naratif hwn yn ganllaw hawdd ei ddeall i'r materion mwyaf arwyddocaol a nodir yn y Datganiad o Gyfrifon. Cyflwynir cyfrif refeniw cryno a syml, ynghyd â gwybodaeth ategol, er mwyn dangos yn glir y gost o ddarparu gwasanaethau a'r modd yr ariennir y costau hynny. Ni ddefnyddiwyd termau technegol, lle bynnag yr oedd yn bosibl, yn yr Adroddiad Naratif hwn.

*GWARIANT A CHYLLID*

**4.** Bob blwyddyn mae'n ofynnol i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol gyflwyno cais i Lywodraeth Cymru am ei gyllid ar gyfer y flwyddyn ganlynol. Cyflwynir y cais fel dogfen ar y cyd, sef Cais am Grant i Barciau Cenedlaethol Cymru, ac yn dilyn ymgynghori â Chyfoeth Naturiol Cymru, mae Llywodraeth Cymru yn penderfynu ar Grant y Parc Cenedlaethol am y flwyddyn sydd i ddod.

**5.** Wrth bennu swm y Grant i'r Parc Cenedlaethol, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn penderfynu, yn unol â phwerau statudol, yr isafswm y gellir ei godi gan yr Awdurdod Parc Cenedlaethol fel Ardoll yn erbyn Cyngor Sir Penfro. Mae Grant y Parc Cenedlaethol yn cynrychioli 75% o gyllid grant craidd yr Awdurdod, a'r 25% sy'n weddill yn cael ei gynrychioli gan yr Ardoll. Mae'r gyllideb refeniw net yn cyfrif am incwm a gynhyrchir yn lleol gan yr Awdurdod Parc Cenedlaethol, megis incwm o daliadau meysydd parcio a ffioedd cynllunio, ac o grantiau gwasanaeth penodol eraill,

megis grant ar gyfer cynnal-a-chadw Llwybr yr Arfordir (Llwybr Cenedlaethol). Mae unrhyw falans sy'n uwch neu'n is na'r gyllideb net a gymeradwywyd yn cael ei reoli drwy gronfeydd refeniw yr Awdurdod.

**6.** Yn 2017/18 roedd y cyllid ar gyfer gwariant refeniw yr Awdurdod (hynny yw, gweithgareddau gweithredol o ddydd i ddydd) yn £7,711k, a gwariwyd £174k ar y rhaglen gyfalaf. Nodir yn y paragraffau canlynol wybodaeth am y ffynonellau ariannu ac ar beth y gwariwyd yr arian.

(a) ***<u>O ble ddaeth yr arian:-</u>***

| CYLLIDEB REFENIW | 2017/18 £ 000 | 2017/18 % | 2016/17 £ 000 | 2016/17 % |
|---|---|---|---|---|
| Grant y Parc Cenedlaethol, gan Lywodraeth Cymru: | 2,955 | 38% | 3,645 | 53% |
| Ardoll y Parc Cenedlaethol, yn erbyn Cyngor Sir Penfro: | 985 | 13% | 985 | 14% |
| Incwm a Gynhyrchwyd yn Lleol (drwy ffioedd a thaliadau): | 1,695 | 22% | 1,495 | 22% |
| Grantiau Refeniw ar gyfer Gwasanaeth/Prosiect Penodol: | 1,492 | 19% | 409 | 6% |
| Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd/Cyffredinol: | 584 | 8% | 367 | 5% |
| ***CYFANSWM CYLLID REFENIW*** | ***7,711*** | 100% | ***6,901*** | 100% |

| CYLLIDEB GYFALAF | 2017/18 £ 000 | | 2016/17 £ 000 |
|---|---|---|---|
| Grantiau Cyfalaf Prosiect Penodol: | - | | 87 |
| Y defnydd o dderbyniadau cyfalaf | 18 | | Nil |
| **ARIANNU CYFALAF** | **18** | | **87** |
| A chyllid o'r gyllideb refeniw (wedi'i gynnwys uchod) | 156 | | 32 |
| ***CYFANSWM Y GYLLIDEB GYFALAF*** | ***174*** | | ***119*** |

Mae incwm a gwariant yr Awdurdod wedi'i rannu at ddibenion cyfrifyddu rhwng cronfeydd refeniw a chronfeydd cyfalaf yn unol ag arferion cyfrifyddu awdurdodau lleol. Mae'r Awdurdod yn gallu defnyddio peth o'i arian refeniw i gyfrannu at brosiectau cyfalaf, ond ni all ddefnyddio grantiau cyfalaf i gyfrannu at wariant refeniw.

Roedd cyllid refeniw cyffredinol yr Awdurdod wedi cynyddu 11.7% yn 2017/18 a'r prif reswm am hyn oedd y Grant Parc Cenedlaethol ychwanegol o £1,160k a ryddhawyd gan Lywodraeth Cymru i ariannu prosiectau penodol. Nid oedd y Grant Parc Cenedlaethol ychwanegol hwn wedi denu'r Ardoll arferol. Yn 2017/18, am bob £1 a ddarparwyd gan

y Grant Parc Cenedlaethol a'r Ardoll yn y flwyddyn, llwyddodd yr Awdurdod i gynhyrchu 81c arall o ffynonellau eraill (2016/17=49c).

Roedd yr Incwm a Gynhyrchwyd yn Lleol yn cynnwys y canlynol:

| **INCWM A GYNHYRCHWYD YN LLEOL** | **2017/18 £000** | **2016/17 £000** | ***% y Newid*** |
|---|---|---|---|
| Gwerthu Nwyddau ac Incwm o Ganolfannau Gwybodaeth | 289 | 281 | **3%** |
| Incwm meysydd parcio a chonsesiynau | 470 | 447 | **5%** |
| Ffioedd mynediad a Gweithgareddau a Digwyddiadau | 287 | 237 | **21%** |
| Incwm hysbysebu | 72 | 85 | **-14%** |
| Ffioedd cynllunio | 283 | 197 | **43%** |
| Gwerthu coed | 28 | 31 | **-12%** |
| Arall: Incwm eiddo a chyfraniadau | 185 | 154 | **20%** |
| Incwm o eiddo buddsoddi | 62 | 42 | **50%** |
| Incwm buddsoddi (buddsoddi arian gweddill) | 19 | 21 | **-10%** |
| ***CYFANSWM INCWM LLEOL*** | ***1,695*** | ***1,495*** | **13%** |

Mae'r Awdurdod yn hynod ddiolchgar i'r holl sefydliadau sy'n cefnogi ei waith drwy ddarparu cyllid refeniw a chyfalaf. Mae rhagor o wybodaeth am grantiau refeniw a dadansoddiad o grantiau cyfalaf a ddarperir i'w gweld yn y Datganiad o Gyfrifon.

(b) ***Ar beth y gwariwyd yr arian:-***

| **CYLLIDEB REFENIW** | **2017/18 £000** | **2017/18 %** | **2016/17 £000** | **2016/17 %** |
|---|---|---|---|---|
| Cyflogeion | 3,659 | 48% | 3,637 | 53% |
| Yn ymwneud ag adeiladau | 769 | 9% | 725 | 11% |
| Trafnidiaeth a Theithio | 179 | 2% | 172 | 2% |
| Cyflenwadau, Gwasanaethau a Grantiau | 1,391 | 19% | 1,347 | 20% |
| Trosglwyddiadau i Gronfeydd a Glustnodwyd | 1,489 | 19% | 749 | 11% |
| Cyfraniad i brosiectau cyfalaf | 156 | 2% | 32 | 0% |
| Taliadau cyllido | 1 | 0% | 2 | 0% |
| Cynnydd/ (gostyngiad) yn y Cronfeydd wrth Gefn Cyffredinol | 67 | 1% | 237 | 3% |
| ***CYFANSWM COST REFENIW*** | ***7,711*** | 100% | ***6,901*** | 100% |

## 7. Cyllideb Refeniw

Mae'r Awdurdod yn rheoli ei gyllideb refeniw ar sail cyllideb "net". Mae hyn yn golygu bod incwm a gynhyrchir yn lleol a grantiau penodol yn cael eu neilltuo i benawdau cyllideb penodol a’u gosod yn erbyn y gwariant yn y penawdau hynny i bennu’r gyllideb net.

Mae'r gyllideb net ar gyfer pob gwasanaeth hefyd yn cynnwys "tâl cyfalaf". Mae hyn yn seiliedig ar yr asedau a ddefnyddir gan y gwasanaethau ac yn cynnwys tâl am ddibrisiant (sef gwerth yr asedau a ddefnyddiwyd gan wasanaeth yn ystod y flwyddyn). Mae'r costau cyfalaf yn cael eu gwrth-droi allan o'r cyfrifon, gan eu bod yn addasiadau nad ydynt yn arian parod – hynny yw, mae’r balans yn ddim ac nid oes angen unrhyw gyllid arian parod.

Yn yr un modd, gwneir addasiadau ar gyfer costau pensiwn yn unol â gofynion cyfrifyddu a elwir yn Fuddiannau Gweithwyr IAS 19 *Buddiannau Ymddeol*. Codir "cost gwasanaeth cyfredol" ar gyllidebau gwasanaeth (sef cost yr hyn y mae gweithwyr wedi'i ennill mewn hawliau pensiwn yn ystod y flwyddyn) yn lle cost cyfraniadau’r cyflogwr (sef yr union swm a godir ar y cyfrifon ar gyfer cyfraniadau yn y flwyddyn i’r Gronfa Bensiwn). Mae'r addasiadau hyn hefyd yn cael eu gwrth-droi allan o'r cyfrifon o dan Cost Net y Gwasanaethau, drwy'r *Symudiad ar Gronfa Pensiwn Wrth Gefn,* i ddychwelyd y gost yn y cyfrifon yn ôl i werth cyfraniadau'r cyflogwr. Bwriedir i'r addasiadau technegol hyn ddod â'r gwasanaethau cyhoeddus yn unol â’r Safonau Adrodd Rhyngwladol.

Cyflwynir y gyllideb net a’r sefyllfa alldro net ar y dudalen nesaf ar gyfer prif feysydd gwasanaeth yr Awdurdod, a nodir mewn Cyfrif Incwm a Gwariant syml (cyfrif elw/colled).

| Cyfrif Refeniw 2017/18 | Cyllideb Net £000 | Alldro Net £000 | Amrywiant £000 | Alldro Net 2016/17 £000 |
|---|---|---|---|---|
| Cadwraeth yr Amgylchedd Naturiol | 382 | 368 | 14 | 341 |
| Cadwraeth y Dreftadaeth Ddiwylliannol | 137 | 129 | 8 | 147 |
| Rheoli Datblygu | 349 | 235 | 114 | 247 |
| Blaengynllunio a Chymunedau | 487 | 416 | 71 | 390 |
| Hyrwyddo a Dealltwriaeth | 1,031 | 1,003 | 28 | 856 |
| Rheoli Hamdden a Thrafnidiaeth | 140 | 135 | 5 | -6 |
| Parcmyn, Ystadau a Gwirfoddolwyr | 1,057 | 1,051 | 6 | 1043 |
| Cynrychiolaeth a Rheolaeth Ddemocrataidd | 491 | 462 | 29 | 422 |
| Rheoli Gwasanaethau a Gwasanaethau Cynnal | 1,138 | 1,105 | 33 | 922 |
| **Cost net gwasanaethau** | **5,212** | **4,904** | **308** | **4,362** |
| Incwm llog a buddsoddi a enillwyd yn ystod y flwyddyn | -15 | -19 | 4 | -21 |
| Eitemau eraill heblaw arian parod a ddebydwyd neu a gredydwyd i Gronfeydd Wrth Gefn yr Awdurdod am y flwyddyn: | -352 | -107 | -245 | -482 |
| Grant Parc Cenedlaethol – Llywodraeth Cynulliad Cymru | -2955 | -2955 | | -3645 |
| Ardoll y Parc Cenedlaethol – Cyngor Sir Penfro | -985 | -985 | | -984 |
| **Gwarged / Diffyg (-) Net Gweithredu** | **905** | **838** | **67** | **770** |
| Yn llai o drosglwyddiad net i (-) / o Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd | -905 | -905 | | -533 |
| **GWARGED DIWEDD Y FLWYDDYN** | **0** | **67** | **67** | **237** |

## Sylwadau Cryno

Cost Net alldro gwariant y Gwasanaeth am y flwyddyn oedd £4,904k yn erbyn cyllideb Cost Net o £5,212k ac union gost o £4,362k yn 2016/17. Roedd y Gost Net yn £308k yn is na'r gyllideb ddiwygiedig ac mae esboniad am y prif amrywiadau o fewn pob gwasanaeth fel a ganlyn:

- **Cadwraeth yr Amgylchedd Naturiol (£13k yn llai na’r gyllideb).** Roedd Canolfan Coetir Cilrhedyn gryn dipyn yn llai na’r gyllideb am y flwyddyn yn sgil arbedion staff, llai o gostau contractwyr, a llai o gostau deunydd crai.

- **Cadwraeth Treftadaeth Ddiwylliannol (£8k yn llai na’r gyllideb).** Mae'r tanwariant yn y maes gwasanaeth hwn yn ganlyniad i arbedion yn y gyllideb Archaeolegol.

- **Rheoli Datblygu (115k yn llai na'r gyllideb).** O fewn Rheoli Datblygu, bu cynnydd sylweddol yn y ceisiadau cynllunio, ac yn sgil hynny roedd incwm ffioedd cynllunio yn £258k yn ystod y flwyddyn sef £88k yn uwch na'r gyllideb ac yn £83k yn uwch na'r un cyfnod yn 2016/17. Roedd incwm ffioedd cyn-ymgeisio oedd heb ei gyllidebu (£17k) ynghyd ag arbedion mewn hysbysebu statudol (£10k), ffioedd proffesiynol (£12k), costau teithio (£4k) ac arbedion eraill wedi cyfrannu at y tanwariant. Hefyd, bu gorwariant o £25k ar gost apelau.

- **Blaengynllunio a Chymunedau (£71k yn llai na'r gyllideb).** Cyfanswm taliadau grant y Gronfa Datblygu Cynaliadwy yn ystod y flwyddyn oedd £141k, a oedd yn llai na'r gyllideb o £200k. Dosbarthwyd y taliadau rhwng dau ar bymtheg o wahanol brosiectau. Gwnaed taliadau grant o fwy na £5k i Ardal Cadwraeth Arbennig Morol Sir Benfro, LM Tree Solutions, The Sea Trust, Cyngor Cymuned Solfach, Mikota Ltd, Greenseas Resources Ltd, Fforwm Arfordir Sir Benfro, Bumblebee Conservation Trust a Cadwch Gymru'n Daclus.

- **Hyrwyddo a Dealltwriaeth (£28k yn llai na'r gyllideb)**. Mae'r tabl a ganlyn yn dangos y gyllideb am y flwyddyn gyfredol, incwm gwerthu nwyddau eleni a'r llynedd, incwm mynediad ac incwm meysydd parcio am y 12 mis yn diweddu ar yr 31[ain] o Fawrth 2018. Cyfanswm y gwerthiant nwyddau oedd £273k sef £16k yn fwy na'r llynedd, a £2k yn llai na'r gyllideb. Ac eithrio Caeriw, sydd £8k yn fwy na'r gyllideb, mae'r canolfannau eraill yn llai na'r gyllideb. Gyda'i gilydd, mae'r incwm ffioedd mynediad o £227k ar gyfer Castell Caeriw a Chastell Henllys yn £49k yn fwy na'r gyllideb ac i fyny £46k o gymharu â 2016/17. Mae'r incwm ffioedd mynediad yng Nghaeriw wedi parhau i gynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gan gynyddu £45k (bron 44%) ers yr un cyfnod yn 2014/15. Dros gyfnod y Nadolig, daeth 1,064 o bobl i Ffair Nadolig Castell Caeriw a daeth 1,620 o bobl i farchnad Nadolig Oriel y Parc. Yn ystod y flwyddyn gwariwyd yn sylweddol ar atgyweirio un o'r Tai Crynion yng Nghastell Henllys, (£57k), atgyweirio Sarn Caeriw (£72k) ac addasu'r dderbynfa yn Oriel y Parc (£14k). Cafwyd incwm ychwanegol o £27k am ffilmio yng Nghastell Caeriw.

  Roedd yr incwm hysbysebu yng nghyhoeddiad yr Awdurdod 'Coast to Coast' yn £77k, a oedd yn £10k yn llai na'r gyllideb a £7k yn llai nag incwm y llynedd. Mae hyn yn bennaf oherwydd bod rhai hysbysewyr rheolaidd wedi penderfynu peidio â defnyddio 'Coast to Coast' eleni.

  Bwriad prosiect Sgiliau ar Waith y Gronfa Loteri Treftadaeth oedd bod hyfforddeion yn datblygu eu sgiliau a'u cyfleoedd gyrfa ym maes rheoli tir, ac roedd i fod ar gael am dair blynedd. Fodd bynnag, gan fod digon o gyllid yn weddill ar ddiwedd y tair blynedd, roedd modd ariannu dau brentis arall am gyfnod ychwanegol o 6 mis. O'r hyfforddeion a fu'n rhan o'r prosiect, mae deg wedi cael gwaith – naw yn y sector cefn gwlad ac un mewn prifysgol. Mae un o'r hyfforddeion presennol newydd gael gwaith llawn amser gyda'r Awdurdod fel Warden y De.

  Mae'r Awdurdod, ar y cyd â Phartneriaeth Natur Sir Benfro (y mae APCAP yn aelod ohono), wedi gwneud cais llwyddiannus am £1.8 miliwn o gyllid LEADER i wneud astudiaeth ddichonolrwydd i ystyried cynllun i ddenu rhoddion gan bobl sy'n ymweld â Sir Benfro. Mae'r cynllun yn codi ymwybyddiaeth o faterion cadwraeth ymhlith busnesau lleol ac ymwelwyr a bydd yr arian a godir yn cael eu gwario ar brosiectau cadwraeth natur.

Cafodd yr Awdurdod £180k gan Lywodraeth Cymru i gynnal ymgyrch farchnata well i ddathlu Llwybr Arfordir Cymru yn ystod 'Blwyddyn y Môr' yn 2018, ac wedi hynny. Hefyd, mae'r Awdurdod yn y broses o wneud cais am gymorth grant ychwanegol o £150k o Gronfa Ymgysylltu Twristiaeth Ranbarthol Croeso Cymru. Byddai hynny'n sicrhau cyllideb o £330k ar gyfer gweithgareddau marchnata Llwybr Arfordir Cymru dros y ddwy flynedd nesaf.

Cafodd cais yr Awdurdod am y prosiect Llwybrau Celtaidd ei gymeradwyo ym mis Rhagfyr 2017. Prin fu ymwneud Awdurdod y Parc â phrosiectau Interreg yn y gorffennol ond drwy well gwaith rhanbarthol ar fentrau twristiaeth, mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, Cyngor Sir Ceredigion a Chyngor Sir Caerfyrddin (fel y brif asiantaeth) wedi ffurfio partneriaeth sy'n caniatáu i ranbarth Gorllewin Cymru wneud cais. Nod y prosiect yw denu'r nifer sylweddol o ymwelwyr, sy'n teithio drwy ardaloedd penodol i fynd i rywle arall, i aros a gwario, a denu ymwelwyr newydd i groesi Môr yr Iwerydd/Môr Celtaidd.

Dechreuodd yr Awdurdod brosiect 'Llwybrau' yn ystod haf 2017. Mae'r prosiect yn rhoi sylw i fanteision gwirfoddoli fel un o'r 'llwybrau' i bobl gael profiad o'r awyr agored. Ei nod yw rhoi cyfleoedd â chymorth i fwy na 2000 o unigolion o grwpiau dan anfantais fel rhan o brosiect 3 blynedd i allu cymryd rhan mewn gweithgarwch gwirfoddol ar draws y Parc Cenedlaethol.

- **Hamdden a Rheoli Trafnidiaeth (£6k yn llai na'r gyllideb)**. Mae'r tabl a ganlyn yn dangos yr incwm o'r Meysydd Parcio am y 12 mis o £459k, sydd yn £53k yn uwch na'r gyllideb ac yn £35k yn uwch nag yn 2016/17. Yn ystod y flwyddyn, bu'r Awdurdod yn hyrwyddo'n frwd fanteision y tocynnau tymor ar gyfer parcio. Mae'r gwerthiant hwn yn cael ei gofnodi yn y llinell gostau "Gweithrediadau Maes Parcio", a gellir gweld bod y tocynnau tymor wedi bod yn boblogaidd iawn, gan ddenu £25k yn fwy na'r gyllideb, a £31k o gymharu â 2016/17. Y cynnydd yn y tocynnau tymor a werthwyd sy'n cyfrif am y gostyngiad yng ngwerthiant meysydd parcio Saundersfoot ac Aber Bach. Yn ystod y flwyddyn, ymddeolodd Swyddog Technegol yr Awdurdod gan arwain at danwariant yn y maes gwasanaeth hwn.

- **Parcmyn, Ystadau a Gwirfoddolwyr (£6k yn llai na'r gyllideb).**
  Ni fu amrywiadau sylweddol yn y maes gwasanaeth hwn.

- **Cynrychiolaeth a Rheolaeth Ddemocrataidd (£29k yn llai na'r gyllideb).**
  Wrth bennu cyllideb 2017/18, creodd yr Awdurdod ddarpariaeth ar gyfer "Ffyrdd Newydd" o ddarparu gwasanaethau, ac yn ystod y flwyddyn, mae'r Awdurdod wedi cefnogi cais Cyngor Sir Penfro i enwebu Tyddewi yn Ddinas Diwylliant y DU, a'r gwaith o ddatblygu llyfrgell newydd Hwlffordd.

- **Rheoli Gwasanaethau a Gwasanaethau Cynnal (£33k yn llai na'r gyllideb)**. Roedd y tanwariant ar Reoli Gwasanaethau a Gwasanaethau Cynnal yn ganlyniad i nifer o ffactorau gan gynnwys y canlynol: costau teithio is ar draws ystod o feysydd, llai o ffioedd cyfreithiol ac arbedion yn y gyllideb hyfforddiant staff.

## Incwm 2017/18 yn erbyn y Gyllideb a'r Blynyddoedd Blaenorol

| Gwerthu Nwyddau | Cyllideb 12 mis | Incwm 12 mis | Amrywiant | 2016/17 | Amrywiant | 2015 /16 | Amrywiant | 2014/15 | Amrywiant |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Incwm Caeriw | 75,158 | 82,894 | 7,736 | 78,755 | 4,139 | 81,035 | 1,859 | 71,141 | 11,753 |
| Oriel y Parc | 120,656 | 117,989 | -2,667 | 108,188 | 9,801 | 121,575 | -3,586 | 150,296 | -32,307 |
| Trefdraeth | 30,427 | 29,538 | -889 | 30,984 | -1,446 | 31,276 | -1,738 | 28,886 | 652 |
| Castell Henllys | 48,705 | 42,196 | -6,509 | 39,179 | 3,017 | 47,645 | -5,449 | 37,569 | 4,627 |
| **Cyfanswm y Gwerthiant Nwyddau** | **274,946** | **272,617** | **-2,329** | **257,106** | **15,512** | **281,531** | **-8,914** | **287,892** | **-15,275** |
| | | | | | | | | | |
| **Ffioedd Mynediad** | | | | | | | | | |
| Incwm Caeriw | 114,556 | 148,961 | 34,405 | 123,433 | 25,528 | 126,211 | 33,961 | 103,021 | 45,940 |
| Castell Henllys | 62,929 | 77,597 | 14,668 | 56,952 | 20,645 | 71,764 | 15,248 | 61,598 | 15,999 |
| | **177,485** | **226,558** | **49,073** | **180,385** | **46,173** | **197,975** | **49,209** | **164,619** | **61,939** |
| **Incwm Meysydd Parcio** | | | | | | | | | |
| Gweithrediadau Maes Parcio | 10,000 | 35,579 | 25,579 | 4,548 | 31,031 | 11,503 | 24,076 | 10,109 | 25,470 |
| Maes Parcio Saundersfoot | 65,920 | 66,499 | 579 | 77,391 | -10,892 | 71,665 | -5,166 | 65,911 | 588 |
| Maes Parcio Maenorbŷr | 41,389 | 42,554 | 1,165 | 41,094 | 1,460 | 41,259 | 1,295 | 41,153 | 1,401 |
| Maes Parcio Freshwater East | 24,204 | 24,558 | 354 | 19,312 | 5,246 | 22,777 | 1,781 | 26,333 | -1,775 |
| Maes Parcio Aber Bach | 34,155 | 28,753 | -5,402 | 35,616 | -6,863 | 38,955 | -10,202 | 32,144 | -3,391 |
| Maes Parcio Aber Llydan | 22,138 | 22,840 | 702 | 21,628 | 1,212 | 22,100 | 740 | 22,871 | -31 |
| Maes Parcio Tyddewi | 75,000 | 74,331 | -669 | 77,327 | -2,996 | 79,780 | -5,449 | 74,706 | -375 |
| Maes Parcio Trefdraeth | 15,757 | 23,078 | 7,321 | 18,863 | 4,215 | 15,697 | 7,381 | 26,361 | -3,283 |
| Maes Parcio Poppit | 35,524 | 54,801 | 19,277 | 45,678 | 9,123 | 34,623 | 20,178 | 36,657 | 18,144 |
| Maes Parcio Niwgwl | 19,500 | 17,865 | -1,635 | 17,664 | 201 | 19,946 | -2,081 | 18,646 | -781 |
| Maes Parcio Solfach | 52,000 | 57,778 | 5,778 | 54,460 | 3,318 | 57,161 | 617 | 19,583 | 38,195 |
| | **395,587** | **448,636** | **53,049** | **413,581** | **35,055** | **415,466** | **33,170** | **374,474** | **74,162** |

## 8. Rhaglen Gyfalaf

Ariannwyd y prosiectau canlynol fel rhan o'r rhaglen gyfalaf am y flwyddyn:

| | **Cyfanswm y Gost 2017/18 £000** | **Cyfanswm y Gost 2016/17 £000** |
|---|---|---|
| **Hyrwyddo Dealltwriaeth a Mwynhad** | **57** | **6** |
| Tŷ Crwn Castell Henllys | 57 | 6 |
| **Rheoli Hamdden a Pharciau** | **109** | **107** |
| Wal Gynnal Caergawell Angle* | - | 46 |
| Cerbydau | - | 18 |
| Castell Caeriw | 23 | - |
| Meysydd Parcio | 86 | 43 |
| **Gwasanaethau Corfforaethol a Chynnal** | **8** | **6** |
| Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu | 8 | 6 |
| **CYFANSWM GWARIANT CYFALAF** | **174** | **119** |
| **Ariannwyd gan:** | | |
| Ariannu o'r gyllideb refeniw | -156 | -32 |
| Grantiau Ychwanegol | - | -87 |
| Derbyniadau Cyfalaf | -18 | - |
| **Cyfanswm** | **-174** | **-119** |
| ***Roedd y gwariant ar Wal Gynnal Caergawell Angle yn rhan o'r Rhaglen Gyfalaf ond mae'r costau wedi'u cynnwys yng Nghost Net y Gwasanaethau.** | | |

Manylion y rhaglen gyfalaf yw:

- Tŷ Crwn Castell Henllys. Cwblhawyd y gwaith o ddymchwel ac ailgodi Tŷ'r Cogydd, un o dai crynion Castell Henllys, yn ystod y flwyddyn ariannol.

- Caffi Castell Caeriw. Yng nghyfarfod yr Awdurdod Parc Cenedlaethol ym mis Medi 2017, cymeradwywyd gwaith i godi caffi ar y safle. Disgwylir y bydd y gwaith wedi'i orffen erbyn mis Gorffennaf 2018 a bydd yn cael ei ariannu o Gronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf yr Awdurdod.

- To Melin Caeriw. Rhoddwyd to newydd ar Felin Caeriw ym mlwyddyn ariannol 2016/17, ond yn anffodus bu trafodaethau maith gyda'r contractwr o ran talu'r swm oedd weddill am y prosiect. Cytunwyd ar y tâl ym mis Medi 2017.

- Wal Furiog Caeriw. Dechreuwyd ar y gwaith ar y Wal Furiog yn ystod 2017/18, a disgwylir ei orffen yn ystod tymor yr hydref 2018.

- Maes Parcio Regency Saundersfoot. Cafwyd cyllid gan Grant Mynediad Llywodraeth Cymru 2016/17 i wella Maes Parcio Regency Saundersfoot, a gorffennwyd y gwaith ym mis Rhagfyr 2017.

- Systemau Electronig Cynllunio/Rheoli Dogfennau (DMS). Yn ystod y flwyddyn

parhaodd yr Awdurdod â’r gwaith i ddatblygu ei DMS a dyfarnwyd contract i Agile i gyflawni’r gwaith gwella.

- System Recriwtio Adnoddau Dynol. Yn ystod y flwyddyn, prynodd yr Awdurdod becyn meddalwedd arbenigol i hwyluso recriwtio ar-lein.

## 9. Crynodeb o'r Fantolen ar 31 Mawrth 2018

| | **2017/18 £000** | **2016/17 £000** |
|---|---|---|
| Asedau Sefydlog | 12,090 | 12,062 |
| Arian parod mewn llaw/banc | 4,481 | 3,456 |
| Stociau o nwyddau a choed | 131 | 153 |
| Dyledwyr – arian sy'n ddyledus i'r Awdurdod | 277 | 289 |
| Credydwyr – arian sy'n ddyledus gan yr Awdurdod | -507 | -471 |
| Darpariaethau – ar gyfer ymrwymiadau hysbys | -8 | -9 |
| Benthyca tymor hir (mwy na blwyddyn) | | |
| ***Arian parod wrth gefn:*** | | |
| Derbyniadau Cyfalaf Defnyddiadwy / Grantiau Cyfalaf Annefnyddiadwy | | |
| Cronfeydd a Glustnodwyd – at ddibenion penodol | -3,178 | -2,273 |
| Cronfeydd Refeniw Cyffredinol wrth gefn | -1,006 | -939 |
| Derbyniadau Cyfalaf wrth gefn Defnyddiadwy | -263 | -281 |
| ***Heb fod yn arian parod:*** | | |
| Cronfa Absenoldebau Cronedig | 47 | 49 |
| Cyfrif Addasiadau Cyfalaf | -9,303 | -9,351 |
| Cronfa Ailbrisio wrth gefn | -2,761 | -2,685 |
| Rhwymedigaeth Pensiwn | 3,738 | -4,638 |
| Cronfa Pensiynau wrth gefn (i gydbwyso â rhwymedigaeth pensiwn) | -3,738 | 4,638 |
| **BALANSWYD I:** | | |

Gwerth net asedau sefydlog yr Awdurdod a ddefnyddiwyd ar ddiwedd y flwyddyn oedd £12,090k, i fyny o £12,062k ar 31 Mawrth 2017. Roedd nifer o asedau yn cael eu hailbrisio fel rhan o’r rhaglen dreigl o ail-brisio dros gyfnod o bum mlynedd, oedd yn cynnwys yr asedau canlynol: Meysydd Parcio Aber Llydan, Gorllewin Angle, Aber Bach, Solfach, Amroth, Nolton Haven, Gorsaf Penalun, Porthgain, Parc Cychod Fresh Water East a Choed Cilciffeth. Roedd ychwanegiadau cyfalaf, a lleihad mewn gwerth asedau hefyd wedi effeithio ar y symudiadau yn y balans. Mae asedau cyfalaf yn cynnwys cerbydau ac offer a thir/adeiladau – megis meysydd parcio, safleoedd picnic, tir arfordirol, coetiroedd, canolfannau gwybodaeth a safleoedd hanesyddol.

Mae Stoc, Dyledwyr, Credydwyr, Darpariaethau a balansau benthyca Tymor Hir yn codi o weithgareddau gwariant refeniw a chyfalaf arferol yr Awdurdod. Prin iawn yw'r symudiadau yn y categorïau hyn rhwng y ddwy flwyddyn ariannol. Ar y llaw arall mae balans arian parod yr Awdurdod wedi cynyddu'n aruthrol, a'r rheswm am hyn oedd derbyn £1.1 miliwn gan Lywodraeth Cymru ar gyfer amrywiol brosiectau ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd yw cronfeydd a grëwyd o arian dros ben yn y flwyddyn gyfredol a'r flwyddyn flaenorol sydd wedi'u neilltuo ar gyfer prosiectau penodol. Cronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol yw arian dros ben a gronnwyd sydd ar gael i'w defnyddio at bob un o ddibenion y Parc. Derbyniadau Cyfalaf Defnyddiadwy yw elw o werthu asedau'r Awdurdod a gellir ond eu defnyddio i ariannu gwariant cyfalaf.

Roedd y balans ar y Gronfa Derbyniadau Cyfalaf yn £263k, sef £18k yn llai. Defnyddiwyd yr arian i ariannu cyfran o'r rhaglen gyfalaf. Yn ystod y flwyddyn cynyddodd y Cronfeydd a Glustnodwyd o £2,273k i £3,178k, a'r rheswm am hyn oedd y cyllid refeniw a grant o £1.1 miliwn y cyfeiriwyd ato eisoes a gafwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2018; crewyd cronfeydd wrth gefn priodol a byddant yn cael eu defnyddio yn y dyfodol agos.

Roedd balans y Gronfa Gyffredinol Wrth Gefn i fyny o £939k i £1,006k ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Roedd sefyllfa ariannol yr Awdurdod ar ddiwedd 2017/18 yn parhau i fod yn gryf gyda chronfeydd arian parod sylweddol wrth gefn. Fodd bynnag, o ystyried yr amgylchedd ariannol tyn parhaus yn y sector cyhoeddus, disgwylir y bydd y balansau ar y Cronfeydd Cyffredinol, Derbyniadau Cyfalaf a'r Cronfeydd a Glustnodwyd yn gostwng yn sylweddol dros y blynyddoedd nesaf. Mae'r Gronfa Absenoldebau Cronedig yn ymwneud ag absenoldebau cronedig y staff a enillwyd ond nas cymerwyd yn y flwyddyn. Roedd y gronfa hon wedi gostwng £1k yn y flwyddyn sy'n amlygu'r gostyngiad yn nifer y staff. Oherwydd y modd y mae'r Awdurdod yn rhoi cyfrif am y gwariant cyfalaf, mae'r balansau ar y Cyfrif Addasu Cyfalaf a'r Gronfa Ailbrisio yn adlewyrchu gwerth yr asedau sefydlog a ddefnyddiwyd.

Roedd y Rhwymedigaeth Cronfa Bensiwn ar ddiwedd y flwyddyn wedi gostwng i £3,738k o'i gymharu â'r rhwymedigaeth ar ddiwedd 2016/17 oo £4,638k. Y rheswm am hyn yn bennaf oedd cynnydd bach o tua 0.1% y flwyddyn yn y gyfradd ddisgownt a gostyngiad bach o tua 0.1% y flwyddyn yn rhagdybiaeth chwyddiant y CPI. Hefyd roedd effaith y marchnadoedd buddsoddi yn ystod y cyfnod yn weddol niwtral a oedd wedi golygu bod yr enillion cyfartalog yn debyg i gyfradd ddisgownt IAS19.

## 10. Edrych ymlaen

Roedd y Grant Parc Cenedlaethol a'r Ardoll am 2018/19 wedi gostwng 5.8% ers lefelau 2017/18. Mae'r gostyngiad hwn yn ychwanegol at nifer o ostyngiadau blynyddol; yn 2014/15 amsugnodd yr Awdurdod ostyngiad o 7.4%, a dilynwyd hynny gan ostyngiadau o 4.12% yn 2015/16, a 6.04% yn 2016/17. Felly, mae cyfanswm Grant APC a'r Ardoll wedi gostwng tua £1,000k, o £4,721k yn 2013/14 i £3,732k yn 2018/19. Hefyd, disgwylir gostyngiad arall o 5% yn y cyllid craidd ar gyfer 2019/20. Er bod yr Awdurdod wedi gwneud arbedion sylweddol yn y gyllideb dros y blynyddoedd diwethaf hyn, mae felly yn parhau i wynebu her ariannol i sicrhau ei fod yn lleihau ei sylfaen costau sylfaenol eto fyth, a lle bo'n bosibl, yn cynyddu'r ffrydiau refeniw i gyfateb y gostyngiad sylweddol yn y grant a'r lleihad yn yr ardoll yn sgil hynny. Mae sefyllfa iach yr Awdurdod o ran y cronfeydd wrth gefn yn fodd i fynd i'r afael â'r materion difrifol hyn o ariannu. Fodd bynnag mae cyllid grant craidd yr Awdurdod yn debygol o barhau i ostwng, ac nid yw'r cronfeydd wrth gefn yn bwll diwaelod ac ni fydd arian ar ôl cyn hir os na chymerir camau i unioni'r sefyllfa. Rhagwelir y bydd

angen cyfraniad sylweddol gan yr Aelodau ar reoli’r gyllideb. Rheolir y sefyllfa ariannol drwy roi’r gorau i rai gweithgareddau penodol, gwell effeithiolrwydd ac arbedion costau, adolygu’r cyfleoedd i ddatblygu incwm lleol, a chwilio am ffynonellau eraill o gymorth grant.

*DATGANIAD O GYFRIFON*

**11** Mae gweddill y ddogfen hon yn cyflwyno’r datganiadau statudol o gyfrifon ar gyfer yr Awdurdod.

**12** Mae Cyfrifon yr Awdurdod, sy'n cael eu cwmpasu gan y Datganiadau o Gyfrifoldebau ac adroddiad yr Archwilwyr, wedi'u nodi ar dudalennau 16 i 60 ac maent yn cynnwys:-

- Y Datganiad o Bolisïau Cyfrifyddu (o dudalen 16) sy’n egluro'r egwyddorion ac ar ba sail y mae cyfrifon yr Awdurdod wedi’u paratoi.

- Mae’r Dadansoddiad Gwariant a Chyllido yn dangos sut mae gwariant blynyddol yn cael ei ddefnyddio a’i ariannu o’r adnoddau (grantiau’r llywodraeth ac ati) gan yr Awdurdod o’i gymharu â’r adnoddau hynny sy’n cael eu defnyddio neu eu hennill yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol. Hefyd mae’n dangos sut y caiff y gwariant hwn ei ddyrannu at ddibenion gwneud penderfyniadau rhwng gwasanaethau’r Awdurdod. Mae’r incwm a gwariant a gynhwysir o dan arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol yn cael ei gyflwyno’n llawnach yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

- Mae'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn crynhoi'r adnoddau a gynhyrchwyd ac a ddefnyddiwyd wrth ddarparu gwasanaethau a rheoli'r Awdurdod yn ystod y flwyddyn. Mae'n cynnwys yr holl dreuliau o ddydd i ddydd a'r incwm cysylltiedig ar sail croniadau, yn ogystal â thrafodion sy'n mesur gwerth yr asedau sefydlog a ddefnyddiwyd mewn gwirionedd a gwir werth amcanol y buddiannau ymddeol a enillwyd gan y gweithwyr yn ystod y flwyddyn.

- Datganiad yr Awdurdod ar Symudiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn. Mae'r datganiad hwn yn dangos y symudiadau yn y flwyddyn yn y gwahanol gronfeydd wrth gefn a gedwir gan yr Awdurdod, a rennir yn 'gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy’ (h.y. y rhai y gellir eu defnyddio i ariannu gwariant) a chronfeydd wrth gefn eraill. Mae'r Gwarged neu’r (Diffyg) ar y llinell Darparu Gwasanaethau yn dangos gwir gost economaidd o ddarparu gwasanaethau'r Awdurdod, ac mae mwy o fanylion am y cronfeydd hyn yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Mae'r rhain yn wahanol i'r symiau statudol y mae'n ofynnol eu codi ar Falans y Gronfa Gyffredinol. Mae'r llinell Cynnydd/Gostyngiad Net cyn Trosglwyddiadau Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd yn dangos Balans y Gronfa Gyffredinol statudol cyn unrhyw drosglwyddiadau dewisol i neu o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd a wnaed gan yr Awdurdod.

- Mae'r Fantolen yn dangos gwerth ar ddyddiad y Fantolen yr asedau a'r rhwymedigaethau a gydnabyddir gan yr Awdurdod. Mae asedau net yr Awdurdod (asedau yn llai o’r rhwymedigaethau) yn cael eu cyfateb gan y cronfeydd wrth gefn a gedwir gan yr Awdurdod. Mae’r cronfeydd wrth gefn yn cael eu rhannu i ddau gategori. Y categori cyntaf o gronfeydd wrth gefn yw cronfeydd defnyddiadwy, h.y. y cronfeydd hynny y gall yr Awdurdod eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau,

yn amodol ar yr angen i gynnal lefel ddarbodus o gronfeydd wrth gefn ac unrhyw gyfyngiadau statudol ar eu defnydd (er enghraifft, y Gronfa Derbyniadau Cyfalaf y gellir ond ei defnyddio i ariannu gwariant cyfalaf neu i ad-dalu dyled). Yr ail gategori o gronfeydd wrth gefn yw'r rhai nad yw'r Awdurdod yn gallu eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau. Mae'r categori hwn o gronfeydd yn cynnwys cronfeydd sy'n cynnwys enillion a cholledion sydd heb eu gwireddu (er enghraifft y Gronfa Ailbrisio), lle byddai symiau ond ar gael i ddarparu gwasanaethau os bydd yr asedau yn cael eu gwerthu; a chronfeydd gyda gwahaniaethau mewn amseru a ddangosir yn y llinell Datganiad o Symudiad yn y cronfeydd, 'Addasiadau rhwng sail cyfrifyddu a sail ariannu dan reoliadau'.

- Mae'r Datganiad Llif Arian yn dangos y newidiadau mewn arian parod ac arian parod cyfatebol yr Awdurdod yn ystod cyfnod yr adroddiad. Mae'r datganiad yn dangos sut mae'r Awdurdod yn cynhyrchu ac yn defnyddio arian parod ac arian parod cyfatebol drwy ddosbarthu llif arian yn weithgareddau gweithredu, gweithgareddau buddsoddi a gweithgareddau ariannu. Mae swm y llif arian net sy'n deillio o weithgareddau gweithredu yn ddangosydd allweddol o'r graddau y mae gweithrediadau'r Awdurdod yn cael eu hariannu gan drethi ac incwm grant neu gan dderbynwyr y gwasanaethau a ddarperir gan yr Awdurdod. Gweithgareddau buddsoddi yw'r graddau y mae all-lifau arian parod wedi eu gwneud ar gyfer adnoddau y bwriedir iddynt gyfrannu at gyflenwi gwasanaeth yr Awdurdod yn y dyfodol. Mae llif arian sy'n deillio o weithgareddau ariannu yn ddefnyddiol i ragweld hawliadau ar lif arian yn y dyfodol gan ddarparwyr cyfalaf (h.y. benthyciadau) i'r Awdurdod.

- Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol.

**13** Mae'r Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad o Gyfrifon (tudalen 61) yn egluro cyfrifoldebau'r Awdurdod a chyfrifoldebau'r Prif Swyddog Ariannol wrth weinyddu materion ariannol yr Awdurdod a pharatoi'r Datganiad o Gyfrifon.

**14** Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol (tudalen 62) yn gosod y fframwaith ar gyfer rheoli ac adolygu'r rheolaeth ariannol yn yr Awdurdod.

**15** Adroddiad yr Archwilwyr (tudalen 79).

*RHAGOR O WYBODAETH*

Gellir cael rhagor o wybodaeth am y Datganiad Cyfrifon hwn oddi wrth:

*Richard Griffiths A.C.M.A., C.G.M.A., M.B.A.*
*Rheolwr Cyllid*
*Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro*
*Parc Llanion, Doc Penfro, Sir Benfro, SA72 6DY*
*Ffôn: 0646 624815*
*Ffacs: 01646 689076*
*E-bost: richardg@arfordirpenfro.org.uk*
*Gwefan: www.arfordirpenfro.org.uk*

# DATGANIAD O BOLISÏAU CYFRIFYDDU

## 1. Egwyddorion Cyffredinol

Diben y Datganiad o Bolisïau Cyfrifyddu yw esbonio ar ba sail y cyfrifwyd y ffigurau yn y cyfrifon.

Mae'r cyfrifon wedi'u paratoi yn unol â’r:

- Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig – sy'n dehongli’r canllawiau ar Safon Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS). Mae'r ddogfen hon, a baratowyd gan CIPFA, yn dwyn ynghyd y gofynion deddfwriaethol a’r canllawiau eraill sy'n gymwys i'r gwaith o baratoi a chyhoeddi cyfrifon awdurdodau lleol.
- Cod Ymarfer Adrodd ar Wasanaethau ar gyfer Awdurdodau Lleol (SeRCOP).
- Y confensiwn cyfrifyddu a fabwysiadwyd yw’r gost hanesyddol gyda gwerth cyfredol ar gyfer rhai dosbarthiadau o asedau sefydlog.

## 2. Cysyniadau Cyfrifyddu

Mae'r cyfrifon wedi'u paratoi yn unol â'r egwyddorion a’r cysyniadau cyfrifyddu sylfaenol a threiddiol canlynol:

- Bod yn berthnasol
- Bod yn ddibynadwy
- Bod yn gymharol
- Bod yn ddealladwy
- Bod yn ddefnyddiol
- Cynrychioli’n ffyddlon
- Bod yn amserol
- Croniadau
- Busnes gweithredol
- Gofynion deddfwriaethol yn ofynion uchaf

Mae'r egwyddorion a’r cysyniadau hyn wedi’u defnyddio wrth ddewis a chymhwyso polisïau cyfrifyddu a thechnegau amcangyfrif ac wrth lunio barn broffesiynol.

## 3. Croniadau Incwm a Gwariant

Mae incwm gan gwsmeriaid ac eraill ar ffurf gwerthu nwyddau, ffioedd, taliadau, rhenti a chymorth grant yn cael eu cronni a rhoddir cyfrif amdanynt yn y cyfnod y derbynnir yr incwm. Mae pob dyled y gwyddys na ellir eu casglu yn cael eu dileu ar yr adeg y daw’n amlwg na ellir eu casglu. Codir cost lawn y gweithwyr ar y cyfrifon am y cyfnod yr oedd y gweithwyr yn gweithio. Nid yw costau teithio a ad-delir yn cael eu cronni ar gyfer y 12fed mis o bob blwyddyn. Cronnir y llog sy'n daladwy ar fenthyciadau allanol ac incwm llog a’u cynnwys yn y cyfrifon ar gyfer y cyfnod dan sylw, i'r graddau y mae'r symiau yn berthnasol. Mae costau cyflenwadau a gwasanaethau yn cael eu cronni a’u cynnwys yng nghyfrifon y cyfnod y cawsant eu defnyddio neu eu derbyn. Nid yw biliau chwarterol (megis biliau cyfleustodau) ac ati yn cael eu cronni cyn belled â bod tâl cyfatebol blynyddol eisoes wedi’i wneud yn y cyfrifon.

## 4. Asedau Wrth Gefn a Rhwymedigaethau Wrth Gefn

Nid yw Asedau a Rhwymedigaethau wrth gefn yn cael eu cynnwys yn y Datganiadau Ariannol, ond yn cael eu datgelu drwy nodyn i’r Fantolen. Bydd y nodyn, pan fo angen, yn dynodi natur yr ased neu rwymedigaeth ac amcangyfrif o'i heffaith ariannol bosibl ac amseru.

## 5. Digwyddiadau ar ôl dyddiad y fantolen

Pan fo digwyddiad ar ôl y Fantolen yn rhoi tystiolaeth o amodau oedd yn bod ar ddyddiad y fantolen, bydd y symiau a nodir yn y cyfrifon yn cael eu haddasu. Pan fo digwyddiad ar ôl dyddiad y fantolen ac yn arwydd o amodau a gododd ar ôl dyddiad y fantolen, ni fydd symiau a nodir yn y cyfrifon yn cael eu haddasu, a bydd y digwyddiad yn cael ei ddatgelu mewn nodyn i'r datganiadau, os yw'n berthnasol. Fodd bynnag, yn ystod y flwyddyn, ni fu unrhyw ddigwyddiadau o'r fath.

## 6. Addasiadau Blwyddyn Flaenorol

Ym mlwyddyn ariannol 2017/18, newidiodd yr Awdurdod ei bolisi ar ailddyrannu costau cymorth i ddefnyddwyr gwasanaethau. Bellach, mae'r costau hyn i'w gweld fel eitem ar linell ar wahân yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Felly, at ddibenion cymharu, bu newid yn y data ar gyfer 2016/17 yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Dadansoddiad Gwariant a Chyllido a'r nodiadau cysylltiedig. Mae rhagor o fanylion yn Nodyn 41 i'r Datganiadau.

## 7. Tâl cyfieithu mewn arian tramor

Mae incwm a gwariant sy'n deillio o unrhyw drafodion mewn arian tramor yn cael ei drosi i arian punnoedd sterling.

## 8. Grantiau a Dderbyniwyd

Mae grantiau a dderbyniwyd yn cael eu cyfateb â'r gwariant y treuliwyd y grant arno. Mae Grant y Parc Cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru a'r Ardoll o Gyngor Sir Penfro, sy'n ariannu gweithgareddau cyffredinol yr Awdurdod, yn cael eu credydu i'r cyfrif refeniw am y cyfnod y maent yn daladwy. Mae Grantiau Refeniw ar gyfer gwasanaethau penodol yn cael eu cyflwyno yn erbyn y gwasanaethau hynny yn y Cyfrif Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Lle bo prynu ased sefydlog yn cael ei ariannu naill ai'n gyfan gwbl neu'n rhannol gan grant gan sefydliad arall, mae swm y grant yn cael ei gredydu i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf. Mae newidiadau yn y rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol bod rhaid i grantiau a chyfraniadau at ddibenion refeniw, oni bai nad yw unrhyw amodau wedi'u bodloni, gael eu nodi yn llawn yn y Cyfrif Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn y cyfnod y derbyniwyd y grantiau a chyfraniadau. Cyn hyn ni fyddai'r incwm yn cael ei nodi yn y Cyfrif Incwm a Gwariant Cynhwysfawr hyd nes y cyfnod o gyfateb y gwariant. Fodd bynnag, gall Awdurdodau ystyried clustnodi incwm grant refeniw o'r fath hyd nes y caiff ei ddefnyddio. Mae trosglwyddiadau o'r Gronfa Gyffredinol i gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd yn cael eu cynnwys yn y Datganiad am Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn (MiRS) yn y llinell i gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd neu o'r cronfeydd hynny.

## 9. Cyfrifon Grŵp

Nid yw Cyfrifon Grŵp yn berthnasol i gyfrifon 2017/18 yr Awdurdod, gan nad oes unrhyw gysylltiad yn bodoli ag unrhyw is-gwmnïau, cwmni cyswllt na mentrau ar y cyd fel y diffinnir at ddibenion adrodd.

## 10. Asedau Anniriaethol

Mae asedau anniriaethol yn cael eu cario ar gost hanesyddol ac yn dibrisio dros bedair blynedd.

## 11. Buddsoddiadau ac Offerynnau Cyfalaf

Nid yw'r Awdurdod yn dal unrhyw fuddsoddiadau mewn cwmnïau rhestredig na chwmnïau heb eu rhestru. Mae arian dros ben yn cael ei adneuo mewn cyfrifon marchnad arian tymor byr gyda bancwyr yr Awdurdod, Lloyds a NatWest. Nid yw'r Awdurdod yn cyhoeddi nac yn dal unrhyw offerynnau cyfalaf sydd wedi'u rhestru neu a fasnachwyd yn gyhoeddus ar gyfnewidfa neu'r farchnad stoc.

## 12. Prydlesi
Mae'r Awdurdod yn rheoli Prydlesi Gweithredu ar gyfer y prif beiriannau llungopïo ac ar gyfer y rhan fwyaf o'r cerbydau, gan gynnwys cerbydau a ddarperir i staff enwebedig o dan y Cynllun Car Prydles Staff. Codir taliadau prydles yn llawn yn ôl y dyddiad taladwy ar sail llinell syth, gan sicrhau tâl blynyddol cyfartal i gyfrifon refeniw y gwasanaeth drwy gydol oes y brydles. Mae’r cyfraniadau gan staff sy'n elwa o’r Cynllun Car Prydles yn cael eu credydu i'r cyfrif refeniw yn ystod cyfnod eu derbyn.

Mae'r Awdurdod yn rhentu sawl eiddo i gynnal ei wasanaethau, ac mae’r costau rhentu yn cael eu cyfrif ar sail llinell syth yn y cyfnodau rhent perthnasol. Mae'r Awdurdod hefyd yn rhentu allan nifer o adeiladau sy'n eiddo i’r Awdurdod nad oes eu hangen ar gyfer darparu gwasanaeth yn uniongyrchol. Mae'r adeiladau yn cael eu cynnwys fel asedau sefydlog yn y fantolen, ac mae’r incwm sy'n deillio o’r adeiladau hyn yn cael ei gyfrif ar sail llinell syth yn y cyfnodau rhent perthnasol.

Nid oes unrhyw Brydles Cyllid yn bodoli.

## 13. Adennill Costau Rheoli Gwasanaeth a Chostau Gwasanaeth Cynnal
Mae’r Awdurdod wedi newid ei bolisi o ran y costau Gwasanaethau Cynnal. Nid ydynt bellach yn cael eu hadennill gan ddefnyddwyr gwasanaethau.

## 14. Buddiannau Gweithwyr
Mae’r buddiannau gweithwyr tymor byr yn cynnwys taliadau a chyflogau, gwyliau blynyddol â thâl ac absenoldeb salwch â thâl ac yn cael eu cydnabod fel traul ar gyfer gwasanaethau yn y flwyddyn y mae gweithwyr yn gweithio i'r Awdurdod. Gwneir croniad ar gyfer cost hawliau gwyliau, gan gynnwys oriau hyblyg, a enillwyd gan gyflogeion ond heb eu cymryd cyn diwedd y flwyddyn y gall gweithwyr eu cario ymlaen i'r flwyddyn ariannol nesaf. Mae'r croniad yn cael ei godi ar Warged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau ac yna eu gwrthdroi allan drwy'r Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn.

Buddiannau terfynu yw symiau sy'n daladwy o ganlyniad i benderfyniad gan yr Awdurdod i derfynu cyflogaeth swyddog cyn y dyddiad ymddeol arferol neu benderfyniad swyddog i dderbyn colli swydd yn wirfoddol, ac mae’r symiau hyn yn cael eu codi ar sail croniadau ar y gwasanaeth priodol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Lle bo buddiannau terfynu yn golygu ategu pensiynau, mae’r darpariaethau statudol yn ei gwneud yn ofynnol bod swm sy'n daladwy gan yr Awdurdod i'r gronfa bensiwn neu i bensiynwr yn y flwyddyn yn cael ei godi ar y balans Cronfa Gyffredinol Wrth Gefn. Mae'r Datganiad Cyfrifon yn cynnwys datganiad i ddatgelu gwybodaeth mewn perthynas â phecynnau ymadael.

Roedd mabwysiadu'r newidiadau 2011 i IAS 19 am y tro cyntaf yn 2013/14 yn ei gwneud yn ofynnol i ddatgelu bod dosbarthiadau newydd o gydrannau cost buddiannau diffiniedig i’w cydnabod yn y datganiadau ariannol (h.y. llog net ar y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig net (ased) ac ail-fesur y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig net (ased), a lle bo effaith berthnasol, diffiniadau neu feini prawf cydnabod newydd ar gyfer costau gwasanaeth (e.e. costau gwasanaeth yn y gorffennol) a meini prawf cydnabod newydd ar gyfer buddiannau terfynu gwasanaeth. Dyddiad y newid yn y polisi cyfrifyddu yw o’r 1af o Ebrill 2013.

Mae gan weithwyr yr Awdurdod fynediad at Gronfa Bensiwn Dyfed, cynllun buddiannau diffiniedig, a weinyddir gan Gyngor Sir Caerfyrddin. Mae'r gost o ddarparu pensiynau i weithwyr yn cael ei ariannu yn unol â’r gofynion statudol sy'n rheoli’r cynllun y mae'r Awdurdod yn rhan ohono. Fodd

bynnag, mae cyfrifyddu ar gyfer y pensiynau hyn i'w wneud yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol fel y'u dehonglir gan y Cod. Lle nad yw'r taliadau a wnaed am y flwyddyn yn unol â gofynion y cynllun yn cyd-fynd â'r newid yn ased neu rwymedigaeth cydnabyddedig yr Awdurdod ar gyfer yr un cyfnod, ni fydd y gost pensiynau a gydnabyddir yn cyd-fynd â'r swm sydd i'w dalu drwy gyllid net cymeradwy. Mae hyn yn cael ei gynrychioli gan ddyraniad i neu o gronfa wrth gefn y pensiwn sy'n cyfateb i'r newid net mewn rhwymedigaeth pensiwn a gydnabyddir yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Mae asedau'r gronfa yn cael eu mesur yn ôl eu gwerth teg ar ddyddiad y fantolen ac mae unrhyw rwymedigaethau, megis treuliau cronedig, yn cael eu didynnu. Mae rhwymedigaethau'r cynllun yn cael eu mesur ar sail actiwaraidd drwy ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau. Mae rhwymedigaethau'r cynllun yn cynnwys:

- Unrhyw fuddiannau a addawyd o dan delerau ffurfiol y cynllun; ac
- Unrhyw rwymedigaethau deongliadol ar gyfer buddiannau pellach lle bo datganiad cyhoeddus neu arfer blaenorol gan y cyflogwr wedi creu disgwyliad dilys yn y gweithwyr y bydd y buddiannau hynny yn cael eu caniatáu.

Y gwarged/diffyg yn y cynllun yw gwerth ychwanegol/diffyg gwerth yr asedau yn y cynllun sy'n uwch/is na gwerth presennol rhwymedigaethau'r cynllun. Dylai'r Awdurdod gydnabod ased i'r graddau ei fod yn gallu adennill gwarged, naill ai drwy gyfraniadau is yn y dyfodol neu drwy ad-daliadau o'r cynllun. Dylai'r Awdurdod gydnabod rhwymedigaeth i'r graddau y mae'n amlygu ei ymrwymiadau cyfreithiol neu ddeongliadol. Mae unrhyw newidiadau i ased neu rwymedigaeth buddiannau diffiniedig yn cael eu rhannu i'w rhannau cyfansoddol.

**15. <u>Darpariaethau</u>**

Gwneir darpariaethau a'u codi ar y cyfrif refeniw priodol pan fydd gan yr Awdurdod rwymedigaeth bresennol sy'n seiliedig ar ddigwyddiad yn y gorffennol, lle mae'n debygol y bydd trosglwyddo budd economaidd yn digwydd a lle gellir gwneud amcangyfrif dibynadwy o werth y budd. Codir y darpariaethau ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, ond pan wneir y gwariant, codir y gwariant yn uniongyrchol ar y ddarpariaeth. Adolygir y darpariaethau ar ddiwedd pob cyfnod ac eithrio colledion ac eitemau gweithredu yn y dyfodol lle nad yw bellach yn debygol y bydd trosglwyddo budd economaidd yn digwydd. Mae darpariaeth ar gyfer dyledion drwg ac amheus yn cael ei chynnwys yn y cyfrifon a'r swm cario ar gyfer dyledwyr wedi'i addasu yn unol â hynny.

**16. <u>Ymchwil a Datblygu</u>**

Mae gwariant ar ymchwil a datblygu yn cael ei ystyried fel rhan o weithgareddau parhaus yr Awdurdod ac mae'n cael ei ddileu fel y mae'n digwydd.

**17. <u>Cronfeydd wrth gefn</u>**

Cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd yw'r symiau refeniw a osodir o'r neilltu, gyda chymeradwyaeth ymlaen llaw, at ddiben penodol, sydd y tu allan i'r diffiniad o ddarpariaethau. Mae trosglwyddiadau i ac o Gronfeydd a Glustnodwyd yn cael eu datgelu yn y Datganiad Symudiad ym Malans Cronfeydd wrth Gefn yr Awdurdod fel Trosglwyddiad Net i neu o'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd. Cronfeydd wrth gefn cyffredinol yw balansau a ddelir at ddibenion wrth gefn a dibenion llif arian, ac nid ydynt yn cael eu clustnodi ar gyfer dibenion penodol eraill. Rhoddir cydnabyddiaeth i Fwletin LAAP 77 – Nodyn Cyfarwyddyd ar Arian Wrth Gefn a Balansau Awdurdodau Lleol wrth adolygu a monitro lefelau'r cronfeydd wrth gefn. Nid yw cronfeydd cyfalaf wrth gefn ar gael at ddibenion refeniw. Mae'r Cyfrif Addasu Cyfalaf yn gyfrif na ddosberthir a ddelir at ddibenion y fantolen yn unig. Gall y gronfa derbyniadau cyfalaf wrth gefn y gellir ei defnyddio a'r gronfa wrth gefn grantiau

cyfalaf na ddefnyddiwyd ond cael eu defnyddio ar gyfer dibenion gwariant cyfalaf, ac mae’r gronfa grantiau cyfalaf yn amlygu’r grantiau cyfalaf a dderbyniwyd ond heb eto eu defnyddio ar brosiectau cyfalaf.

**18. Rhestrau eiddo a Chontractau Tymor Hir**

Mae’r stociau o nwyddau masnachu, coed, stampiau a thocynnau pontydd yn cael eu cynnwys yn y cyfrifon ar sail cost. Mae hyn yn groes i’r arfer a argymhellir sy'n ei gwneud yn ofynnol bod stoc yn cael ei ddangos ar yr *isaf o* gost wirioneddol, neu'r gwerth credadwy net. Nid yw'r gwahaniaeth yn cael ei ystyried i fod yn sylweddol. Mae stoc anfaterol arall megis deunydd ysgrifennu, yn cael ei drin fel gwariant cyfredol a godir yn uniongyrchol i'r refeniw.

**19. Asedau Anghyfredol**

Mae asedau sefydlog yn cynnwys gwariant cyfalaf ar y canlynol:

- Pob pryniant tir ac adeiladau.
- Gwella tir ac adeiladau sy’n costio mwy na £10,000.
- Pob eitem (megis cerbydau ac offer) sydd ag oes ddefnyddiol o fwy na blwyddyn sy’n costio neu sydd werth mwy na £10,000 naill ai'n unigol neu ar y cyd. Mae gwariant ar atgyweiriadau a gwaith cynnal-a-chadw cyffredinol yn cael ei godi yn uniongyrchol i'r refeniw ac nid ei gyfalafu.

Caiff asedau sefydlog eu mesur i ddechrau am y gost, ond wedyn yn cael eu hailbrisio ar raglen dreigl o ailbrisio bob 5 mlynedd er mwyn sicrhau bod eu gwerth yn cael ei amlygu’n gywir ym mantolen yr Awdurdod. Swyddog Ystadau cymwys yr Awdurdod sy’n gwneud yr ailbrisio, ynghyd â Chyngor Sir Caerfyrddin a syrfewyr cymwys a gyflogir gan RK Lucas a’i Fab, yn unol â Llawlyfr Arfarnu a Phrisio RICS a Chanllawiau CIPFA sy’n berthnasol i Brisiadau Asedau.

Pan fydd asedau yn cael eu hailbrisio, bydd unrhyw wahaniaeth rhwng y gwerthoedd a nodwyd a’r gost hanesyddol yn cael ei gynrychioli yn y Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn.

Mae’r asedau anghyfredol yn cael eu cario yn y Fantolen fel a ganlyn:

- Caiff asedau eiddo gweithredol, offer a chyfarpar eu cario ar eu gwerth presennol i’r Awdurdod yn eu defnydd presennol.
- Caiff asedau eiddo anweithredol, offer a chyfarpar – asedau dros ben – eu cario ar eu gwerth teg.
- Caiff asedau anweithredol yn ystod y gwaith adeiladu / datblygu eu cofnodi ar gost.
- Seilwaith – cost hanesyddol dibrisiedig.
- Asedau cymunedol – cost hanesyddol dibrisiedig neu brisiad yn hytrach na gwerth cyfredol neu deg.
- Asedau a gedwir i’w gwerthu – wedi’u mesur ar werth isaf eu swm cario a gwerth teg yn llai o’r costau gwerthu. Mae’r asedau anghyfredol hyn yn cael eu cymryd y tu allan i gwmpas y cyfrifyddu cyfalaf hyd nes eu bod yn cael eu gwerthu er eu bod yn parhau yn ddarostyngedig i drefniadau ariannu cyfalaf o dan y Fframwaith Materion Ariannol.

Yn unol â’r newidiadau yn y rheoliadau cyfrifyddu o fis Ebrill 2007 mae’r asedau sy'n destun ailbrisio cadarnhaol wedi cael eu hamlygu yn y Gronfa Ailbrisio, ac mae’r asedau ag ailbrisio negyddol, heb falans wrth gefn ailbrisiadau blaenorol, wedi cael eu codi ar y datganiad Cyfrif Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Nid yw gwerth yr asedau yn cael eu newid pan nad yw'r Awdurdod yn ymwybodol o unrhyw newid perthnasol mewn gwerth ased.

Nid yw enillion o werthu asedau unigol o £10,000 neu lai yn cael eu trin fel derbyniadau cyfalaf ond yn hytrach yn cael eu credydu yn uniongyrchol i'r cyfrif refeniw. Mae enillion sy'n uwch na £10,000 yn cael eu credydu i'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Defnyddiadwy, ar sail croniadau.

Ar ôl gwaredu ased, mae gwerth llyfr net yr ased yn cael ei ddileu yn erbyn y Cyfrif Addasu Cyfalaf. Lle bo ased sefydlog yn cael ei waredu am resymau heblaw ystyriaeth arian parod, neu bod taliad yn cael ei ohirio, mae ased cyfatebol yn cael ei gydnabod a'i gynnwys yn y fantolen ar ei werth priodol.

Codir dibrisiant ar bob ased sefydlog sydd ag oes ddefnyddiol gyfyngedig, gan gyfrifyddu am werthoedd gweddilliol a amcangyfrifir. Y cyfraddau dibrisio, ar sail llinell syth, yw fel a ganlyn:

- Ni ddibrisir tir rhyddfraint.
- Dibrisir adeiladau rhyddfraint dros 25 mlynedd fel arfer, er bod oes ddefnyddiol rhai asedau yn cael eu pennu o dan yr Adroddiad Prisio Asedau neu gyngor allanol.
- Dibrisir meysydd parcio i 50% dros 25 mlynedd.
- Dibrisir offer a pheiriannau dros 10 mlynedd.
- Dibrisir Asedau Anniriaethol dros 4 blynedd.
- Dibrisir offer technoleg gwybodaeth dros 4 blynedd.
- Dibrisir cerbydau ac offer dros 5 mlynedd.
- Adolygir asedau a ddibrisiwyd yn llawn i ganfod a yw eu gwerth yn y fantolen a'u hoes yn y dyfodol yn cael eu cynrychioli'n briodol. Lle bo angen, mae oes dibrisiadwy ased yn cael ei hymestyn neu mae asedau yn cael eu hailbrisio i gyrraedd y gynrychiolaeth briodol.
- Nid yw asedau adeg eu hadeiladu yn cael eu dibrisio. Ni chodir dibrisiant ym mlwyddyn y caffael neu drosglwyddo asedau, ond codir dibrisiant ym mhob blwyddyn ddilynol, lle bo'n berthnasol, gan gynnwys y flwyddyn waredu.

Drwy fabwysiadu safon Mesur Gwerth Teg IFRS 13 mae unrhyw asedau sydd dros ben a ddelir gan yr Awdurdod (asedau nad ydynt yn cael eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau, ond nad ydynt yn bodloni'r meini prawf i'w dosbarthu fel eiddo buddsoddi nac yn asedau anghyfredol a ddelir i'w gwerthu) yn cael eu hailbrisio ar werth y farchnad yn hytrach na gwerth eu defnydd presennol. Mae asedau eiddo gweithredol, offer a chyfarpar y tu allan i gwmpas IFRS 13.

Pan ddaw'n debygol y bydd swm cario ased yn cael ei adennill yn bennaf drwy ei werthu yn hytrach na thrwy barhau i'w ddefnyddio, caiff ei ail-ddosbarthu fel Ased a Ddelir i'w Werthu. Mae'r ased yn cael ei ailbrisio yn syth cyn ail-ddosbarthu ac yna yn cael ei gario ar yr isaf o'r swm hwn a gwerth teg yn llai o'r costau gwerthu. Pan fo gostyngiad dilynol i werth teg yn llai o'r costau gwerthu, caiff y golled ei bostio i'r llinell Gwariant Gweithredu Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Mae'r enillion mewn gwerth teg yn cael eu cydnabod dim ond hyd at swm unrhyw golledion a gydnabyddir yn y Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau. Ni chodir tâl ar ddibrisiad ar Asedau a Ddelir i'w Gwerthu.

Os na fydd asedau bellach yn bodloni'r meini prawf i'w dosbarthu fel Asedau a Ddelir i'w Gwerthu, fe'u hailddosberthir yn ôl i asedau anghyfredol a'u prisio ar yr isaf o'u swm cario cyn iddynt gael eu dosbarthu fel rhai a ddelir i'w gwerthu; wedi'u haddasu ar gyfer dibrisio, amorteiddio neu ailbrisio fyddai wedi cael eu cydnabod pe na baent wedi eu dosbarthu fel Asedau a Ddelir i'w Gwerthu, a'u swm adferadwy ar ddyddiad y penderfyniad i beidio â gwerthu. Ni chaiff asedau sydd i'w gadael neu eu gwaredu fel sgrap eu hailddosbarthu fel Asedau a Ddelir i'w Gwerthu.

Pan gaiff ased ei waredu neu ei ddadgomisiynu, caiff swm yr ased yn y Fantolen (boed yn Eiddo, Offer a Chyfarpar neu Asedau a Ddelir i'w Gwerthu) ei ddileu i'r llinell Gwariant Gweithredol Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o'r ennill neu'r golled ar waredu. Mae arian

a dderbynnir drwy waredu eiddo (os o gwbl) yn cael ei gredydu i'r un llinell yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr hefyd fel rhan o'r enillion neu'r colledion ar waredu. Caiff unrhyw enillion ailbrisio a gronnwyd ar gyfer yr ased yn y Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn eu trosglwyddo i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf. Nid yw gwerth dileu asedau a waredwyd yn gost refeniw gan fod cost yr asedau anghyfredol yn cael ei ddarparu'n llawn o dan drefniadau ariannu ar wahân ar gyfer ariannu cyfalaf. Caiff symiau eu neilltuo i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf o’r Balans Cronfa Gyffredinol yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn.

**20. Taliadau Cyfalaf a Gwariant Refeniw a Gyllidir o Gyfalaf dan Statud**

Mae cost gwasanaethau yn y Cyfrif Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn cynnwys tâl cyfalaf ar gyfer pob ased sefydlog a ddefnyddir gan bob gwasanaeth, fel y cofnodwyd yn y fantolen ar 31ain o Fawrth 2018. Mae'r taliadau hyn yn cyfateb i swm y dibrisiant. Mae Balans y Gronfa Gyffredinol yn cael ei addasu fel nad yw’r canlyniad cyffredinol yn cael unrhyw effaith ariannol ar y symiau a godir o Grant y Parc Cenedlaethol a'r Ardoll Awdurdod Lleol – hynny yw, mae'r addasiadau yn hunan-gydbwyso. Mae pob gwariant ar atgyweiriadau a chynnal-a-chadw sy'n ymwneud ag asedau sefydlog yn cael ei godi ar gyfrif refeniw y gwasanaeth priodol. Mae taliadau sydd dan ddeddfwriaeth yn cael eu hariannu o adnoddau cyfalaf ond lle nad oes unrhyw asedau sefydlog yn cael eu creu yn cael eu codi ar y gwasanaeth priodol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Mae'r taliadau hyn yn cael eu gwrthdroi allan yn y Datganiad ar Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn gyda thâl cyfartal i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf.

**21. Rhwymedigaethau Gohiriedig**

Nid oedd unrhyw rwymedigaethau gohiriedig wedi codi yn ystod y flwyddyn nac wedi eu cario ymlaen o flynyddoedd blaenorol.

**22. Taliadau a Derbyniadau llog**

Mae arian dros ben, ar gael drwy reoli llif arian yn ddoeth, yn cael ei fuddsoddi drwy Fanciau Lloyds a NatWest sy’n cynhyrchu derbyniadau llog a gredydir i'r Cyfrif Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

**23. Treth Ar Werth**

Mae'r cyfrifon wedi cael eu paratoi heb gynnwys TAW.

**24. Eiddo Buddsoddi**

Mae'r Awdurdod yn dal eiddo buddsoddi sydd yn ddosbarth ar wahân o eiddo (tir neu adeilad, neu ran o adeilad, neu'r ddau) a gedwir yn unswydd i ennill rhent neu ar gyfer arbrisiant cyfalaf, neu'r ddau, ac sy’n cael eu cario ar eu gwerth ar y farchnad. Mae incwm rhent o eiddo buddsoddi a lleihad yng ngwerth Eiddo Buddsoddi yn cael eu dangos yn y llinell Cyllido ac Incwm a Gwariant Buddsoddi o’r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Mae eiddo buddsoddi yn cael ei gario ar werth teg ac yn dilyn y manylebau yn IFRS 13 ar y defnydd uchaf a gorau.

**25. Asedau Treftadaeth**

O’r 1af o Ebrill 2010 mae’n ofynnol i'r Awdurdod gofnodi Asedau Treftadaeth ar wahân i’r asedau eraill. Asedau Treftadaeth yw asedau a gedwir mewn ymddiriedolaeth ar gyfer cenedlaethau’r dyfodol oherwydd eu cysylltiadau diwylliannol, amgylcheddol neu hanesyddol. Mae Asedau Treftadaeth yn cael eu rhannu rhwng asedau diriaethol ac anniriaethol: ased diriaethol yw ased sydd â rhinweddau hanesyddol, artistig, gwyddonol, technolegol, geoffisegol neu amgylcheddol sy'n cael ei dal a'i chynnal yn bennaf am ei chyfraniad at wybodaeth a diwylliant; ased anniriaethol yw ased sydd ag arwyddocâd diwylliannol, amgylcheddol, neu hanesyddol. Mae enghreifftiau o asedau treftadaeth anniriaethol yn cynnwys recordiadau o ddigwyddiadau hanesyddol arwyddocaol. Nid yw'r Awdurdod yn dal unrhyw asedau anniriaethol. Mae'r adolygiad o'r lleihad mewn gwerth, caffael a

gwaredu asedau treftadaeth wedi'i gynnwys yn Grŵp Rheoli Asedau'r Awdurdod.  Mae Asedau Treftadaeth yn destun rhaglen dreigl arferol yr Awdurdod o ailbrisio asedau bob pum mlynedd ac yn cael eu prisio ar sail cost hanesyddol.  Mae dibrisiant Asedau Treftadaeth, lle bo'n briodol, yn unol â'r polisi cyffredinol ar ddibrisiant.

# Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

## Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr

### 1af o Ebrill 2017 – 31ain o Fawrth 2018

### £000’oedd

| | 31 Mawrth 2018 | | | 31 Mawrth 2017* | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Gwariant** | **Incwm** | **Net** | **Gwariant** | **Incwm** | **Net** |
| Cadwraeth yr Amgylchedd Naturiol | 389 | -21 | 368 | 372 | -31 | 341 |
| Cadwraeth y Dreftadaeth Ddiwylliannol | 130 | -1 | 129 | 149 | -2 | 147 |
| Rheoli Datblygu | 518 | -283 | 235 | 452 | -205 | 247 |
| Blaengynllunio a Chymunedau | 416 | - | 416 | 403 | -13 | 390 |
| Hyrwyddo Dealltwriaeth | 1,757 | -754 | 1,003 | 1,638 | -782 | 856 |
| Hamdden a Thrafnidiaeth | 801 | -666 | 135 | 645 | -651 | -6 |
| Parcmyn, Ystadau a Gwirfoddolwyr | 1,189 | -138 | 1,051 | 1,156 | -113 | 1,043 |
| Cynrychiolaeth a Rheolaeth Ddemocrataidd | 472 | -10 | 462 | 435 | -13 | 422 |
| Costau Gwasanaethau Cymorth | 1,125 | -20 | 1,105 | 953 | -31 | 922 |
| Cost Cyn Wasanaeth (Nodyn 40) | 29 | - | 29 | 25 | - | 25 |
| **Cost y Gwasanaethau** | **6,826** | **-1,893** | **4,933** | **6,228** | **-1841** | **4,387** |
| Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi (Nodyn 8) | | | 23 | | | 1,006 |
| Gwariant Gweithredu Arall (Nodyn 9) | | | 15 | | | 28 |
| Incwm Trethiant a Grant Amhenodol (Nodyn 10) | | | -5,153 | | | -4,773 |
| **(Gwarged) neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau** | | | **-182** | | | **648** |
| Gwarged neu ddiffyg ar ailbrisio asedau sefydlog (Nodyn 11) | | | -109 | | | -163 |
| Enillion/colledion actiwaraidd ar asedau/rhwymedigaethau pensiwn (Nodyn 40) | | | -1,593 | | | 898 |
| **Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall** | | | **-1,702** | | | **735** |
| **Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (Nodyn 6)** | | | **-1,884** | | | **1,383** |

* Mae’r ffigurau am y flwyddyn sy’n diweddu ar 31 Mawrth 2017 wedi’u haddasu ers y rhai a gyhoeddwyd yn wreiddiol, fel yn Nodyn 41.

**Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro**

**MANTOLEN**

***Ar yr 31ain o Fawrth 2018***

**£000'oedd**

| **Ar:** | **31 Mawrth 2018** | **31 Mawrth 2017** |
|---|---|---|
| | | |
| Eiddo, Peiriannau ac Offer (Nodyn 11) | 10,465 | 9,956 |
| Asedau a Ddelir i'w Gwerthu (Nodyn 11) | - | 500 |
| Asedau Treftadaeth (Nodyn 11) | 171 | 171 |
| Asedau Anniriaethol (Nodyn 11) | 18 | 7 |
| Eiddo Buddsoddi (Nodyn 12) | 1,436 | 1,428 |
| Dyledwyr Tymor Hir (Nodyn 17) | 5 | - |
| **Asedau Tymor Hir** | **12,095** | **12,062** |
| | | |
| Rhestrau eiddo (Nodyn 16) | 131 | 153 |
| Dyledwyr Tymor Byr (Nodyn 17) | 272 | 289 |
| Arian parod ac arian cyfatebol (Nodyn18) | 4,481 | 3,456 |
| **Asedau cyfredol** | **4,884** | **3,898** |
| | | |
| Credydwyr Tymor Byr (Nodyn 20) | -507 | -471 |
| Darpariaethau (Nodyn 20) | -8 | -9 |
| **Rhwymedigaethau Cyfredol** | **-515** | **-480** |
| | | |
| Rhwymedigaeth Pensiwn (Nodyn 40) | -3,738 | -4,638 |
| **Rhwymedigaethau Tymor Hir** | **-3,738** | **-4,638** |
| | | |
| **Asedau Net** | **12,726** | **10,842** |
| | | |
| Cronfeydd defnyddiadwy (Nodyn 21) | 4,447 | 3,493 |
| Cronfeydd annefnyddiadwy (Nodyn 22) | 8,279 | 7,349 |
| **Cyfanswm Cronfeydd wrth gefn** | **12,726** | **-10,842** |

# Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd wrth gefn

## *1af o Ebrill 2016 – 31ain o Fawrth 2017*

## £000'oedd

| | Balans Cronfa Gyffredinol | Cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi | Cronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf | Grantiau Cyfalaf heb eu defnyddio | Cyfanswm Cronfeydd wrth gefn Defnyddiadwy | Cronfa Wrth Gefn Ailbrisio | Cyfrif Addasu Cyfalaf | Cronfa Wrth Gefn Pensiynau | Cronfa Wrth Gefn Iawndal cronnol Annefnyddiadwy | Cronfeydd wrth gefn annefnyddiadwy | Cyfanswm Cronfeydd wrth gefn yr Awdurdod |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Balans ar 31 Mawrth 2016 | **702** | **1,789** | **281** | **-** | **2,772** | **2,558** | **10,313** | **-3,368** | **-49** | **9,454** | **12,226** |
| | | | | | | | | | | | |
| Gwarged neu (ddiffyg) ar ddarparu gwasanaethau | **-648** | | | | **-648** | | | | | | **-648** |
| Gwariant ac Incwm Cynhwysfawr Arall | | | | | | **163** | | **-898** | | **-735** | **-735** |
| Cyfanswm Gwariant ac Incwm Cynhwysfawr | **-648** | | | | **-648** | **163** | | **-898** | | **-735** | **-1,383** |
| Addasiadau rhwng sail gyfrifyddu a sail gyllido dan reoliadau (Nodyn 6) | **1,369** | | | | **1,369** | **-35** | **-962** | **-372** | | **-1,369** | **-** |
| | | | | | | | | | | | |
| **Cynnydd/Gostyngiad Net cyn Trosglwyddo i'r Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd** | **721** | | | | **721** | **128** | **-962** | **-1,270** | | **-2,104** | **-1,383** |
| | | | | | | | | | | | |
| Trosglwyddiadau i/o Gronfeydd a Glustnodwyd (Nodyn 7) | **-484** | **484** | | | | | | | | | **-** |
| Cynnydd/Gostyngiad yn y Flwyddyn | **237** | **484** | | | **721** | **128** | **-962** | **-1,270** | | **-2,104** | **-1,383** |
| Talgrynnu | | | | | | **-1** | | | | **-1** | **-1** |
| Balans ar 31 Mawrth 2017 a gariwyd ymlaen | **939** | **2,273** | **281** | **-** | **3,493** | **2,685** | **9,351** | **-4,638** | **-49** | **7,249** | **10,842** |

# <u>Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd wrth gefn</u>

## *1af o Ebrill 2017 – 31ain o Fawrth 2018*

## £000'oedd

| | Balans Cronfa Gyffredinol | Cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi | Cronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf | Grantiau Cyfalaf heb eu defnyddio | Cyfanswm Cronfeydd wrth gefn Defnyddiadwy | Cronfa Wrth Gefn Ailbrisio | Cyfrif Addasu Cyfalaf | Cronfa Wrth Gefn Pensiynau | Cronfa Wrth Gefn Iawndal cronnol Annefnyddiadwy | Cronfeydd wrth gefn annefnyddiadwy | Cyfanswm Cronfeydd wrth gefn yr Awdurdod |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Balans ar 31 Mawrth 2017** | **939** | **2,273** | **281** | **-** | **3,493** | **2,685** | **9,351** | **-4,638** | **-49** | **7,249** | **10,842** |
| | | | | | | | | | | | |
| **Gwarged neu (ddiffyg) ar ddarparu gwasanaethau** | **182** | | | | **182** | | | | | | **182** |
| **Gwariant ac Incwm Cynhwysfawr Arall** | | | | | | 109 | | **1,593** | | **1,702** | **1,702** |
| **Cyfanswm Gwariant ac Incwm Cynhwysfawr** | **182** | | | | **182** | **109** | | **1,593** | | **1,702** | **1,884** |
| **Addasiadau rhwng sail gyfrifyddu a sail gyllido dan reoliadau (Nodyn 6)** | 790 | | -18 | | 772 | -33 | -47 | -694 | 2 | -772 | - |
| | | | | | | | | | | | |
| **Cynnydd/Gostyngiad Net cyn Trosglwyddo i'r Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd** | **972** | | **-18** | | **954** | **76** | **-47** | **899** | **2** | **930** | **1,884** |
| | | | | | | | | | | | |
| **Trosglwyddiadau i/o Gronfeydd a Glustnodwyd (Nodyn 7)** | **-905** | **905** | | | | | | | | | **-** |
| **Cynnydd/Gostyngiad yn y Flwyddyn** | **67** | **905** | **-18** | | **954** | **76** | **-47** | **899** | **2** | **930** | **1,884** |
| **Talgrynnu** | | | | | | **1** | **-1** | **1** | | **1** | **-** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2018 a gariwyd ymlaen** | **1,006** | **3,178** | **263** | **-** | **4,447** | **2,762** | **9,303** | **-3,738** | **-47** | **8,279** | **12,726** |

# <u>Datganiad Llif Arian</u>

## *1af Ebrill 2017 – 31ain Mawrth 2018*

## £000'oedd

| | 31 Mawrth 2018 | | 31 Mawrth 2017 |
|---|---|---|---|
| (Gwarged) neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau | **-182** | | **648** |
| Addasu gwarged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau ar gyfer Symudiadau heblaw am arian (Nodyn 24) | -1,053 | | -1,420 |
| Addasu ar gyfer eitemau a gynhwysir yn y gwarged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau sy'n weithgareddau buddsoddi a chyllido | 792 | | 185 |
| **Llifau arian parod net o Weithgareddau Gweithredu** | **-443** | | **-587** |
| Gweithgareddau Buddsoddi (Nodyn 25) | -591 | | -135 |
| Gweithgareddau Ariannu (Nodyn 25) | 9 | | 1 |
| **Cynnydd net () neu ostyngiad mewn arian parod ac arian parod cyfatebol** | **-1,025** | | **-721** |
| **Arian parod ac arian parod cyfatebol ar ddechrau'r cyfnod adrodd** | **3,456** | | **2,735** |
| **Arian parod ac arian parod cyfatebol ar ddiwedd y cyfnod adrodd** | **4,481** | | **3,456** |

# Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol

**1. SAFONAU CYFRIFYDDU SYDD WEDI EU CYHOEDDI OND HEB ETO EU MABWYSIADU**

Mae'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig (y Cod) yn ei gwneud yn ofynnol i ddatgelu gwybodaeth sy'n ymwneud ag effaith ddisgwyliedig newid cyfrifyddu fydd yn ofynnol gan safon newydd sydd wedi cael ei chyhoeddi ond heb eto ei mabwysiadu. Nid oedd unrhyw safon newydd neu safon a ddiwygiwyd o fewn Cod 2016/17 oedd yn effeithio ar yr Awdurdod.

2. **BARN FEIRNIADOL WRTH DDEFNYDDIO'R POLISÏAU CYFRIFYDDU**

Heblaw am y rhai a ddatgelwyd mewn mannau eraill yn y nodiadau hyn nid yw'r Awdurdod wedi gorfod gwneud unrhyw farn feirniadol am drafodion cymhleth na'r rhai hynny sy'n golygu ansicrwydd am ddigwyddiadau yn y dyfodol.

3. **RHAGDYBIAETHAU A WNEIR AM Y DYFODOL A FFYNONELLAU ERAILL O AMCANGYFRIF ANSICR**

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn cynnwys ffigyrau amcangyfrifedig sydd wedi'u seilio ar ragdybiaethau a wnaed gan yr Awdurdod am y dyfodol neu sydd fel arall yn ansicr. Gwneir amcangyfrifon gan ystyried profiad hanesyddol, tueddiadau cyfredol a ffactorau perthnasol eraill. Fodd bynnag, oherwydd na ellir pennu balansau gyda sicrwydd, gallai'r canlyniadau gwirioneddol fod yn sylweddol wahanol i'r tybiaethau a'r amcangyfrifon.

Ym Mantolen yr Awdurdod ar 31 Mawrth 2018 mae risg o orfod gwneud addasiad perthnasol yn y flwyddyn ariannol sydd i ddod ym maint y rhwymedigaeth pensiwn. Mae amcangyfrif y rhwymedigaeth net i dalu pensiynau yn dibynnu ar nifer o ddyfarniadau cymhleth sy'n ymwneud â'r gyfradd disgownt a ddefnyddir, y gyfradd y rhagwelir y bydd cyflogau yn codi, newidiadau mewn oedrannau ymddeol, cyfraddau marwolaeth a'r llog a ddisgwylir ar asedau'r gronfa bensiwn. Mae cwmni o actiwarïaid ymgynghorol yn cael ei gyflogi i roi cyngor arbenigol i'r Awdurdod ynghylch y tybiaethau i'w defnyddio.

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn cynnwys croniadau ar gyfer incwm a gwariant sy'n hysbys ar ddyddiad y fantolen. Yn ogystal, maent yn dangos mai croniad yr absenoldebau cronedig yw gwerth gwyliau'r staff, ond sydd heb eu cymryd, erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Caiff asedau eu dibrisio dros eu hoes ddefnyddiol sy'n ddibynnol ar dybiaethau am lefel y gwaith atgyweirio a chynnal-a-chadw fydd angen ei wneud i'r asedau unigol. Mae'r hinsawdd economaidd bresennol yn ei gwneud yn ansicr y bydd yr Awdurdod yn gallu cynnal ei wariant cyfredol ar atgyweirio a chynnal-a-chadw gan beri amheuaeth am oes ddefnyddiol yr asedau. Os yw oes ddefnyddiol yr asedau yn cael ei leihau, mae dibrisiant yn cynyddu a swm cario yr asedau yn disgyn. Amcangyfrifir y byddai'r costau dibrisio blynyddol ar gyfer adeiladau yn cynyddu yn yr amgylchiadau hyn.

4. **EITEMAU PERTHNASOL O INCWM A GWARIANT**

Nid oes unrhyw eitemau perthnasol heblaw am y rhai a ddatgelwyd yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

5. **DIGWYDDIADAU AR ÔL DYDDIAD Y FANTOLEN**

Ar y 30ain o Fehefin 2018, nid oedd unrhyw ddigwyddiadau ôl-fantolen i'w hadrodd.

**6. NODIADAU I'R INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR a SYMUDIADAU YN Y CYFRIFON WRTH GEFN**

Mae'r Dadansoddiad Ariannu Gwariant isod yn cysoni'r Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr â'r symudiad ar y Gronfa Gyffredinol wrth gefn:

**£000'oedd**

| | 2017/18 | | | 2016/17* | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Gwariant Net a godir ar y Gronfa Gyffredinol wrth gefn** | **Cyfanswm Addasu rhwng ariannu a sail Cyfrifyddu** | **Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Gwariant Net** | **Gwariant Net a godir ar y Gronfa Gyffrednol wrth gefn** | **Cyfanswm Addasu rhwng ariannu a sail Cyfrifyddu** | **Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Gwariant Net** |
| Cadwraeth yr Amgylchedd Naturiol | 306 | 62 | 368 | 286 | 54 | 340 |
| Cadwraeth y Dreftadaeth Ddiwylliannol | 117 | 12 | 129 | 133 | 14 | 147 |
| Rheoli Datblygu | 179 | 56 | 235 | 225 | 22 | 247 |
| Blaengynllunio a Chymunedau | 386 | 30 | 416 | 378 | 12 | 390 |
| Hyrwyddo Dealltwriaeth | 760 | 243 | 1,003 | 684 | 172 | 856 |
| Hamdden a Thrafnidiaeth | 49 | 86 | 135 | -53 | 47 | -6 |
| Parcmyn, Ystadau a Gwirfoddolwyr | 893 | 158 | 1,051 | 1,036 | 8 | 1,044 |
| Cynrychiolaeth a Rheolaeth Ddemocrataidd | 435 | 27 | 462 | 410 | 12 | 422 |
| Costau'r Gwasanaeth Cymorth | 984 | 121 | 1,105 | 884 | 38 | 922 |
| Enillion Cyn Wasanaeth/ Ennill drwy gwtogi Pensiwn | 29 | - | 29 | 25 | - | 25 |
| **Cost Net y Gwasanaethau** | **4,138** | **795** | **4,933** | **4,008** | **379** | **4,387** |
| Incwm a Gwariant Arall | -4,205 | -2,612 | -6,817 | **-4,246** | **1,090** | **-3,156** |
| **Gwarged (-) / Diffyg** | **-67** | **-1,817** | **-1,884** | **-238** | **1,469** | **1,231** |
| Balans Agoriadol y Gronfa Gyffredinol wrth gefn | **939** | | | **702** | | |
| Symudiad | **67** | | | **238** | | |
| Talgrynu | **-** | | | **-1** | | |
| Balans Cau | **1,006** | | | **939** | | |

Y canlynol yw'r addasiadau o'r Gronfa Gyffredinol i gyrraedd symiau y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:

| **2017/18** | **£000'oedd** | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Cyfalaf** | **Pensiwn** | **Arall** | **Cyfanswm** |
| Cadwraeth yr Amgylchedd Naturiol | 5 | 31 | 26 | 62 |
| Cadwraeth y Dreftadaeth Ddiwylliannol | | | 12 | 12 |
| Rheoli Datblygu | | 1 | 55 | 56 |
| Blaengynllunio a Chymunedau | | 1 | 29 | 30 |
| Hyrwyddo Dealltwriaeth | 125 | -4 | 122 | 243 |
| Hamdden a Thrafnidiaeth | 63 | -11 | 34 | 86 |
| Parcmyn, Ystadau a Gwirfoddolwyr | 42 | -18 | 134 | 158 |
| Cynrychiolaeth a Rheolaeth Ddemocrataidd | | -2 | 29 | 27 |
| Gwasanaethau Cymorth | 25 | -1 | 97 | 121 |
| **Cost Net y Gwasanaethau** | **260** | **-3** | **538** | **795** |
| Incwm a Gwariant Arall | -117 | -1,060 | -1,435 | -2,612 |
| **Cyfanswm** | **143** | **-1,063** | **-897** | **-1,817** |

| **2016/17*** | **£000'oedd** | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Gwasanaeth** | **Cyfalaf** | **Pensiwn** | **Arall** | **Cyfanswm** |
| Cadwraeth yr Amgylchedd Naturiol | 4 | 40 | 10 | 54 |
| Cadwraeth y Dreftadaeth Ddiwylliannol | | | 14 | 14 |
| Rheoli Datblygu | | | 22 | 22 |
| Blaengynllunio a Chymunedau | | | 12 | 12 |
| Hyrwyddo Dealltwriaeth | 124 | -2 | 50 | 172 |
| Hamdden a Thrafnidiaeth | 50 | -13 | 10 | 47 |
| Parcmyn, Ystadau a Gwirfoddolwyr | -65 | 21 | 52 | 8 |
| Cynrychiolaeth a Rheolaeth Ddemocrataidd | | | 12 | 12 |
| Gwasanaethau Cymorth | 5 | | 33 | 38 |
| **Cost Net y Gwasanaethau** | **118** | **46** | **215** | **379** |
| Incwm a Gwariant Arall | 561 | -525 | 1,054 | 1,090 |
| **Cyfanswm** | **679** | **-479** | **1,269** | **1,469** |

* Mae'r ffigurau am y flwyddyn sy'n diweddu ar 31 Mawrth 2017 wedi'u haddasu ers y rhai a gyhoeddwyd yn wreiddiol, fel yn Nodyn 41.

## GWARIANT AC INCWM A DDADANSODDWYD YN ÔL NATUR Y GWARIANT

Mae'r tabl isod yn dangos y gwarged neu'r diffyg ar ddarparu gwasanaethau a ddadansoddwyd yn ôl natur y gwariant:

| | **2017/18** | | **2016/17** |
|---|---|---|---|
| | £000'oedd | | £000'oedd |
| **Gwariant** | | | |
| Buddiannau cyflogeion | 4,352 | | 4,011 |
| Gwasanaethau eraill | 2,338 | | 2,244 |
| Dibrisiant, amorteiddiad | 263 | | 117 |
| **Cyfanswm Gwariant** | **6,953** | | **6,372** |
| | | | |
| **Incwm** | | | |
| Ffioedd, taliadau a godir ac incwm gwasanaethau | 1,893 | | 1,842 |
| Llog ac incwm buddsoddi | 89 | | -891 |
| Grantiau a chyfraniadau'r Llywodraeth | 5,153 | | 4,773 |
| **Cyfanswm Incwm** | **7,135** | | **5,724** |
| | | | |
| **Gwarged / diffyg (-) ar ddarparu gwasanaethau** | **182** | | **-648** |

**ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFYDDU A SAIL ARIANNU DAN REOLIADAU**
Mae'r tablau isod yn dangos yr addasiadau a wnaed i gyfanswm yr incwm a'r gwariant cynhwysfawr a gydnabyddir gan yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn yn unol ag arfer cyfrifyddu priodol i'r adnoddau a bennir gan ddarpariaethau statudol fel rhai sydd ar gael i'r Awdurdod i dalu am wariant cyfalaf a refeniw yn y dyfodol:

**2016/17**
**ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFYDDU**
**A SAIL ARIANNU DAN REOLIADAU**
**£000'oedd**

| | **Balans Cronfa Gyffredinol** | **Cronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf** | **Grantiau Cyfalaf heb eu defnyddio** | **Symudiad mewn cronfeydd wrth gefn na ellir eu defnyddio** |
|---|---|---|---|---|
| **Symudiad mewn cronfeydd wrth gefn yn ystod 2016/17** | | | | |
| **Addasiad i'r Adnoddau Refeniw** | | | | |
| Taliadau am ddibrisiant a gostyngiad mewn gwerth asedau anghyfredol | 84 | | | -84 |
| Ailbrisio Eiddo Buddsoddi | 953 | | | -953 |
| Colledion Ailbrisio ar Eiddo, Offer a Chyfarpar | 34 | | | -34 |
| Addasiad sy'n ymwneud â'r Cyfrif Absenoldebau Cronedig | 0 | | | 0 |
| Gwariant refeniw a ariannwyd o gyfalaf o dan statud | 46 | | | -46 |
| Gwariant refeniw a ariannwyd o grantiau cyfalaf | -87 | | | 87 |
| Costau Pensiynau | 372 | | | -372 |
| **Cyfanswm Addasiadau i'r Adnoddau Refeniw** | **1,402** | | | **-1,402** |
| | | | | |
| **Addasiadau rhwng Adnoddau Refeniw a Chyfalaf** | | | | |
| Gwariant cyfalaf a godwyd yn erbyn y Gronfa Gyffredinol | -32 | | | 32 |
| Trosglwyddo enillion gwerthiannau anghyfredol o refeniw i'r gronfa wrth gefn derbyniadau Cyfalaf | 0 | | | 0 |
| **Cyfanswm Addasiadau rhwng Adnoddau Refeniw a Chyfalaf** | **-32** | | | **32** |
| | | | | |
| **Cyfanswm Addasiadau rhwng sail gyfrifyddu a sail gyllido dan reoliadau** | **1,370** | | | **-1,370** |

* Mae'r ffigurau am y flwyddyn sy'n diweddu ar 31 Mawrth 2017 wedi'u haddasu ers y rhai a gyhoeddwyd yn wreiddiol, fel yn Nodyn 41.

**2017/18**
**ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFYDDU**
**A SAIL ARIANNU DAN REOLIADAU**
**£000'oedd**

| | **Balans Cronfa Gyffredinol** | **Cronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf** | **Grantiau Cyfalaf heb eu defnyddio** | **Symudiad mewn cronfeydd wrth gefn na ellir eu defnyddio** |
|---|---|---|---|---|
| **Symudiad mewn cronfeydd wrth gefn yn ystod 2017/18** | | | | |
| **Addasiad i'r Adnoddau Refeniw** | | | | |
| Taliadau am ddibrisiant a gostyngiad mewn gwerth asedau anghyfredol | 248 | | | -248 |
| Ailbrisio Eiddo Buddsoddi | 15 | | | -15 |
| Colledion Ailbrisio ar Eiddo, Offer a Chyfarpar | -8 | | | 8 |
| Addasiad sy'n ymwneud â'r Cyfrif Absenoldebau Cronedig | -3 | | | 3 |
| Gwariant refeniw a ariannwyd o gyfalaf dan statud | | | | |
| Gwariant refeniw a ariannwyd o grantiau cyfalaf | | | | |
| Costau Pensiynau | 694 | | | -694 |
| **Cyfanswm Addasiadau i'r Adnoddau Refeniw** | **946** | | | **-946** |
| | | | | |
| **Addasiadau rhwng Adnoddau Refeniw a Chyfalaf** | | | | |
| Gwariant cyfalaf a godwyd yn erbyn y Gronfa Gyffredinol | -156 | | | 156 |
| Trosglwyddo enillion gwerthiannau anghyfredol o refeniw i'r gronfa wrth gefn derbyniadau Cyfalaf | | -18 | | 18 |
| **Cyfanswm Addasiadau rhwng Adnoddau Refeniw a Chyfalaf** | **-156** | **-18** | | **174** |
| | | | | |
| **Cyfanswm Addasiadau rhwng sail gyfrifyddu a sail gyllido dan reoliadau** | **790** | **-18** | | **-772** |

## 7. TROSGLWYDDIADAU I/O GRONFEYDD A GLUSTNODWYD

Mae'r nodyn hwn yn nodi'r symiau a neilltuwyd o falansau'r Gronfa Gyffredinol yn y Cronfeydd a Glustnodwyd i ddarparu cyllid ar gyfer cynlluniau gwariant yn y dyfodol a'r symiau a bostiwyd yn ôl o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd i dalu am wariant y Gronfa Gyffredinol yn 2017/18.

**£000'oedd**

| | **Balans Cau 31 Mawrth 17** | **Trosglwyddiadau i Refeniw** | **Trosglwyddiadau o Refeniw** | **Balans Cau 31 Mawrth 18** |
|---|---|---|---|---|
| Derbyniadau Ymlaen Llaw | 846 | -215 | 1,245 | 1,876 |
| Rheoli Asedau | 37 | | | 37 |
| Parc Llanion | 2 | -2 | | - |
| Cynllunio (y Cynllun Datblygu blaenorol) | 188 | -55 | | 133 |
| Hunan-Yswiriant | 30 | | | 30 |
| Ailstrwythuro Staff | 319 | -55 | | 264 |
| Technoleg Gwybodaeth /Band eang | 4 | -4 | | - |
| Parciau Cenedlaethol Cymru | 54 | -13 | | 41 |
| Y System Gynllunio | 94 | -5 | | 89 |
| Integreiddio Meysydd Parcio | 77 | | | 77 |
| Rhoddion Coffa | 3 | | 1 | 4 |
| Tai Crwn | 100 | -57 | | 43 |
| Y Gronfa Datblygu Cynaliadwy | 129 | -100 | | 29 |
| Peiriannau | 4 | -4 | | - |
| Lleihad NPG | 100 | | | 100 |
| Ail-wynebu Meysydd Parcio | 98 | | | 98 |
| Bioamrywiaeth | 11 | | | 11 |
| Gorfodaeth Cynllunio | 100 | | | 100 |
| Portfield Gate | 2 | -2 | | - |
| Pwyth mewn Pryd | 25 | | | 25 |
| Y Prosiect Llwybrau | 35 | | | 35 |
| Sgiliau ar Waith | 15 | | | 15 |
| Sarn Caeriw | | -72 | 230 | 158 |
| Tanddaearu ceblau yn y Parrog, Trefdraeth | | | 14 | 14 |
| Talgrynnu | | | -1 | -1 |
| **Cyfanswm** | **2,273** | **-584** | **1,489** | **3,178** |

## 8. INCWM A GWARIANT CYLLIDO A BUDDSODDI

**£000'oedd**

| Eitemau | 2017/18 | 2016/17 |
|---|---|---|
| Symudiad mewn gwerth teg eiddo buddsoddi (-Ennill) | -8 | 953 |
| Incwm o eiddo buddsoddi | -62 | -42 |
| Cost Net Llog Pensiynau | 112 | 115 |
| Llog derbyniadwy ac incwm tebyg | -19 | -21 |
| **CYFANSWM** | **23** | **1,005** |

## 9. GWARIANT / INCWM GWEITHREDOL ARALL

**£000'oedd**

| Eitemau | 2017/18 | 2016/17 |
|---|---|---|
| Symudiad ar Ddarpariaeth Dyledion Drwg | - | 2 |
| Symudiad ar Ddarpariaeth Gyffredinol | -1 | 9 |
| Treuliau Gweinyddol Pensiynau | 16 | 16 |
| **CYFANSWM** | **15** | **27** |

## 10. TRETHIANT AC INCWM GRANTIAU AMHENODOL

**£000'oedd**

| Eitemau | 2017/18 | 2016/17 |
|---|---|---|
| Grant y Parc Cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru | 2,955 | 3,645 |
| Ardoll ar Gyngor Sir Penfro | 985 | 985 |
| Grantiau a chyfraniadau cyfalaf | 1,213 | 143 |
| **CYFANSWM** | **5,153** | **4,773** |

## 11. EIDDO, OFFER A CHYFARPAR

Mae'r canlynol yn grynodeb o wariant cyfalaf yn ystod y cyfnod adrodd, gan gynnwys asedau a gafwyd dan les cyllid, a rannwyd i bob categori o asedau sefydlog ynghyd â'r ffynonellau cyllid a'r ariannu cyfalaf oedd eu hangen. Mae'r symudiadau yn cynnwys ychwanegiadau oedd yn codi o'r rhaglen gyfalaf, asedau a wnaed yn weithredol yn ystod y flwyddyn, ailbrisiadau asedau, taliadau dibrisiant lle bo'n berthnasol, gwaredu eiddo, gostyngiad mewn gwerth ac ailddosbarthu'r asedau a ddelir.

## **2016/17 Asedau heb fod yn Gyfredol**
## **£000'oedd**

| | Tir ac Adeiladau Gweithredol | Offer a Chyfarpar | Asedau Dros Ben | Asedau Anweithredol ar y gweill | ***Cyfanswm PP&E*** |
|---|---|---|---|---|---|
| COST NEU BRISIAD | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2016** | **10,144** | **1,450** | | **73** | **11,667** |
| Ailddosbarthu | | | | | |
| Asedau a wnaed yn weithredol yn y fl. | **52** | | | **-52** | |
| Ychwanegiadau | **42** | **18** | | **7** | **67** |
| Gwarediadau | | **-261** | | | **-261** |
| Gostyngiad gwerth | | | | | |
| Ailbrisio | **155** | | | | **155** |
| **Ar 31 Mawrth 2017** | **10,393** | **1,207** | | **28** | **11,628** |
| | | | | | |
| DIBRISIANT | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2016** | **-615** | **-1,209** | | | **-1,824** |
| Tâl am y flwyddyn | **-181** | **-53** | | | **-234** |
| Gwarediadau | | **261** | | | **261** |
| Ailddosbarthu | | | | | |
| Gostyngiad gwerth | | | | | |
| Ailbrisio | **125** | | | | **125** |
| **Ar 31 Mawrth 2017** | **-671** | **-1,001** | | | **-1,672** |
| | | | | | |
| | | | | | |
| **GWERTH NET 31/3/16** | **9,529** | **241** | | **73** | **9,843** |
| **GWERTH NET 31/3/17** | **9,722** | **206** | | **28** | **9,956** |

**2017/18 Asedau heb fod yn Gyfredol**
**£000'oedd**

| | Tir ac Adeiladau Gweithredol | Offer a Chyfarpar | Asedau Dros Ben | Asedau Anweithredol ar y gweill | ***Cyfanswm PP&E*** |
|---|---|---|---|---|---|
| COST NEU BRISIAD | | | | | |
| **Ar 31 Mawrth 2017** | **10,393** | **1,207** | **-** | **28** | **11,628** |
| Ailddosbarthu | | | **500** | | **500** |
| Asedau a wnaed yn weithredol yn y fl. | **12** | | | **-12** | **-** |
| Ychwanegiadau | **156** | | | **6** | **162** |
| Gwarediadau | **-10** | | | | **-10** |
| Gostyngiad gwerth | **-1** | | | | **-1** |
| Ailbrisio | **-23** | | | | **-23** |
| **Ar 31 Mawrth 2018** | **10,527** | **1,207** | **500** | **22** | **12,256** |
| | | | | | |
| DIBRISIANT | | | | | |
| **Ar 31 Mawrth 2017** | **-671** | **-1,001** | **-** | **-** | **-1,672** |
| Tâl am y flwyddyn | **-181** | **-67** | | | **-248** |
| Gwarediadau | **10** | | | | **10** |
| Ailbrisio | **119** | | | | **119** |
| **Ar 31 Mawrth 2018** | **-723** | **-1,068** | **-** | **-** | **-1,791** |
| | | | | | |
| | | | | | |
| **GWERTH NET 31/3/17** | **9,722** | **206** | **-** | **28** | **9,956** |
| **GWERTH NET 31/3/18** | **9,804** | **139** | **500** | **22** | **10,465** |

**ASEDAU A WNAED YN WEITHREDOL YN YSTOD Y FLWYDDYN**
Mae'r asedau canlynol wedi'u gwneud yn weithredol yn ystod y flwyddyn:

| | 2017/18 | 2016/17 |
|---|---|---|
| To Melin Caeriw | 11,007 | 51,841 |
| Maes Parcio Saundersfoot | 1,455 | |
| **Cyfanswm** | **12,462** | **51,841** |

Mae'r gwariant rhagarweiniol ar ddiwedd y flwyddyn, a ddelir o dan y grŵp anweithredol (yn cael ei adeiladu), yn cynnwys:

| | |
|---|---|
| Golygfan Pont Werdd | 15,577 |
| Caffi Castell Caeriw | 5,322 |
| Gardd Furiog Castell Caeriw | 325 |
| **Cyfanswm** | **21,224** |

**YCHWANEGU ASEDAU**
Mae hyn yn cynrychioli gwariant cyfalaf yn ystod y flwyddyn sy'n effeithio ar werthoedd asedau fel yr esboniwyd yn yr adran ar y Rhaglen Gyfalaf.

**GWAREDU ASEDAU**
Yn ystod y flwyddyn, gwaredwyd dau gerbyd a oedd â ddim gwerth llyfr net, a rhoddwyd incwm net o £2k yn y cyfrif Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

**AIL-DDOSBARTHU**
Yr ailddosbarthu a wnaed yn ystod y flwyddyn oedd trosglwyddo To Melin Caeriw a Maes Parcio Saundersfoot o Asedau Anweithredol i Dir ac Adeiladau Gweithredol.

**AILBRISIO A GOSTYNGIAD MEWN GWERTH**
Roedd nifer o asedau yn destun ailbrisio yn ystod y flwyddyn fel rhan o'r rhaglen dreigl bum mlynedd o ailbrisio. Roedd yr ailbrisio arwyddocaol yn y flwyddyn yn ymwneud â: Meysydd Parcio Aber Llydan, Gorllewin Angle, Aber Bach, Solfach, Amroth, Nolton Haven, Gorsaf Penalun, Porthgain, Parc Cychod Fresh Water East a Choed Cilciffeth. Mae'r ailbrisio a gostyngiad mewn gwerth sydd wedi'u cynnwys yn yr Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall fel a ganlyn:

| | 2017/18 | 2016/17 |
|---|---|---|
| Roedd ailbrisio Asedau Sefydlog yn cynnwys Gwarged/Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau | -13,000 | 117,856 |
| Ailbrisio i lawr/i fyny asedau a cholledion gostyngiad mewn gwerth na chodwyd ar y Gwarged/Diffyg ar | 108,812 | 162,310 |
| **Is-gyfanswm** | **95,812** | **280,166** |
| Ailbrisio a Gostyngiad mewn gwerth Eiddo Buddsoddi | 8,000 | -953,000 |
| **Cyfanswm** | **103,812** | **-672,384** |

Isod mae crynodeb o effaith ariannol (heb gynnwys dibrisiant) ailbrisio asedau a gostyngiad mewn gwerth dros y pum mlynedd diwethaf:

| Blwyddyn | **Tir ac Adeiladau Eraill** | **Asedau Cymunedol** | **Asedau Anweithredol** | **CYFANSWM NET** |
|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ |
| 2017/18 | -22,888 | | | -22,888 |
| 2016/17 | -30,190 | | | -30,190 |
| 2015/16 | 176,998 | | | 176,998 |
| 2014/15 | 595,923 | | | 595,923 |
| 2013/14 | 1,403,322 | | | 1,403,322 |

**ARIANNU ASEDAU SEFYDLOG ac ANNIRIAETHOL**
Cafodd yr ychwanegiadau arian parod net i asedau sefydlog ac anniriaethol o £174,101 (ychwanegiadau yn llai o drosglwyddiadau o Asedau Anweithredol) eu hariannu fel a ganlyn:

£156,119 Arian o'r grant refeniw
£17,982 Arian grant a ffynonellau eraill

**YMRWYMIADAU CYFALAF**
Ar y 31ain o Fawrth 2018 roedd ymrwymiadau cyfalaf gwerth £32,608 ar yr Awdurdod**.**

**PORTFFOLIO ASEDAU SEFYDLOG**
Heb gynnwys eiddo buddsoddi ac asedau a ddelir i'w gwerthu, mae'r Awdurdod yn berchen ar y niferoedd a'r mathau o asedau eiddo a thir canlynol:

| Math | 2017/18 | 2016/17 |
|---|---|---|
| Meysydd Parcio | 25 | 25 |
| Safleoedd Hanesyddol | 16 | 16 |
| Tir a safleoedd arfordirol | 9 | 9 |
| Safleoedd Coetir | 11 | 11 |
| Safleoedd eraill | 15 | 15 |
| Adeiladau eraill | 11 | 11 |
| **CYFANSWM** | **87** | **87** |

**RHAGLEN GYFALAF**
Ariannwyd y prosiectau canlynol fel rhan o'r rhaglen gyfalaf am y flwyddyn:

| | **Cyfanswm y Gost 2017/18 £000** | **Cyfanswm y Gost 2016/17 £000** |
|---|---|---|
| **Hyrwyddo Dealltwriaeth a Mwynhad** | **57** | **6** |
| Tŷ Crwn Castell Henllys | 57 | 6 |
| **Hamdden a Rheoli'r Parc** | **109** | **107** |
| Wal Gynnal Caergawell Angle* | - | 46 |
| Cerbydau | - | 18 |
| Castell Caeriw | 23 | - |
| Meysydd Parcio | 86 | 43 |
| **Gwasanaethau Corfforaethol a Chynnal** | **8** | **6** |
| Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu | 8 | 6 |
| **CYFANSWM GWARIANT CYFALAF** | **174** | **119** |
| **Ariannwyd gan:** | | |
| Ariannwyd o'r gyllideb refeniw | -156 | -32 |
| Grantiau Ychwanegol | - | -87 |
| Derbyniadau Cyfalaf | -18 | - |
| **Cyfanswm** | **-174** | **-119** |
| *Roedd y gwariant ar Wal Gynnal Caergawell Angle yn rhan o'r Rhaglen Gyfalaf ond mae'r costau wedi'u cynnwys yng Nghost Net y Gwasanaethau. | | |

| *** Derbyniwyd y grantiau ychwanegol oddi wrth y partneriaid canlynol:** | **2017/18 £000'oedd** | **2016/17 £000'oedd** |
|---|---|---|
| Llywodraeth Cymru | - | 87 |
| **CYFANSWM Y GRANTIAU YCHWANEGOL** | **-** | **87** |

**ASEDAU TREFTADAETH.**
Mae dosbarthiad yr Awdurdod o asedau treftadaeth yn ymwneud ag adeiladau penodol, henebion, clogwyni, twyni tywod, coetiroedd a mathau eraill o eiddo. Mae'r rhestr ganlynol yn nodi'r asedau treftadaeth diriaethol a ddelir gan yr Awdurdod a'u prisiad ar ddyddiad y fantolen.

| Ased | Prisiad ar 31/3/16 | Prisiad ar 31/3/17 | Ailddosbarthu | Prisiad ar 31/3/18 |
|---|---|---|---|---|
| Hen Gaer a Chlogwyn Abergwaun | 12,500 | 12,500 | | 12,500 |
| Hopranau a Thwneli Porth-gain | 1 | 1 | | 1 |
| Goleudy Mordwyo Porth-gain | 1 | 1 | | 1 |
| Clogwyn, tir ac adfeilion Trwyn Llwyd Trefin | 1 | 1 | | 1 |
| Harbwr a Gwely Porth-gain | 1 | 1 | | 1 |
| Tir Clogwyni Porth-gain | 4,000 | 4,000 | | 4,000 |
| Tirwedd San Ffraid | 36,000 | 36,000 | | 36,000 |
| Twyni a Thir Maenorbŷr | 6,000 | 6,000 | | 6,000 |
| Traeth Poppit – Tirwedd | 1 | 1 | | 1 |
| Tir Clogwyni Hafan Skrinkle | 56,160 | 56,160 | | 56,160 |
| Clogwyni East Moor Maenorbŷr | 3,500 | 3,500 | | 3,500 |
| Arsyllfa Pen Strwmbwl | 1 | 1 | | 1 |
| Planhigfa Coed Saundersfoot | 3,750 | 3,750 | | 3,750 |
| Clogwyni/Maes Parcio Pen Strwmbwl | 6,000 | 6,000 | | 6,000 |
| Peilotdy Porth-gain | 1 | 1 | | 1 |
| Safle Clwb Cabin Aberllydan | 30,500 | 30,500 | | 30,500 |
| Tir Amwynder Porth-gain (Tŷ Mawr) | 3,500 | 3,500 | | 3,500 |
| Lle Parcio ar gyfer Ôl-gerbydau, Porth-glais | 275 | 275 | | 275 |
| Angle, Y Tŵr | 1 | 1 | | 1 |
| San Ffraid – Yr Adfail | 1 | 1 | | 1 |
| Coetir Prendergast Solfach | 1,250 | 1,250 | | 1,250 |
| San Ffraid – Tŷ Pwmpio | 1 | 1 | | 1 |
| Cae a Thir Traeth Mawr | 8,000 | 8,000 | | 8,000 |
| **Cyfanswm** | **171,445** | **171,445** | **0** | **171,445** |

**12. EIDDO BUDDSODDI**
Cyfrifwyd am yr eitemau canlynol o incwm a gwariant yn y llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:

| | 2017/18 £000 | 2016/17 £000 |
|---|---|---|
| Incwm rhent o eiddo buddsoddi | 62 | 42 |
| Enillion/(colledion) net | **62** | **42** |

Nid oes unrhyw gyfyngiadau ar allu'r Awdurdod i wireddu'r gwerth cynhenid yn ei eiddo buddsoddi nac ar hawl yr Awdurdod i'r incwm a'r enillion o'r gwaredu. Nid oes gan yr Awdurdod unrhyw ymrwymiadau contract i brynu, adeiladu na datblygu eiddo buddsoddi nac atgyweirio, cynnal-a-chadw neu wella. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r symudiad yng ngwerth teg eiddo buddsoddi yn ystod y flwyddyn:

| | 2017/18<br>£000 | 2016/17<br>£000 |
|---|---|---|
| **Balans ar ddechrau'r flwyddyn** | **1,428** | **2,881** |
| Gwaredu eiddo | 0 | 0 |
| Ailddosbarthu | 0 | -500 |
| Enillion/colledion net o addasiadau gwerth teg | 8 | -953 |
| **Balans ar ddiwedd y flwyddyn** | **1,436** | **1,428** |

**13. PRYDLESI**

Prydlesi Cyllid

Nid oedd gan yr Awdurdod unrhyw brydlesi cyllid ar yr 31ain o Fawrth 2018 (nac ar yr 31ain o Fawrth 2017).

Prydlesi Gweithredol

Mae'r Awdurdod yn prydlesu'r rhan fwyaf o gerbydau o dan gytundebau Contract Hurio, a rhai llungopiwyr o dan Gytundebau Rhentu tymor hir. Cost gros y trefniadau hyn oedd £48,586 yn 2017/18 (£43,943 yn 2016/17). Mae'r Awdurdod yn rhentu 14 eiddo at ei ddibenion, sydd yn cynnwys, er enghraifft, Canolfan Groeso Dinbych-y-pysgod, Castell a Melin Heli Caeriw. Costau rhent yr eiddo hyn yn 2017/18 oedd £47,510 (£44,842 yn 2016/17).

Dadansoddiad o isafswm gwariant prydles yr Awdurdod yn y dyfodol yw:

**£000'oedd**

| | **Fis Mawrth 2018** | | | **Fis Mawrth 2017** | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Tir ac Adeiladau** | **Cerbydau ac Offer** | **Cyfanswm** | **Tir ac Adeiladau** | **Cerbydau ac Offer** | **Cyfanswm** |
| | £ | £ | £ | £ | £ | £ |
| Ddim hwyrach na blwyddyn | 46 | 43 | 89 | 45 | 36 | 81 |
| Hwyrach na blwyddyn ond ddim hwyrach na 5 mlynedd | 92 | 35 | 127 | 109 | 32 | 141 |
| Hwyrach na 5 mlynedd | 289 | - | 289 | 315 | - | 315 |
| | **427** | **78** | **505** | **469** | **68** | **537** |

Mae'r Awdurdod yn gweithredu fel Prydleswr ar 23 eiddo, gan gynhyrchu incwm o £108,017 yn ystod 2017/18 (£79,239 yn 2016/17). Enghreifftiau o'r eiddo hyn yw prydlesu tir yn Freshwater East i'r Clwb Carafanau, a phrydlesu Bloc y Gogledd Parc Llanion i Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae rhai o'r prydlesi eiddo hyn yn fwy na 20 mlynedd ac yn cael eu prisio ar sail prydles hir. Gwerth net yr asedau hyn yw £1,417,901 heb ddibrisiant cronedig.

Isafswm taliadau prydles yn y dyfodol a dderbynnir dan brydlesi na ellir eu canslo yn y dyfodol yw:

**£000'oedd**

| | **Fis Mawrth 2018** | **Fis Mawrth 2017** |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Ddim hwyrach na blwyddyn | 79 | 55 |
| Hwyrach na blwyddyn ond ddim hwyrach na 5 mlynedd | 240 | 180 |
| Hwyrach na 5 mlynedd | 715 | 729 |
| | **1,034** | **964** |

**14. ASEDAU ANNIRIAETHOL**

Mae'r Awdurdod yn rhoi cyfrif am ei feddalwedd fel asedau anniriaethol, i'r graddau nad yw'r feddalwedd yn rhan annatod o system TG neilltuol ac yn cael ei chyfrif fel rhan o eitem caledwedd Eiddo, Offer a Chyfarpar. Mae pob meddalwedd yn cael oes ddefnyddiol gyfyngedig, yn seiliedig ar asesiadau o'r cyfnod y disgwylir i'r feddalwedd fod yn ddefnyddiol i'r Awdurdod. Yr oes ddefnyddiol a neilltuir i asedau a brynwyd yn ystod y flwyddyn yw 4 blynedd. Mae'r tâl amorteiddio wedi'i gynnwys yng nghost gweithredu'r adran technoleg gwybodaeth a'i ailddosbarthu ynghyd â chostau eraill gwasanaethau cynnal.

| | **2017/18 £000'oedd** | **2016/17 £000'oedd** |
|---|---|---|
| **Balans ar ddechrau'r flwyddyn** | **7** | **2** |
| Ychwanegiadau | 13 | 6 |
| Amorteiddiad cronedig | -3 | -1 |
| Talgrynnu | 1 | **0** |
| **Balans ar ddiwedd y flwyddyn** | **18** | **7** |

**15. OFFERYNNAU ARIANNOL**

Nid oes unrhyw offeryn ariannol yn cael ei gario yn y Fantolen.

**16. RHESTRAU EIDDO**

**£000'oedd**

| | Canolfannau Gwybodaeth | Canolfan Goetir Cilrhedyn | Tocynnau Pont Cleddau | Peiriant ffrancio | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| **Balans yn ddyledus ar 31/3/15** | **114** | **27** | **1** | **2** | **144** |
| Nwyddau a Brynwyd | 194 | 0 | 5 | 12 | 211 |
| Cydnabod fel traul yn y flwyddyn | -152 | -16 | -4 | -14 | -186 |
| Ysgrifennwyd allan | -3 | | | | -3 |
| **Balans yn ddyledus ar 31/3/16** | **153** | **11** | **2** | **0** | **166** |
| Nwyddau a Brynwyd | 140 | 14 | 3 | 15 | 172 |
| Cydnabod fel traul yn y flwyddyn | -157 | -10 | -3 | -13 | -183 |
| Ysgrifennwyd allan | -2 | | | | -2 |
| **Balans yn ddyledus ar 31/3/17** | **134** | **15** | **2** | **2** | **153** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Nwyddau a Brynwyd | 141 | 24 | 3 | 12 | 180 |
| Cydnabod fel traul yn y flwyddyn | -165 | -18 | -3 | -11 | -197 |
| Ysgrifennwyd allan | -5 | | | | -5 |
| **Balans yn ddyledus ar 31/3/18** | **105** | **21** | **2** | **3** | **131** |

**17. DYLEDWYR TYMOR HIR A BYR**

**£000'oedd**

| | **2017/18** | **2016/17** |
|---|---|---|
| **Tymor Hir:** | | |
| Benthyciadau Ceir Staff /Teithio Gwyrdd | 5 | 0 |
| CYFANSWM | **5** | **0** |
| | | |
| **Tymor byr:** | | |
| Cyrff llywodraeth ganolog | 87 | 137 |
| Awdurdodau lleol eraill | 22 | 10 |
| Endidau ac unigolion eraill | 102 | 95 |
| Taliadau ymlaen llaw | 66 | 54 |
| Benthyciadau Staff | 2 | 0 |
| Darpariaeth Diffyg Dyledion | -7 | -7 |
| CYFANSWM | **272** | **289** |

**18. ARIAN PAROD AC ARIAN PAROD CYFATEBOL**

Mae balans yr arian parod ac arian cyfatebol yn cynnwys yr elfennau canlynol:

**£000'oedd**

| | **2017/18** | **2016/17** |
|---|---|---|
| Cyfrifon banc a blaendaliadau | 4,479 | 3,454 |
| Arian parod a ddelir gan yr Awdurdod | 2 | 2 |
| CYFANSWM | **4,481** | **3,456** |

**19. ASEDAU A DDELIR I'W GWERTHU**

Ar 31 Mawrth 2018 roedd yr Awdurdod yn dal tir ar ochr ogleddol Sageston fel ased a ddelir i'w werthu.

| | **2017/18 £000** | **2016/17 £000** |
|---|---|---|
| **Balans ar ddechrau'r flwyddyn** | **500** | **0** |
| Ailddosbarthu i Asedau Dros Ben | -500 | 500 |
| **Balans ar ddiwedd y flwyddyn** | **0** | **500** |

**20. CREDYDWYR A DARPARIAETHAU TYMOR HIR A BYR**

**£000'oedd**

| | **2017/18** | **2016/17** |
|---|---|---|
| **Yn y tymor hir** | | |
| CYFANSWM | **0** | **0** |
| | | |
| **Yn y tymor byr** | | |
| Cyrff llywodraeth ganolog | -72 | -63 |

| | | |
|---|---:|---:|
| Awdurdodau lleol eraill | -80 | -84 |
| Derbyniadau ymlaen llaw | -35 | -42 |
| Endidau ac unigolion eraill | -273 | -233 |
| Absenoldebau cronedig | -47 | -49 |
| **CYFANSWM** | **-507** | **-471** |
| | | |
| **Darpariaethau** | | |
| Darpariaethau Cyffredinol | **-8** | **-9** |
| **Cyfanswm** | **-8** | **-9** |

### 21. CRONFEYDD WRTH GEFN DEFNYDDIADWY

**£000'oedd**

| 2017/18 | | 2016/17 |
|---:|---|---:|
| 1,006 | **Y Gronfa Gyffredinol:** Adnoddau ar gael i dalu costau cynnal y gwasanaethau yn y dyfodol | 939 |
| 3,178 | **Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd:** Cronfeydd wrth gefn a neilltuwyd ar gyfer eitemau penodol | 2,273 |
| 263 | **Derbyniadau Cyfalaf:** Derbyniadau gwerthu asedau sefydlog sydd ar gael i dalu am fuddsoddi cyfalaf yn y dyfodol | 281 |
| **4,447** | **CYFANSWM** | **3,493** |

Mae manylion am symudiadau yng nghronfeydd wrth gefn defnyddiadwy yr Awdurdod yn y Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn.

### 22. CRONFEYDD WRTH GEFN ANNEFNYDDIADWY

**£000'oedd**

| 2017/18 | | 2016/17 |
|---:|---|---:|
| 2,761 | Cronfa Ailbrisio | 2,685 |
| 9,303 | Cyfrif Addasiadau Cyfalaf | 9,351 |
| -3,738 | Cronfa Pensiynau | -4,638 |
| -47 | Cyfrif Absenoldebau Cronedig | -49 |
| **8,279** | **CYFANSWM** | **7,349** |

**CRONFA AILBRISIO WRTH GEFN**

Mae'r Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn yn cynnwys yr enillion a wnaed gan yr Awdurdod a oedd yn deillio o gynnydd yng ngwerth ei Eiddo, Offer a Chyfarpar. Mae'r balans yn gostwng pan fo asedau gydag enillion cronedig:

- yn cael eu hailbrisio i lawr neu leihad yn eu gwerth a'r enillion yn cael eu colli
- yn cael eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau a'r enillion yn cael eu colli drwy ddibrisiant, neu
- yn cael eu gwaredu a'r enillion yn cael eu gwireddu.

Mae'r Gronfa Wrth Gefn ond yn cynnwys enillion ailbrisio a gronnwyd ers 1 Ebrill 2007, y dyddiad y cafodd y Gronfa ei chreu. Mae'r enillion cronnus a gafwyd cyn y dyddiad hwnnw yn cael eu cyfuno i mewn i'r balans ar y Cyfrif Addasu Cyfalaf.

**£000'oedd**

| 2017/18 | | 2016/17 |
|---|---|---|
| **2,685** | **Balans ar 1 Ebrill** | **2,558** |
| 189 | Ailbrisio asedau i fyny | 232 |
| -81 | Ailbrisio asedau i lawr a lleihad yn y gwerth nad yw'n cael ei godi ar y Gwarged/Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau | -70 |
| -32 | Gwahaniaeth rhwng dibrisiant gwerth teg a dibrisiant cost hanesyddol | -35 |
| **2,761** | | **2,685** |

## CYFRIF ADDASU CYFALAF

Mae'r Cyfrif Addasu Cyfalaf yn amsugno'r gwahaniaethau amseru sy'n deillio o wahanol drefniadau ar gyfer rhoi cyfrif am y defnydd o asedau nad ydynt yn gyfredol a chyllido caffael, adeiladu neu wella'r asedau hynny dan ddarpariaethau statudol. Mae'r Cyfrif yn cael ei ddebydu gyda chost caffael, adeiladu neu wella wrth i'r dibrisiant, colledion lleihad yn y gwerth ac amorteiddiad gael ei godi ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (gyda chysoni postio o'r Gronfa Ailbrisio i drosi ffigurau gwerth teg i sail cost hanesyddol). Credydir y cyfrif â'r symiau a neilltuwyd gan yr Awdurdod fel cyllid ar gyfer costau caffael, adeiladu a gwella. Mae'r Cyfrif yn cynnwys enillion a cholledion ar Eiddo Buddsoddi ac enillion cydnabyddedig ar asedau a roddwyd sydd heb eto eu defnyddio gan yr Awdurdod. Mae'r Cyfrif hefyd yn cynnwys enillion ailbrisio cronedig ar Eiddo, Offer a Chyfarpar cyn 1 Ebrill 2007, y dyddiad y crëwyd y Gronfa Ailbrisio i ddal enillion o'r fath. Mae **Nodyn 6** yn rhoi manylion am ffynhonnell pob un o'r trafodion a bostiwyd i'r Cyfrif, heblaw am y rhai sy'n ymwneud â'r Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn.

**£000'oedd**

| 2017/18 | | 2016/17 |
|---|---|---|
| **9,351** | **Balans ar 1 Ebrill** | **10,313** |
| -249 | Taliadau am ddibrisiant a lleihad yng ngwerth asedau anghyfredol | -235 |
| 8 | Ailbrisio Asedau Buddsoddi | -965 |
| -13 | Ailbrisio Eiddo, Offer a Chyfarpar | 154 |
| 0 | Nifer yr asedau anghyfredol a ddilëwyd ar waredu | -24 |
| 0 | Gwariant refeniw a ariannwyd o gyfalaf dan statud | -46 |
| 32 | Symiau addasu dibrisiant a symudwyd o'r Gronfa Ailbrisio | 35 |
| 0 | Grantiau cyfalaf a chyfraniadau a gredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a ddefnyddiwyd i ariannu cyfalaf | 87 |
| 174 | Gwariant cyfalaf a godwyd yn erbyn balansau'r Gronfa Gyffredinol | 32 |
| **9,303** | **Balans ar 31 Mawrth** | **9,351** |

## CRONFA PENSIYNAU WRTH GEFN

Mae'r Gronfa Pensiynau yn amsugno'r gwahaniaethau amseru sy'n deillio o wahanol drefniadau ar gyfer rhoi cyfrif am fuddiannau ôl gyflogaeth a chyllido buddiannau yn unol â darpariaethau statudol. Mae'r Awdurdod yn rhoi cyfrif am fuddiannau ôl gyflogaeth yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr wrth i'r buddiannau gael eu hennill gan weithwyr sy'n cronni blynyddoedd o wasanaeth, gan ddiweddaru'r rhwymedigaethau a gydnabyddir i amlygu chwyddiant, newid rhagdybiaethau ac enillion buddsoddi ar unrhyw adnoddau a neilltuwyd i gwrdd â chostau. Fodd bynnag, mae trefniadau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i'r buddiannau a enillir gael eu hariannu gan mai'r Awdurdod sy'n gwneud cyfraniadau cyflogwr i'r cronfeydd pensiwn neu yn y pen draw yn

talu unrhyw bensiynau y mae'n uniongyrchol gyfrifol amdanynt.  Mae'r balans debyd ar y Gronfa Pensiwn Wrth Gefn felly yn dangos diffyg sylweddol yn y buddiannau a enillwyd gan weithwyr y gorffennol a'r presennol a'r adnoddau y mae'n rhaid i'r Awdurdod eu rhoi o'r neilltu i dalu amdanynt. Bydd y trefniadau statudol yn sicrhau bod cyllid wedi cael ei roi o'r neilltu erbyn y daw'r amser i dalu'r buddiannau.

| 2017/18 | £000'oedd | 2016/17 |
|---|---|---|
| **-4,638** | **Balans ar 1 Ebrill** | **-3,368** |
| 1,593 | Enillion neu golledion actiwaraidd ar asedau a rhwymedigaethau pensiynau | -898 |
| -1,087 | Gwrthdroi eitemau sy'n ymwneud â buddiannau ymddeol a ddebydwyd neu a gredydwyd i'r Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | -742 |
| 409 | Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sy'n daladwy yn y flwyddyn | 386 |
| -16 | Treuliau gweinyddu | -16 |
| 1 | Talgrynnu | |
| **-3,738** | **Balans ar 31 Mawrth** | **-4,638** |

## 23. CYFRIF ABSENOLDEBAU CRONEDIG

Mae'r Cyfrif Absenoldebau Cronedig yn amsugno'r gwahaniaethau fyddai'n codi fel arall ar Falans y Gronfa Gyffredinol o gronni ar gyfer absenoldebau digolledol a enillwyd ond na chymerwyd yn y flwyddyn, e.e. hawl i wyliau blynyddol a gariwyd ymlaen ar 31 Mawrth.  Mae trefniadau statudol yn ei gwneud yn ofynnol bod yr effaith ar Falans y Gronfa Gyffredinol yn cael ei niwtraleiddio gan drosglwyddiadau i neu o'r Cyfrif.

| 2017/18 | £000'oedd | 2016/17 |
|---|---|---|
| **49** | Balans ar 1 Ebrill | 49 |
| -3 | Y swm y mae taliadau swyddogion a godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail croniadau yn wahanol i'r taliadau a godir yn y flwyddyn yn unol â gofynion statudol | 0 |
| **46** | Symiau a gronnwyd ar ddiwedd y flwyddyn gyfredol | **49** |

## 24. DATGANIAD LLIF ARIAN -

Addasu gwarged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau ar gyfer symudiadau anariannol

| 2017/18 | £000's | 2016/17 |
|---|---|---|
| -250 | Dibrisiant | -235 |
| -5 | Ailbrisiadau a Lleihad yn y Gwerth | -835 |
| -110 | Symudiad mewn credydwyr/stoc/dyledwyr | 29 |
| -694 | Costau Darparu Gwasanaethau ar gyfer buddiannau ôl gyflogaeth | -372 |
| 6 | Eitemau anariannol eraill a godwyd ar y CIES | -7 |
| **-1,053** | **Cyfanswm** | **-1420** |

**25. DATGANIAD LLIF ARIAN - GWEITHGAREDDAU GWEITHREDU A BUDDSODDI**
Mae'r llif arian ar gyfer gweithgareddau gweithredu yn cynnwys yr eitemau canlynol:

| 2017/18 | £000'oedd | 2016/17 |
|---|---|---|
| 15 | Llog a dderbyniwyd | 19 |
| Dim | Llog a dalwyd | Dim |

Llif arian o Weithgareddau Buddsoddi yw:

| 2017/18 | £000'oedd | 2016/17 |
|---|---|---|
| 200 | Prynu eiddo, offer a chyfarpar, eiddo buddsoddi ac asedau anniriaethol | 53 |
| -791 | Derbyniadau eraill o weithgareddau buddsoddi | -188 |
| **-591** | **Llif arian net o weithgareddau buddsoddi** | **-135** |

Llif arian o Weithgareddau Cyllido yw:

| 2017/18 | £000'oedd | 2016/17 |
|---|---|---|
| 6 | Benthyciadau Teithio: blaensymiau llai derbyniadau | -1 |
| 3 | Ad-dalu Benthyciad Tymor Hir | 2 |
| **9** | **Llif arian net o weithgareddau buddsoddi** | **1** |

**26. SYMIAU A ADRODDWYD AR GYFER PENDERFYNIADAU DYRANNU ADNODDAU**
Y dadansoddiad o incwm a gwariant yn ôl gwasanaeth ar wyneb y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yw'r hyn a nodir gan God Ymarfer Adrodd Gwasanaeth CIPFA. Yn yr un modd mae'r wybodaeth a ddefnyddir gan yr Awdurdod ar gyfer gwneud penderfyniadau yn cael ei pharatoi hefyd o dan y Cod Ymarfer Cyfrifyddu Gwerth Gorau. Yn unol â hynny nid oes unrhyw ofyniad dan y nodyn hwn i gysoni rhwng y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a symiau a adroddwyd ar gyfer penderfyniadau ar ddyrannu adnoddau.

**27. GWEITHREDIADAU A GAFFAELWYD AC A DERFYNWYD**
Nid oes unrhyw rwymedigaethau dyledus mewn perthynas â gweithrediadau a gaffaelwyd neu a derfynwyd.

**28. GWEITHREDIADAU MASNACHU**
Mae'r Awdurdod yn darparu gwasanaethau fel rhan o'i amcan i hyrwyddo dealltwriaeth a mwynhad ac yn creu incwm o nifer o ffynonellau gan gynnwys y canolfannau croeso, canolfannau treftadaeth a meysydd parcio. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw weithrediadau masnachu a wnaed ar risg yn ystod 2017/18 *(nac yn* 2016/17) fel y'u pennir o dan y diffiniadau yn y nodyn hwn.

**29. CYNLLUNIAU O DAN DDEDDF TRAFNIDIAETH 2000**
Nid yw'r Awdurdod wedi ymgymryd ag unrhyw gynlluniau o dan y Ddeddf hon yn ystod 2017/18 (nac yn 2016/17).

**30. GWASANAETHAU ASIANTAETH**
Nid oedd yr Awdurdod wedi darparu unrhyw wasanaethau asiantaeth yn 2017/18 (nac yn 2016/17).

**31. CYLLIDEB GYFUN**
Nid oedd yr Awdurdod wedi cymryd rhan mewn unrhyw drefniadau cyllideb gyfun yn 2017/18 (nac yn 2016/17).

**32. LWFANSAU AELODAU A THREULIAU A DALWYD YN YSTOD Y FLWYDDYN ARIANNOL 2017/18**
Cyfanswm y lwfansau aelodau a dalwyd yn ystod y flwyddyn oedd £73,136 (£70,652 yn 2016/17) ynghyd ag ad-dalu treuliau teithio, cynhaliaeth a thaliadau treuliau eraill oedd yn dod i gyfanswm o £9,116 (£8,293 yn 2016/17).

**33. TALIADAU I SWYDDOGION**
Nifer y staff sydd â thâl o fwy na £60,000 – enillion sy’n amodol ar drethiant Talu wrth Ennill a chyfraniadau pensiwn – oedd fel a ganlyn:

| | **2017/18<br>£000** | **2016/17<br>£000** |
|---|---|---|
| | **Prif Weithredwr** | **Prif Weithredwr** |
| Cyflog Gros | 79 | 78 |
| Gwerthoedd P11D | 1 | 1 |
| Cyfraniadau Pensiwn Cyflogwr | 11 | 11 |
| Cyfanswm | **91** | **90** |

Yn ogystal â’r uchod yn ystod 2016/17 roedd cyfanswm cydnabyddiaeth ariannol un swyddog oedd yn ymddeol, gan gynnwys tâl colli swydd, yn y band £60,000 i £64,999, ac yn 2017/18 roedd cyfanswm cydnabyddiaeth ariannol swyddog arall oedd yn ymddeol, gan gynnwys tâl colli swydd, yn y band £65,000 i £69,999. Tâl canolrifol yr Awdurdod oedd £20,138 a chymhareb y Prif Weithredwr i'r tâl canolrifol oedd 3.88:1.

Nid oedd unrhyw golli swydd gorfodol yn 2017/18 nac yn 2016/17. Mae nifer pob pecyn ymadael, gan gynnwys taliadau pensiwn a cholli swydd a gytunwyd, gyda chyfanswm cost fesul band a chyfanswm cost, wedi'u nodi yn y tabl isod:

| | **NIFER Y SETLIADAU** | | | | **COST** |
|---|---|---|---|---|---|
| | **hyd at £20,000** | **£20,001 i £40,000** | **£40,001 i £60,000** | | **£000’oedd** |
| 2016/17 | 4 | 1 | 1 | | 113 |
| | | | | | |
| 2017/18 | 1 | | 1 | | 55 |

**34. COSTAU ARCHWILIO**
Mae'r Awdurdod wedi mynd i'r costau canlynol ar archwilio'r Datganiad o Gyfrifon, ardystio hawliadau grant ac archwiliadau statudol, ac ar wasanaethau heblaw am archwilio a ddarparwyd gan archwilwyr allanol yr Awdurdod:

| | 2017/18 £000 | 2016/17 £000 |
|---|---|---|
| Ffioedd yn daladwy i Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas â gwasanaethau archwilio allanol a wnaed gan yr archwilydd penodedig | 27 | 27 |
| Ffioedd yn daladwy i Archwilydd Cyffredinol Cymru mewn perthynas ag arolygiadau statudol a'r Mesur Llywodraeth Leol 2011 | 17 | 17 |
| Grant W.P.I. (Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella) | - | - |
| **Cyfanswm** | **44** | **44** |

## 35. INCWM GRANT

Roedd yr Awdurdod wedi credydu’r grantiau, y cyfraniadau a’r rhoddion canlynol i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

| | 2017/18 | 2016/17 |
|---|---|---|
| | **£000** | **£000** |
| **Credydwyd i Incwm Trethiant a Grantiau Amhenodol:** | | |
| Grant APC (a ariennir gan Lywodraeth Cymru) | 2,955 | 3,645 |
| Ardoll ar Gyngor Sir Penfro | 985 | 985 |
| Incwm Arall o Grantiau (a ariennir gan Lywodraeth Cymru) | 1,160 | 143 |
| Rhoddion | 53 | - |
| | **5,153** | **4,773** |
| **Credydwyd i Wasanaethau** | | |
| Llywodraeth Cymru: ariannu sylweddol tuag at Gadwraeth, prosiectau Mynediad a Chastell Caeriw a Harbwr a Chwarel Porth-gain | 4 | 21 |
| Cyfoeth Naturiol Cymru: cyfrannu arian tuag at reoli a chynnal-a-chadw’r Llwybr Cenedlaethol/Llwybr yr Arfordir; amrywiol gynlluniau coetir, Parciau Cenedlaethol Cymru a’r swydd Parcmon Castellmartin | 240 | 246 |
| Y Weinyddiaeth Amddiffyn: Parcmon Castellmartin | 20 | 19 |
| Treftadaeth y Loteri: Sgiliau ar Waith | 53 | 104 |
| Dewch i Gerdded Cymru | 5 | 10 |
| Grantiau eraill | 11 | 9 |
| **CYFANSWM GRANTIAU** | **333** | **409** |

## 36. TRAFODION PARTI CYSYLLTIEDIG

Mae'n ofynnol i'r Awdurdod ddatgelu trafodion perthnasol gyda phartïon cysylltiedig – cyrff neu unigolion sydd â'r potensial i reoli neu ddylanwadu ar yr Awdurdod neu i gael eu rheoli neu eu dylanwadu gan yr Awdurdod. Mae datgelu'r trafodion hyn yn galluogi darllenwyr i asesu i ba raddau y gallai'r Awdurdod fod wedi'i gyfyngu yn ei allu i weithredu'n annibynnol neu allai fod wedi sicrhau'r gallu i gyfyngu ar allu parti arall i fargeinio'n rhydd gyda'r Awdurdod. Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu lefel perthnasedd o £5,000 ar gyfer datgelu trafodion partïon cysylltiedig sy'n berthnasol i Aelodau a staff.

Mae’r Awdurdod Parc Cenedlaethol yn cynnwys 18 o aelodau, 12 a benodir gan Gyngor Sir Penfro a 6 yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru. Mae gan Aelodau'r Awdurdod reolaeth uniongyrchol dros bolisïau ariannol a gweithredol yr Awdurdod. Mae cyfanswm y lwfansau a dalwyd i’r Aelodau yn 2017/18 yn Atodiad 1. Mae'r Awdurdod yn cynnal cofrestri o Fuddiannau a Rhoddion a Lletygarwch yr Aelodau, ac mae’r gofrestr o Fuddiannau’r Aelodau ar gael i'w harchwilio ar wefan

yr Awdurdod. Nid oes unrhyw faterion i adrodd yn codi o'r cofnodion yn y cofrestri hyn, a bernir bod gallu'r Awdurdod i reoli neu ddylanwadu ar barti arall o ganlyniad i'r buddiannau a gofnodwyd yn annhebygol iawn.

Mae Nodiadau Datgelu 10 a 35 yn dangos y swm a'r ffynonellau refeniw sylweddol a chyllid cyfalaf a dderbyniodd yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn. Yn ogystal â derbyn Ardoll gan Gyngor Sir Penfro mae'r Awdurdod hefyd â chontractau gyda'r Cyngor am gyflenwi nwyddau a gwasanaethau gan gynnwys rheoli gwastraff, cynnal-a-chadw cerbydau, archwilio mewnol a chyngor arbenigol ar gynllunio. Mae gan Lywodraeth Cymru ddylanwad sylweddol dros weithrediadau cyffredinol yr Awdurdod; mae'n gyfrifol am ddarparu'r fframwaith statudol y mae'r Awdurdod yn gweithredu o'i mewn, yn darparu'r rhan fwyaf o'i gyllid ar ffurf grantiau, ac mae'n rhagnodi telerau nifer o'r trafodion sydd gan yr Awdurdod gyda phartïon eraill (megis biliau treth y cyngor, budd-daliadau tai). Cyfanswm lefel incwm a gwariant a balansau diwedd blwyddyn y trydydd partïon canlynol yw:

| Sefydliad | Incwm £000'oedd | Gwariant £000'oedd | 31/3/18 Credydwr £000'oedd | 31/3/18 Dyledwr £000'oedd |
|---|---|---|---|---|
| Llywodraeth Cymru | 4,116 | - | - | - |
| Cyngor Sir Penfro | 1,008 | 269 | 16 | 18 |

Mae'r Awdurdod wedi gweinyddu'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy ar ran Llywodraeth Cymru. Wrth ddyfarnu grantiau i sefydliadau, mae Pwyllgor Cronfa Datblygu Cynaliadwy yr Awdurdod yn gosod amodau arbennig i'r grant, sy'n cynnwys cysylltu perfformiad ariannol gyda chyflawni cerrig milltir y cytunwyd arnynt. Roedd dyfarniadau'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy a wnaed yn ystod y flwyddyn ariannol 2017-18 oedd yn fwy na £5,000 i'r prosiectau canlynol:-

| **Enw'r Prosiect** | **Dyfarnwyd i** | **Disgrifiad o'r Prosiect** | **Swm** |
|---|---|---|---|
| Menter Peilot Pysgod Cregyn Cynaliadwy Sir Benfro | Ardal Forol Cadwraeth Arbennig Sir Benfro | Nod y prosiect hwn yw dangos, drwy addysg, codi ymwybyddiaeth a chyflwyno cyfres o fesurau ymarferol, ei bod yn bosibl gwella cynaliadwyedd offer pysgota sefydlog oddi ar Arfordir Sir Benfro ac o ganlyniad lleihau'r effaith negyddol y mae offer coll yn ei gael ar amgylchedd y môr a'r economi leol | £5,786 |
| Adfer Gwres Compost | LM Tree Solutions | I alluogi ehangu'r busnes o lawdrin coed yn y Parc Cenedlaethol, mae'r prosiect hwn yn defnyddio system arloesol o adfer gwres compost fel ffynhonnell gwres sy'n gyfeillgar i'r amgychedd o sychu coed tân mewn odyn | £6,624 |
| Coleg y Môr | Ymddiriedolaeth y Môr | Mae cyllid SDF yn cyfrannu tuag at gyflogi Swyddog Datblygu rhan amser y Prosiect i ddatblygu'r cysyniad o Goleg y Môr/Academi Forol ariannol hyfyw yn adeilad labordy Ocean yn Wdig. Bydd y ganolfan ragoriaeth Gymreig hon yn darparu addysg, ymchwil wyddonol, monitro amgylcheddol a hefyd yn atyniad i | £6,995 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | ymwelwyr sy'n gartref i acwariwm wedi'i hadnewyddu | |
| Coleg y Môr Cam 2 | Ymddiriedolaeth y Môr | Bydd Cam 2 yn adeiladu ar y llwyddiant hwn drwy fynd â'r gweithgareddau y tu allan i labordy Ocean gan gynnwys yr Acwariwm Môr wedi'i hadnewyddu | £20,226 |
| Gofal Solfach | Cyngor Cymuned Solfach | Mae Gofal Solfach, menter gymunedol ddielw, yn darparu 33 awr ar gyfartaledd o ofal wedi'i deilwra i'r angen bob wythnos i 40 o bobl a'u teuluoedd. Mae'r gofal a ddarperir wedi bod yn hyblyg ac yn ymateb i'r angen, yn amrywio o gerdded cŵn i gludiant a chymorth gyda thechnoleg gwybodaeth | £11,595 |
| Astudiaeth Hemocyanin Ewinedd Mochyn (*slipper limpet)* | Mikota Ltd | Prosiect ymchwil yw hwn i ymchwilio i'r posibilrwydd o dynnu hemocyanin o ewinedd mochyn a'i gymharu â'r hemocyanin a ddefnyddir eisoes mewn cynhyrchion fferyllol | £18,875 |
| Rheoli Gwymon yn Gynaliadwy | Greenseas Resources Ltd | Mae'r prosiect hwn yn canolbwyntio ar reoli gwymon yn nyfrffordd Aberdaugleddau fel ffordd o ddatrys y broblem amgylcheddol sylweddol a achosir gan y lefelau uchel o faethynnau sy'n effeithio ar ansawdd y dŵr | £29,375 |
| Datblygu Cadwyn Gyflenwi Adnewyddadwy Morol | Fforwm Arfordir Sir Benfro | Bydd y prosiect Datblygu Cadwyn Gyflenwi Adnewyddadwy Morol yn asesu gallu cwmnïau Sir Benfro o ran y gadwyn gyflenwi gyda'r potensial i arallgyfeirio i'r diwydiant Ynni Adnewyddadwy Morol | £8,287 |
| Gwenyn Gorllewin Gwyllt Cymru | Ymddiriedolaeth Cadwraeth y Cacwn | Drwy weithio gyda chymunedau, mae Ymddiriedolaeth Cadwraeth y Cacwn yn esbonio pwysigrwydd gwenyn a'r hyn y gellir ei wneud i'w diogelu. Bydd yr Ymddiriedolaeth yn cyflawni hyn drwy wyddoniaeth dinasyddion, partïon gwaith cadwraeth, digwyddiadau, rhaglen addysg a gweithgareddau a phecyn cymorth ar gyfer grwpiau cymunedol, fydd yn gymorth i wneud mannau gwyrdd yn fwy cyfeillgar i wenyn | £5,249 |
| Y Prosiect Llesiant | Cadwch Gymru'n Daclu | Partneriaeth yw'r Prosiect Llesiant sy'n cael ei arwain gan Cadwch Gymru'n Daclus, gyda'r Ymddiriedolaethau Archaeolegol ledled Cymru. Mae'r prosiect yn gweithio i wella cofnodion a chofnodi ffynhonnau ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro, yn benodol o gwmpas aral Tyddewi a Phen Strwmbl, gan sicrhau eu bod yn cael eu cofnodi'n briodol ac nad ydynt yn cael eu colli | £6,000 |

**37. MENTRAU CYLLID PREIFAT A CHONTRACTAU TEBYG**
Nid oedd gan yr Awdurdod unrhyw fentrau cyllid preifat (PFI) na chontractau tebyg ar 31/3/18 (nac ar 31/3/17).

**38. COLLEDION LLEIHAD MEWN GWERTH**
Mae'r datgeliadau hyn wedi'u cyfuno yn y nodiadau ar y symudiad yn ystod y flwyddyn yn yr Eiddo, Offer a Chyfarpar.

**39. BUDDIANNAU TERFYNU**
Yn ystod y flwyddyn 2017/18 roedd yr Awdurdod wedi darparu £35,757 ar gyfer buddiannau terfynu penodol, (£80,946 yn 2016/17).

**40. CYNLLUNIAU PENSIWN BUDDIANNAU DIFFINIEDIG**
Mae'r Awdurdod yn cynnig buddiannau ymddeol diffiniedig i staff, sy'n ymwneud â chyflog a gwasanaeth, o dan Cronfa Bensiwn Dyfed (Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol), sef cynllun a ariennir a weinyddir gan Gyngor Sir Caerfyrddin. Er na fydd y buddiannau hyn yn daladwy nes i'r gweithwyr ymddeol, mae gan yr Awdurdod ymrwymiad presennol i wneud y taliadau buddiannau y mae angen eu datgelu ar yr adeg y mae'r gweithwyr yn ennill eu hawliau yn y dyfodol. Mae graddfeydd cyfraniadau'r Awdurdod yn cael eu pennu gan actiwarïaid cymwys proffesiynol y Gronfa yn seiliedig ar brisiad y Gronfa bob tair blynedd, a'r mwyaf diweddar o'r rhain oedd ar yr 31ain o Fawrth 2016. Y nod yw sicrhau y gall rhwymedigaethau cyffredinol y gronfa gael eu bodloni pan gyfatebir â chyfraniadau'r gweithwyr. Prif risgiau'r cynllun i'r Awdurdod yw y tybiaethau hirhoedledd, newidiadau statudol i'r cynllun, newidiadau strwythurol i'r cynllun (h.y. tynnu allan ar raddfa fawr o'r cynllun), newidiadau mewn chwyddiant, enillion bondiau a pherfformiad y buddsoddiadau ecwiti a ddelir gan y cynllun.

Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gydnabod costau ymddeoliad yng Nghost Net y Gwasanaethau pan fo'r gweithwyr yn ennill cyflog yn hytrach na phan fo'r buddiannau yn cael eu talu fel pensiynau. Fodd bynnag, mae hyn yn gwrthdaro â'r taliad y mae'n ofynnol i'r Awdurdod ei wneud yn y Cyfrif Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn seiliedig ar yr arian sy'n daladwy yn ystod y flwyddyn i'r gronfa bensiwn, felly mae gwir gost buddiannau ymddeol yn cael eu gwrthdroi allan o'r cyfrifon yn y datganiad o symudiad ar falans y gronfa gyffredinol. O dan Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol 19 (IAS 19) mae'r cyfrifyddu ar gyfer cynlluniau pensiwn wedi cael ei ddiwygio ar gyfer pob blwyddyn ariannol sy'n dechrau ar neu ar ôl y 1af o Ionawr 2013 ac mae'r newidiadau hyn sy'n cael eu hamlygu yn y datganiadau ariannol yn cynnwys llog ar Asedau. Mae'r adenillion disgwyliedig ar asedau yn cael ei amnewid gan y "llog ar asedau". Llog yw hwn ar asedau a ddelir ar ddechrau'r cyfnod a'r llif arian parod sy'n digwydd yn ystod y cyfnod, a gyfrifwyd drwy ddefnyddio'r gyfradd ddisgownt ar ddechrau'r flwyddyn. Bydd cost y pensiwn o dan IAS 19 diwygiedig yn gweld bod cost y llog a'r adenillion disgwyliedig ar asedau wedi'u disodli gan y 'gost llog net'. Bydd hyn yn cael ei gyfrifo fel llog ar rwymedigaethau pensiwn yn llai o'r llog ar asedau. Mae'r canllawiau IAS 19 diwygiedig yn ei gwneud yn ofynnol bod yr holl enillion a cholledion actiwaraidd yn cael ei gydnabod yn y flwyddyn y byddant yn digwydd drwy Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall ac na ellir eu gohirio mwyach. Bydd angen i enillion a cholledion actiwaraidd ar rwymedigaethau o ganlyniad i newidiadau mewn tybiaethau actiwaraidd gael eu rhannu rhwng effaith newidiadau mewn tybiaethau ariannol a newidiadau mewn tybiaethau demograffig. Mae costau gweinyddu yn cael eu cydnabod fel eitem ar wahân o fewn y gost pensiwn.

**Trafodion Perthnasol i Fuddiannau Ôl-gyflogaeth**
Rydym yn cydnabod cost buddiannau ymddeol yng nghost gwasanaethau pan gânt eu hennill gan y gweithwyr, yn hytrach na phan mae'r buddiannau yn cael eu talu fel pensiynau. Fodd bynnag, mae'r

tâl y mae'n ofynnol i ni ei wneud yn seiliedig ar yr arian sy'n daladwy yn y flwyddyn, felly mae gwir gost buddiannau ôl-gyflogaeth/ymddeol yn cael eu gwrth-droi allan o'r Gronfa Gyffredinol drwy'r Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn.  Mae'r trafodion canlynol wedi'u gwneud yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a Balans y Gronfa Gyffredinol drwy'r Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn yn ystod y flwyddyn:

| **Cyfanswm buddiannau ôl-gyflogaeth a godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | **£000'oedd** | | |
|---|---|---|---|
| | **2017-18** | | **2016-17** |
| **Costau gwasanaeth:** | | | |
| Cost gyfredol y gwasanaeth | 946 | | 602 |
| Effeithiau cwtogi | 13 | | - |
| Cost y Gwasanaeth yn y Gorffennol | 16 | | 25 |
| **Cyllido a Buddsoddi \| Incwm a Gwariant:** | | | |
| Cost Llog ar Rwymedigaethau | 803 | | 931 |
| Llog ar Asedau'r Cynllun | -691 | | -816 |
| **Llog net ar Bensiwn** | **112** | | **115** |
| **Incwm a Gwariant Arall ar Weithredu** | | | |
| Costau Gweinyddol | 16 | | 16 |
| **Cyfanswm Buddiannau Ôl-gyflogaeth a godir ar Gwarged/Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau** | **1,103** | | **758** |
| | | | |
| **Buddiannau Ôl-gyflogaeth Arall a godir ar Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:** | | | |
| Enillion ar asedau'r cynllun (heb gynnwys y swm a gynhwyswyd yn y treuliau llog net) | 311 | | 4,409 |
| Enillion (colledion) profiad actiwari | - | | - |
| Enillion (colledion) actiwari ar ragdybiaethau ariannol | 1,282 | | -5,307 |
| Enillion (colledion) actiwari ar ragdybiaethau demograffig | | | |
| **Cyfanswm Buddiannau Ôl-gyflogaeth a godir/credydir i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | **1,593** | | **-898** |
| | | | |
| **Gwrthdroi taliadau a wnaed i'r gwarged/diffyg ar ddarparu gwasanaethau yn y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn** | | | |
| Cost gyfredol y gwasanaeth | -946 | | -602 |
| Enillion/colledion y gwasanaeth yn y gorffennol | -16 | | -25 |
| Effeithiau cwtogi | -13 | | - |
| Cost Llog ar Rwymedigaethau | -803 | | -931 |
| Llog ar Asedau'r Cynllun | 691 | | 816 |
| Costau Gweinyddol | -16 | | -16 |
| **Union swm a godwyd yn erbyn y Gronfa Gyffredinol** | **-1103** | | **-758** |
| | | | |
| **Cyfraniadau Cyflogwr** | **409** | | **386** |

**Asedau a Rhwymedigaethau mewn perthynas â Buddiannau Ôl-gyflogaeth**

Cysoni gwerth presennol rhwymedigaethau'r cynllun (ymrwymiad buddiannau diffiniedig):

| | **Rhwymedigaethau a ariennir: Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol – £000'oedd** | |
|---|---|---|
| | **2017/18** | **2016/17** |
| Ymrwymiadau buddiannau ar ddechrau'r Flwyddyn | **32,430** | **26,134** |
| Cost Gwasanaeth Presennol | 946 | 602 |
| Llog ar rwymedigaethau pensiwn | 803 | 931 |
| Cyfraniadau Aelodau | 173 | 163 |
| Enillion Gwasanaeth yn y Gorffennol | 16 | - |
| (Enillion)/Colledion Actiwaraidd ar Rwymedigaethau | - | - |
| Ail-fesur Rhwymedigaethau: | - | - |
| (Enillion)/colledion profiad | - | -868 |
| (Enillion)/Colledion ar ragdybiaethau ariannol | -1,282 | 6,544 |
| (Enillion)/Colledion ar ragdybiaethau demograffig | - | -369 |
| Cwtogiadau | 13 | 25 |
| Buddiannau a Dalwyd | -887 | -732 |
| Ymrwymiadau Buddiannau ar ddiwedd y flwyddyn | **32,212** | **32,430** |

**Cysoni Gwerth presennol Asedau'r Cynllun:**

| | **Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol – £000'oedd** | |
|---|---|---|
| | **2017/18** | **2016/17** |
| **Gwerth Teg ar ddechrau'r Flwyddyn** | **27,792** | **22,766** |
| Llog ar/Adenillion Disgwyliedig ar Asedau'r Cynllun | 692 | 816 |
| Ail-fesur/Enillion/(Colledion) Actiwaraidd ar Asedau | 311 | 4,409 |
| Treuliau gweinyddu | -16 | -16 |
| Cyfraniadau Cyflogwr | 409 | 386 |
| Cyfraniadau Aelodau | 173 | 163 |
| Buddiannau/trosglwyddiadau a dalwyd | -887 | -732 |
| **Gwerth Teg ar Ddiwedd y Flwyddyn** | **28,474** | **27,792** |
| | | |
| **Union adenillion ar asedau'r cynllun** | **1,002** | **5,615** |

**Datganiad o Enillion a Cholledion Cydnabyddedig**

| | 2017/18 £000'oedd | 2016/17 £000'oedd |
|---|---|---|
| Ailddatganiadau/(Enillion)/Colledion Actiwaraidd | -1,593 | 898 |
| **Cyfanswm cost pensiynau a gydnabyddir yn MiRS** | **-1,593** | **898** |

Mae'r *costau gwasanaeth cyfredol* yn amlygu’r cynnydd yn y rhwymedigaethau y disgwylir iddo godi o wasanaeth gweithwyr yn y cyfnod cyfredol. Mae'r *costau gwasanaeth yn y gorffennol* yn amlygu’r cynnydd yn y rhwymedigaethau sy’n ymwneud â gwasanaeth gweithwyr mewn cyfnodau blaenorol sy'n codi o wella buddiannau ymddeol yn y cyfnod cyfredol. Mae'r *costau cwtogi /setliad* yn amlygu’r newidiadau yn y rhwymedigaethau sy'n ymwneud â’r camau sy’n rhyddhau'r cyflogwr sy'n bennaf gyfrifol am rwymedigaeth pensiwn (e.e. grŵp o weithwyr yn cael eu trosglwyddo i gynllun arall) neu ddigwyddiadau sy'n lleihau'r blynyddoedd disgwyliedig o wasanaeth cyflogeion yn y dyfodol neu sy’n lleihau croniad y buddiannau diffiniedig dros eu gwasanaeth yn y dyfodol i rai gweithwyr (e.e. cau uned fusnes). Mae'r *adenillion ar asedau* yn amlygu’r gyfradd gyfartalog a ddisgwylir ar yr union asedau a ddelir yn y cynllun pensiwn. Mae'r rhwymedigaethau wedi'u hasesu ar sail actiwaraidd drwy ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau, sef amcangyfrif o'r pensiynau fydd yn daladwy yn y dyfodol sy'n dibynnu ar ragdybiaethau ar gyfraddau marwoldeb, lefelau cyflog ac ati. Gwneir y rhagdybiaethau hyn gan actiwarïaid y Gronfa, William M Mercer Cyf, ac sy’n seiliedig ar yr adroddiad prisiad actiwaraidd ar yr 31ain o Fawrth 2016. Mae’r *llog ar rwymedigaethau pensiwn* yn amlygu’r cynnydd disgwyliedig yn ystod y flwyddyn yng ngwerth presennol y rhwymedigaethau gan fod y buddiannau un flwyddyn yn agosach at eu setlo. Yr asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol ar gyfer buddiannau ymddeol sydd i’w priodoli i'r Awdurdod ar yr 31ain o Fawrth 2018 yw fel a ganlyn:

| **CRONFA BENSIWN DYFED<br>(Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro)<br>31 Mawrth 2018** | **£000** |
|---|---|
| Gwerth Presennol Ymrwymiadau Buddiannau a Ariennir | 32,157 |
| Gwerth Presennol Ymrwymiadau Buddiannau heb eu hariannu | 55 |
| Cyfanswm gwerth presennol yr ymrwymiadau buddiannau | **32,212** |
| Gwerth Teg Asedau’r Cynllun | (28,474) |
| Gwasanaeth yn y Gorffennol heb ei gydnabod | |
| **Diffyg** | **3,738** |

**Gwerthoedd Cynllun Blwyddyn Flaenorol**

| Blwyddyn y Cynllun | Gwerth presennol Rhwymedigaethau’r Cynllun (£000) | Gwerth Teg Asedau’r Cynllun (£000) |
|---|---|---|
| 31 Mawrth 2017 | 32,430 | 27,792 |
| 31 Mawrth 2016 | 26,134 | 22,766 |
| 31 Mawrth 2015 | 26,751 | 23,227 |
| 31 Mawrth 2014 | 21,868 | 20,300 |
| 31 Mawrth 2013 | 23,884 | 18,968 |
| 31 Mawrth 2012 | 19,976 | 16,514 |
| 31 Mawrth 2011 | 18,005 | 15,986 |

| | | |
|---|---|---|
| 31 Mawrth 2010 | 19,339 | 14,391 |
| 31 Mawrth 2009 | 13,266 | 10,137 |

**Nodir y prif ragdybiaethau isod:**

| **RHAGDYBIAETHAU ACTIWARAIDD** *Rhagdybiaethau ariannol* | Diwedd y Flwyddyn | Dechrau'r Flwyddyn |
|---|---|---|
| Cyfradd chwyddiant CPI | 2.1% | 2.3% |
| Cyfradd y cynnydd mewn cyflogau | 3.6% | 3.8% |
| Cyfradd y cynnydd mewn pensiynau | 2.2% | 2.3% |
| Cyfradd ddisgownt | 2.6% | 2.5% |

**Dadansoddiad manwl o'r Asedau yw fel a ganlyn**.

| **Categori'r Buddsoddiad** | | | **Dyfynnir** | **31 Mawrth 2018** | **31 Mawrth 2017** |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | **(Ie/Na)** | **£000'oedd** | |
| Ecwitïau: | DU | | Ie | 5,784 | 6,835 |
| | Tramor heb ei Ddyfynnu | | Na | | 6,406 |
| | Unol Daleithiau | | Na | 2,847 | 2,668 |
| | Canada | | Na | 142 | 139 |
| | Siapan | | Na | 968 | 917 |
| | Rim Môr Tawel | | Na | | 740 |
| | Marchnadoedd sy'n datblygu | | Na | | 2,249 |
| | Tramor Cyfuno | | Ie | | - |
| | Ewropeaidd heblaw'r DU | | Ie | | 968 |
| | | | | | |
| Bondiau: | Mynegeio gan Lywodraeth y DU | | Ie | | 2,790 |
| | Tramor arall | | Na | | 2,733 |
| | | | | | |
| Eiddo: | DU | | | | |
| | Tramor | | | | |
| | Arall | | Ie | | 2,676 |
| | | | | | |
| Arian parod: | Offerynnau arian | | Ie | | - |
| | Cyfrifon arian | | Ie | | 85 |
| | Asedau cyfredol net | | Na | | 85 |
| | | | | | |
| **Cyfanswm** | | | | **28,473** | **27,792** |

| **Categori'r Asedau** | **Is-gategori** | **Dyfynnir (Ie/Na)** | **31 Mawrth 2018 % daliad** | **31 Mawrth 2017 % daliad** |
|---|---|---|---|---|

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Ecwitïau: | DU | Ie | 20.30% | 24.60% |
| | Tramor heb ei Ddyfynnu | Na | | 22.50% |
| | DU | Na | 10.00% | 9.60% |
| | Canada | Na | 0.50% | 0.50% |
| | Siapan | Na | 3.40% | 3.30% |
| | Rim Môr Tawel | Na | | 2.60% |
| | Marchnadoedd sy'n datblygu | Na | | 7.90% |
| | Tramor Cyfuno | | | 0.00% |
| | Ewropeaidd heblaw'r DU | | | 3.40% |
| | | | | |
| Bondiau: | Mynegeio gan Lywodraeth y DU | Ie | | 9.80% |
| | Tramor arall | Na | | 9.60% |
| | | | | |
| Eiddo: | DU | | | |
| | Tramor | | | |
| | Arall | Ie | | 9.40% |
| | | | | |
| Arian parod: | Offerynnau arian | Ie | | |
| | Cyfrifon arian | Ie | | 0.30% |
| | Asedau cyfredol net | Na | | 0.30% |
| | | | | |
| **Cyfanswm** | | | **100.00%** | **100.00%** |

**Rhagdybiaethau marwoldeb Ôl Ymddeol**

| | Diwedd y Flwyddyn | Dechrau'r Flwyddyn |
|---|---|---|
| Aelodau heb ymddeol | S1PA CMI_2015_1.5% Tablau Dynion – 97% Menywod – 90% | S2PA_CMI_2015_1.5% Tablau Dynion – 97% Menywod – 90% |
| Aelodau wedi ymddeol | S1PA_CMI_2015_1.5% Tablau Dynion – 97% Menywod – 90% | S2PA_CMI_2015_1.5% Tablau Dynion – 97% Menywod – 90% |

**Oes Ddisgwyliedig**

| | Diwedd y Flwyddyn | Dechrau'r Flwyddyn |
|---|---|---|
| Dynion (menywod) pensiynwr yn y dyfodol 65 oed ymhen 20 mlynedd | 25.1 (27.9) o flynyddoedd | 25 (27.8) o flynyddoedd |
| Dynion (menywod) pensiynwr cyfredol 65 oed | 22.9 (25.6) o flynyddoedd | 22.8 (25.5) o flynyddoedd |

**Risg a Dadansoddi Sensitifrwydd Pensiwn**
Prif risgiau'r cynllun i'r Awdurdod yw'r rhagdybiaethau hirhoedledd, newidiadau statudol i'r cynllun, newidiadau strwythurol i'r cynllun (h.y. tynnu'n ôl ar raddfa fawr o'r cynllun), newidiadau i chwyddiant, enillion bondiau a pherfformiad y buddsoddiadau ecwiti a ddelir gan y cynllun. Mae'r rhain yn cael eu lliniaru i ryw raddau gan y gofynion statudol i godi'r symiau sy'n ofynnol yn statudol ar y Gronfa Gyffredinol, fel y disgrifir yn y nodyn i'r polisïau cyfrifyddu.

Mae'r amcangyfrif o'r ymrwymiadau buddiannau diffiniedig yn sensitif i'r rhagdybiaethau actiwaraidd a nodir yn y tabl isod. Mae dadansoddiadau sensitifrwydd isod wedi cael eu penderfynu yn seiliedig ar newidiadau rhesymol bosibl o'r rhagdybiaethau fydd yn digwydd ar ddiwedd y cyfnod adrodd ac yn rhagdybied ar gyfer pob newid bod y rhagdybiaeth a ddadansoddwyd yn newid tra bod pob rhagdybiaeth arall yn aros yn gyson. Mae'r rhagdybiaethau mewn hirhoedledd, er enghraifft, yn rhagdybied bod disgwyliad oes yn cynyddu neu'n gostwng ar gyfer dynion a menywod. Yn ymarferol, mae hyn yn annhebygol o ddigwydd, ac efallai y bydd newidiadau yn rhai o'r rhagdybiaethau yn cydberthyn. Mae'r amcangyfrifon yn y dadansoddiad sensitifrwydd wedi dilyn y polisïau cyfrifyddu ar gyfer y cynllun, h.y. ar sail actiwaraidd drwy ddefnyddio'r dull rhagamcanu credyd unedau.

| | **£000'oedd** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Canolig** | **Sensitifrwydd 1** | **Sensitifrwydd 2** | **Sensitifrwydd 3** | **Sensitifrwydd 4** |
| | | **+0.1% cyfradd ddisgownt y fl.** | **+0.1% chwyddiant y fl.** | **+0.1% twf cyflog y fl.** | **Cynnydd o 1 flwyddyn mewn disgwyliad oes** |
| **Eitem Datgelu** | | | | | |
| **Rhwymedigaethau** | 32,212 | 31,686 | 32,798 | 32,324 | 32,844 |
| **Asedau** | (28,473) | (28,473) | (28,473) | (28,473) | (28,473) |
| **Diffyg (Gwarged)** | 3,739 | 3,163 | 4,325 | 3,851 | 4,371 |
| **Rhagamcan Costau Gwasanaeth y flwyddyn nesaf** | 880 | 855 | 906 | 880 | 899 |
| **Rhagamcan Costau Llog Net y flwyddyn nesaf** | 93 | 81 | 108 | 96 | 109 |

**Hanes enillion a cholledion profiad**
Gall yr union enillion a nodwyd fel symudiadau ar y Gronfa Bensiwn yn 2014/15 gael eu dadansoddi i'r categorïau canlynol.

| | 2017/18 % | 2016/17 % | 2015/16 % | 2014/15 % | 2013/14 % | 2012/13 % | 2011/12 % |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Actiwaraidd (enillion)/ colledion ar Asedau | (1.1) | (15.9) | 4.2 | (9.1) | (2.4) | (7.8) | (4.3) |
| Actiwaraidd (enillion)/ colledion ar rwymedigaethau | (4.0) | (16.4) | 5.8 | (14.2) | (16.6) | (10.9) | (3.4) |

**Gwerth asedau'r gronfa gyfan ar y farchnad (£ miliynau)**

| Diwedd y Flwyddyn | Dechrau'r Flwyddyn |
|---|---|
| 2,535 | 2,236 |

Mae'r ffigurau diwedd blwyddyn ar werth yr asedau ar y farchnad a'r rhaniad rhwng categorïau'r buddsoddiadau wedi eu cyfrifo fel yr oeddent ar 31/12/17. Mae'r rhaniad cyfatebol o asedau ar ddechrau'r flwyddyn wedi ei gyfrifo fel yr oedd ar 31/3/17. Mae'r rhagdybiaethau actiwaraidd a ddefnyddiwyd wrth gyfrifo rhwymedigaethau'r fantolen diwedd y flwyddyn yn seiliedig ar ragdybiaeth prisiad actiwaraidd 2016 heblaw am y rhagdybiaethau ariannol a ddangosir uchod. Gwnaed ôl-dyniad o £16,000 mewn perthynas â threuliau am y flwyddyn.

Cyfraniad y cyflogwr a ragwelir ar gyfer 2018/19 yw £352,000, sef cost gwasanaeth tybiedig gan gynnwys costau llog net o £93,000 a chostau gweinyddu o £16,000. Disgwylir y bydd y diffyg a ragwelir ar 31/3/18 yn £4,376,000.

Mae rhagor o wybodaeth am Gronfa Bensiwn Dyfed, megis yr adroddiad blynyddol, ar gael gan weinyddwyr y Gronfa yn swyddfa Cyngor Sir Caerfyrddin, neu ar-lein yn www.dyfedpensionfund.org.uk

**41. Addasiad ers y Flwyddyn Flaenorol**
Ym mlwyddyn ariannol 2017/18, newidiodd yr Awdurdod ei bolisi ar ailddyrannu costau cymorth i ddefnyddwyr gwasanaethau. Bellach, mae'r costau hyn i'w gweld fel eitem ar linell ar wahân yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Felly, at ddibenion cymharu, bu newid yn y data ar gyfer 2016/17 yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, a'r nodiadau cysylltiedig.

Hefyd, gostyngwyd £152k ar yr enillion ailbrisio yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr er mwyn cywiroi addasiad a wnaeth wrth ailbrisio mewn blwyddyn blaenorol. Felly, gwnaed newidiadau hefyd i'r datgeliadau yn y Nodyn 'Addasiadau rhwng sail cyfrifyddu a sail ariannu dan reoliadau' a'r Dadansoddiad o Wariant a Chyllido.

Dangosir isod y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar gyfer 2016/17 a'r Nodyn 'Addasiadau rhwng sail cyfrifyddu a sail ariannu dan reoliadau' yn 2016/17 sy'n nodi'r ffigurau a ailddatganwyd ochr yn ochr â'r ffigurau a gofnodir yn natganiadau ariannol 2016/17.

**Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar 31 Mawrth 2017**

| | **31 Mawrth 2017 (wedi'i ailddatgan)** | | | **31 Mawrth 2017** | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Gwariant** | **Incwm** | **Net** | **Gwariant** | **Incwm** | **Net** |
| Cadwraeth yr Amgylchedd Naturiol | 372 | -31 | 341 | 442 | -32 | 410 |
| Cadwraeth y Dreftadaeth Ddiwylliannol | 149 | -2 | 147 | 167 | -2 | 165 |
| Rheoli Datblygu | 452 | -205 | 247 | 643 | -208 | 435 |
| Blaengynllunio a Chymunedau | 403 | -13 | 390 | 476 | -13 | 463 |
| Hyrwyddo Dealltwriaeth | 1,638 | -782 | 856 | 1,936 | -796 | 1,140 |
| Hamdden a Thrafnidiaeth | 645 | -651 | -6 | 702 | -662 | 40 |
| Parcmyn, Ystadau a Gwirfoddolwyr | 1,156 | -113 | 1,043 | 1,269 | -115 | 1,154 |
| Cynrychiolaeth a Rheolaeth Ddemocrataidd | 435 | -13 | 422 | 568 | -13 | 555 |
| Costau Gwasanaethau Cymorth | 953 | -31 | 922 | | | |
| Cost Cyn Wasanaeth (Nodyn 40) | 25 | - | 25 | 25 | | 25 |
| **Cost y Gwasanaethau** | **6,228** | **-1841** | **4,387** | **6,228** | **-1,841** | **4,387** |
| Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi (Nodyn 8) | | | 1,006 | | | 1,006 |
| Gwariant Gweithredu Arall (Nodyn 9) | | | 28 | | | 28 |
| Incwm Trethiant a Grant Amhenodol (Nodyn 10) | | | -4,773 | | | -4,773 |
| **(Gwarged) neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau** | | | **648** | | | **648** |
| Gwarged neu ddiffyg ar ailbrisio asedau sefydlog (Nodyn 11) | | | -163 | | | -315 |
| Enillion/colledion actiwaraidd ar asedau/rhwymedigaethau pensiwn (Nodyn 40) | | | 898 | | | 898 |
| **Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall** | | | **735** | | | **583** |
| **Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (Nodyn 6)** | | | **1,383** | | | **1,231** |

Gweler isod yr addasiadau o’r Gronfa Gyffredinol i gyrraedd symiau’r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:

| **2016/17** | **£000's** | | | | **£000's** | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2016/17 wedi’i ailddatgan** | | | | **2016/17** | | | |
| **Gwasanaeth** | **Cyfalaf** | **Arall** | **Pensiwn** | **Cyfanswm** | **Cyfalaf** | **Arall** | **Pensiwn** | **Cyfanswm** |
| Cadwraeth yr Amgylchedd Naturiol | 4 | 40 | 10 | 54 | 4 | 12 | 40 | 56 |
| Cadwraeth y Dreftadaeth Ddiwylliannol | | | 14 | 14 | 2 | 17 | 0 | 19 |
| Rheoli Datblygu | | | 22 | 22 | 0 | 26 | 0 | 26 |
| Blaengynllunio a Chymunedau | | | 12 | 12 | 0 | 14 | 0 | 14 |
| Hyrwyddo Dealltwriaeth | 124 | -2 | 50 | 172 | 129 | 59 | -2 | 186 |
| Hamdden a Thrafnidiaeth | 50 | -13 | 10 | 47 | 51 | 12 | -13 | 50 |
| Parcmyn, Ystadau a Gwirfoddolwyr | -65 | 21 | 52 | 8 | -68 | 61 | 21 | 14 |
| Cynrychiolaeth a Rheolaeth Ddemocrataidd | | | 12 | 12 | 0 | 14 | 0 | 14 |
| Gwasanaethau Cymorth | 5 | | 33 | 38 | | | | |
| **Cost Net y Gwasanaethau** | **118** | **46** | **215** | **379** | **118** | **215** | **46** | **379** |
| Incwm a Gwariant Arall | 561 | -525 | 1,054 | 1,090 | 561 | 1,054 | -525 | 1,090 |
| **Cyfanswm** | **679** | **-479** | **1,269** | **1,469** | **679** | **1,269** | **-479** | **1,469** |

## 2016/17
## ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFYDDU A SAIL ARIANNU DAN REOLIADAU
## £000'oedd

| | 2016-17 wedi'i ailddatgan | | | | 2016-17 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Balans Cronfa Gyffredinol** | **Cronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf** | **Grantiau Cyfalaf heb eu defnyddio** | **Symudiad mewn cronfeydd wrth gefn na ellir eu defnyddio** | **Balans Cronfa Gyffredinol** | **Cronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf** | **Grantiau Cyfalaf heb eu defnyddio** | **Symudiad mewn cronfeydd wrth gefn na ellir eu defnyddio** |
| **Symudiad mewn cronfeydd wrth gefn yn ystod 2016/17** | | | | | | | | |
| **Addasiad i'r Adnoddau Refeniw** | | | | | | | | |
| Taliadau am ddibrisiant a gostyngiad mewn gwerth asedau anghyfredol | 84 | | | -84 | 235 | | | -235 |
| Ailbrisio Eiddo Buddsoddi | 953 | | | -953 | 953 | | | -953 |
| Colledion Ailbrisio ar Eiddo, Offer a Chyfarpar | 34 | | | -34 | 34 | | | -34 |
| Addasiad sy'n ymwneud â'r Cyfrif Absenoldebau Cronedig | 0 | | | 0 | 0 | | | 0 |
| Gwariant refeniw a ariannwyd o gyfalaf o dan statud | 46 | | | -46 | 46 | | | -46 |
| Gwariant refeniw a ariannwyd o grantiau cyfalaf | -87 | | | 87 | -87 | | | 87 |
| Costau Pensiynau | 372 | | | -372 | 372 | | | -372 |
| **Cyfanswm Addasiadau i'r Adnoddau Refeniw** | **1,402** | | | **-1,402** | **1,553** | | | **-1,553** |
| **Addasiadau rhwng Adnoddau Refeniw a Chyfalaf** | | | | | | | | |
| Gwariant cyfalaf a godwyd yn erbyn y Gronfa Gyffredinol | -32 | | | 32 | -32 | | | 32 |
| Trosglwyddo enillion gwerthiannau anghyfredol o refeniw i'r gronfa wrth gefn derbyniadau Cyfalaf | 0 | | | 0 | 0 | | | 0 |
| **Cyfanswm Addasiadau rhwng Adnoddau Refeniw a Chyfalaf** | **-32** | | | **32** | **-32** | | | **32** |
| **Cyfanswm Addasiadau rhwng sail gyfrifyddu a sail gyllido dan reoliadau** | **1,370** | | | **-1,370** | **1,521** | | | **-1,521** |

# DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU
# AR GYFER Y DATGANIAD O GYFRIFON

## Cyfrifoldebau'r Awdurdod am y cyfrifon o dan ddeddfwriaeth llywodraeth leol a gofynion eraill yw:

- gwneud trefniadau ar gyfer gweinyddu ei faterion ariannol a sicrhau bod un o'i swyddogion yn gyfrifol am weinyddu'r materion hynny. Yn yr Awdurdod hwn, y swyddog hwnnw yw'r Prif Swyddog Ariannol.
- rheoli ei faterion i sicrhau defnydd economaidd, effeithlon, effeithiol a gwerth gorau o adnoddau ac i ddiogelu ei asedau.
- cymeradwyo'r datganiad o gyfrifon erbyn y terfyn amser statudol.

Cadeirydd ............................................

Dyddiad ................................................

## Cyfrifoldeb cyfreithiol a phroffesiynol y Prif Swyddog Ariannol ar gyfer y cyfrifon:

Y Prif Swyddog Ariannol sy'n gyfrifol am baratoi datganiad yr Awdurdod o gyfrifon yn unol ag arferion priodol fel y'u nodir yng Nghod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig ('y Cod Ymarfer').

Wrth baratoi'r datganiad hwn o gyfrifon, mae'r Prif Swyddog Ariannol wedi:

✓ dewis polisïau cyfrifyddu addas ac yna eu cymhwyso'n gyson;

✓ gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon oedd yn rhesymol ac yn ddarbodus;

✓ cydymffurfio â'r Cod Ymarfer;

Hefyd mae'r Prif Swyddog Ariannol wedi:

✓ cadw cofnodion cyfrifyddu priodol oedd yn cynnwys y ffigurau diweddaraf;

✓ cymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac anghysondebau eraill.

## Tystysgrif y Prif Swyddog Ariannol

Yr wyf drwy hyn yn ardystio bod y ***Datganiad o Gyfrifon 2017/18*** yn cyflwyno darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol yr Awdurdod ar yr 31$^{ain}$ o Fawrth 2018 ac o'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben ar yr 31$^{ain}$ o Fawrth 2018.

**R.E. GRIFFITHS** ....................................................................
**Prif Swyddog Ariannol**

**Dyddiad** .............................

# DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL 2017/18

## I. Cyflwyniad

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ("yr Awdurdod") yn gyfrifol am sicrhau bod ei fusnes yn cael ei gynnal yn unol â'r gyfraith a'r safonau priodol, bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu a'i gyfrif yn briodol a'i ddefnyddio'n economaidd, yn effeithlon, ac yn effeithiol. Mae'n awdurdod gwella Cymreig o dan adran 1 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 ac fel y cyfryw mae ganddo ddyletswydd gyffredinol o dan adran 2 i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn y modd y mae'n cyflawni ei swyddogaethau. Hefyd mae'r Awdurdod yn gorff cyhoeddus fel y'i diffinnir o dan ofynion deddfwriaethol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer y 1af o Ebrill 2016.

Mae'r Awdurdod wedi cymeradwyo Cod Llywodraethu Corfforaethol, sy'n gyson ag egwyddorion Fframwaith y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA)/Cymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch-reolwyr Awdurdodau Lleol y DU (SOLACE) 'Cyflawni Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol: Canllawiau i Awdurdodau Cymru 2016'. Mae'r canllawiau hyn yn argymell y dylai'r adolygiad o effeithiolrwydd y system o reolaeth fewnol sy'n ofynnol i awdurdodau lleol ei chynnal yn unol â'r Rheoliadau Cyfrifyddu ac Archwilio gael ei adrodd mewn Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Yng Nghymru, mae cynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn y Datganiad o Gyfrifon yn fater gwirfoddol. Roedd CIPFA hefyd wedi cyhoeddi "Nodyn Cymhwyso i Gyflawni Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol: Fframwaith". Mae'r nodyn hwn wedi cael ei ddatblygu i roi cyngor ar gymhwyso'r "Datganiad o Rôl y Prif Swyddog Ariannol ar Lywodraeth Leol" o dan y Fframwaith CIPFA/SOLACE "Cyflawni Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol". Mae'r Awdurdod yn adolygu ac yn mabwysiadu unrhyw ganllawiau ychwanegol a gyhoeddir, ac wedi penderfynu mabwysiadu fframwaith a dull Datganiad Llywodraethu Blynyddol CIPFA ar gyfer 2016/17.

## II. Diben y fframwaith llywodraethu

Mae'r fframwaith llywodraethu yn cynnwys y pwyllgorau, y systemau a'r prosesau, y diwylliant a'r gwerthoedd sy'n llywio ac yn rheoli'r Awdurdod a'i weithgareddau ar gyfer bod yn atebol i'r gymuned, yn ymgysylltu â'r gymuned ac yn arwain y gymuned. Mae'n galluogi'r Awdurdod i fonitro'r modd y mae'n cyflawni ei amcanion strategol ac ystyried a yw'r amcanion hynny wedi arwain at ddarparu gwasanaethau priodol, costeffeithiol.

Mae'r system rheolaeth fewnol yn rhan bwysig o'r fframwaith hwnnw ac fe'i lluniwyd i reoli risg i lefel resymol. Ni all ddileu pob risg o fethu â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion ac felly ni all ond rhoi sicrwydd rhesymol ac nid absoliwt o effeithiolrwydd. Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus a gynlluniwyd i glustnodi a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion yr Awdurdod, i werthuso'r tebygolrwydd bod y risgiau hynny yn cael eu gwireddu, a'r effaith pe caent eu gwireddu, ac i'w rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn economaidd.

## III. Y fframwaith llywodraethu

Ceir diffiniad clir o rolau Aelodau a Swyddogion a strwythur clir pwyllgorau a gwneud penderfyniadau. Mae hyn yn seiliedig ar:

Yr Awdurdod
Mae'r Awdurdod yn cynnwys 18 o aelodau, a bydd yn cyfarfod o leiaf 6 gwaith y flwyddyn, a phrif swyddogaethau'r Awdurdod yw:

- Cymeradwyo datblygu fframwaith cynllunio corfforaethol strategol yr Awdurdod drwy Gynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol (bob pum mlynedd), y Cynllun Datblygu Lleol (bob pum mlynedd), a'r Cynllun Adnoddau Corfforaethol (yn flynyddol).
- Penderfynu ar yr holl faterion polisi i gynnal ei amcanion cynllunio strategol. Gall yr Awdurdod dderbyn cyngor gan ei bwyllgorau a gall hefyd sefydlu grwpiau gorchwyl a gorffen ymgynghorol i ymchwilio a chynghori ar faterion penodol.
- Penderfynu ar yr holl Safonau Gwasanaeth ac ar Ddyletswyddau Statudol yr Awdurdod.
- Cytuno ar bolisïau sy'n ymwneud â rheoli adnoddau'r Awdurdod h.y. cyllid, staffio ac asedau; ac i gymeradwyo'r gyllideb, yr ardoll, y taliadau, a'r Cyfrifon Blynyddol.
- Sicrhau bod yr Awdurdod yn cydymffurfio â phob deddfwriaeth sy'n effeithio ar ei wasanaethau.
- Penderfynu ar aelodaeth pwyllgorau eraill, grwpiau gorchwyl a gorffen, gweithgorau a grwpiau ymgynghorol, o fewn yr Awdurdod, a'u cylch gorchwyl, a chynrychiolaeth yr Awdurdod ar gyrff a sefydliadau allanol.
- Penderfynu ar ddirprwyo cyfrifoldebau'r Awdurdod i bwyllgorau eraill yr Awdurdod, a phan yn briodol, i'r Prif Weithredwr.

Y Pwyllgor Adolygu Gwasanaethau Archwilio a Chorfforaethol
Bydd y Pwyllgor yn cynnwys 9 Aelod o'r Awdurdod i'w dewis a/neu gadarnhau yn y Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol bob blwyddyn.  Rôl y pwyllgor yw arfer pwerau a dyletswyddau'r Awdurdod mewn perthynas â'r swyddogaethau canlynol:

1. Fframwaith Rheoleiddio
   - Monitro perfformiad yr Awdurdod yn erbyn Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol
   - Goruchwylio'r gwaith o gynhyrchu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac i fonitro perfformiad yr Awdurdod yn erbyn y Cynllun Gweithredu cysylltiedig
   - Monitro perfformiad yr Awdurdod yn erbyn y Llythyr Grant Strategol Blynyddol
   - Monitro perfformiad yn erbyn Safonau Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â'r Gymraeg
   - Monitro perfformiad yn erbyn y Safonau Gwasanaeth a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod

2. Gweithgaredd Archwilio
   - Ystyried adroddiadau gan Swyddfa Archwilio Cymru (e.e. yr Adroddiad Gwella Blynyddol, y Llythyr Archwilio Blynyddol) a monitro perfformiad yr Awdurdod yn yr adroddiadau hynny
   - Ystyried adroddiadau gan yr Archwilydd Mewnol ar systemau a rheolaethau ariannol yr Awdurdod.

3. Cyllid
   - Ystyried adroddiadau chwarterol ar berfformiad ariannol yr Awdurdod a materion cyllidebol
   - Monitro perfformiad yr Awdurdod mewn perthynas â'i Ddatganiad Cyfrifon Blynyddol.

4. Adnoddau Dynol
   Monitro perfformiad yr Awdurdod:
   - yn erbyn ei bolisïau Adnoddau Dynol a fabwysiadwyd
   - mewn perthynas ag Iechyd a Diogelwch

5. Technoleg Gwybodaeth
    - Monitro perfformiad yr Awdurdod mewn perthynas â'i Strategaeth Technoleg Gwybodaeth.

6. Rheoli Perfformiad
    - Ystyried adroddiadau chwarterol ar y system rheoli perfformiad *Ffynnon* a monitro perfformiad yr Awdurdod yn yr adroddiadau hynny
    - Adolygu Cofrestr Risg yr Awdurdod o ran Archwilio a'r swyddogaethau corfforaethol a gwneud unrhyw argymhellion i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol i newid lefelau o risg
    - Ystyried adroddiadau cyfarfodydd y Grŵp Gwelliant Parhaus.

7. Cyfathrebu
    - Monitro perfformiad yr Awdurdod mewn perthynas â Chyfathrebu a Marchnata.

8. Materion eraill
    - Adolygu unrhyw fater a gyfeirir ato gan yr Awdurdod Parc Cenedlaethol, unrhyw un o'i Bwyllgorau neu'r Prif Weithredwr.
    - Penderfynu ar ymateb yr Awdurdod ar unrhyw gynigion sy'n effeithio ar y Parc Cenedlaethol neu'r Awdurdod, ei bwerau, dyletswyddau, swyddogaethau a chyfrifoldebau, yn enwedig ond nid yn unig, o'r llywodraeth ganolog, ranbarthol neu leol, awdurdodau cyfagos, partneriaethau a chyrff allanol eraill lle mae'r cynigion yn berthnasol i swyddogaethau'r Pwyllgor a lle mae'r Prif Weithredwr o'r farn y dylai'r cyfryw ymateb gael ei benderfynu gan y Pwyllgor.

<u>Y Pwyllgor Rheoli Datblygu</u>
Y Pwyllgor Rheoli Datblygu sy'n gyfrifol am gyflawni swyddogaethau cynllunio statudol yr Awdurdod mewn perthynas â phenderfynu ar geisiadau, apeliadau a materion gorfodaeth, a materion cysylltiedig sy'n ymwneud â datblygu a rheoleiddio defnydd a gweithgareddau.

Cylch gorchwyl y Pwyllgor Rheoli Datblygu yw:

(a) Ac eithrio pan fo'r pwerau a'r dyletswyddau hynny wedi'u dirprwyo gan yr Awdurdod i un o'i swyddogion a chyn belled â bod ei benderfyniadau yn cydymffurfio â'r datganiadau a'r cynlluniau a gymeradwywyd gan yr Awdurdod, bydd y Pwyllgor yn ymarfer, gyda'r hawl i weithredu, holl bwerau a dyletswyddau'r Awdurdod sy'n ymwneud ag ystyried ceisiadau cynllunio, adeiladau rhestredig a cheisiadau ardal gadwraeth, cynlluniau hysbysu, gorchmynion diogelu coed, rheoli datblygu a gorfodi'r cyfryw reolaeth, a chynlluniau eraill o ymgynghori lle bo hynny'n briodol.

(b) Lle bo Aelodau yn penderfynu gwneud penderfyniad sy'n groes i argymhelliad swyddog, penderfyniad y mae'r Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Cynllunio neu Arweinydd y Tîm Rheoli Datblygu yn clustnodi sy'n gyfystyr â gwyro'n sylweddol oddi wrth gynllun neu bolisi a gymeradwywyd gan yr Awdurdod, neu bod i'r penderfyniad oblygiadau arwyddocaol i'r Awdurdod, bydd y penderfyniad yn cael ei ohirio tan y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor.

    Os, yn y pen draw, bod penderfyniad y Pwyllgor yn groes i argymhelliad y swyddog, rhaid cymryd cofnod llawn o resymau'r Aelodau dros wrthod argymhelliad y swyddog, ynghyd â phleidlais wedi'i chofnodi.

(c) Derbyn adroddiadau o bryd i'w gilydd gan y Prif Weithredwr (Swyddog y Parc Cenedlaethol) a swyddogion eraill ar arfer unrhyw swyddogaeth sy'n ymwneud â rheoli datblygu a allai fod wedi'i dirprwyo iddynt.

(d) Delio â holl faterion sy'n ymwneud â dynodi a gweinyddu Ardaloedd Cadwraeth.

Y Pwyllgor Adolygu Gweithredol

Mae'r Pwyllgor yn cynnwys 9 Aelod yr Awdurdod, i'w dewis a/neu eu cadarnhau yn y Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol bob blwyddyn. Mae'r Pwyllgor yn cyfarfod bob chwarter ac mae'n ystyried adroddiadau i'r Awdurdod ar ei berfformiad. Rôl y pwyllgor yw:

1. Monitro perfformiad a gwneud argymhellion i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol mewn perthynas â swyddogaethau:

   - Rheoli Datblygu
   - Cyfeiriad y Parc
   - Cyflawniad y Parc
   - Darganfod

2. Adolygu Cofrestr Risg yr Awdurdod mewn perthynas â'r swyddogaethau uchod, a gwneud unrhyw argymhellion i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol i newid y lefelau o risg.

3. Adolygu perfformiad ariannol yr Awdurdod o ran swyddogaethau'r gwasanaethau y cyfeirir atynt yn 1 uchod.

4. Adolygu unrhyw fater a gyfeiriwyd ato gan yr Awdurdod Parc Cenedlaethol, gan unrhyw un o'i Bwyllgorau neu gan y Prif Weithredwr.

5. Penderfynu ar ymateb yr Awdurdod ar unrhyw gynigion sy'n effeithio ar y Parc Cenedlaethol neu'r Awdurdod, ei bwerau, dyletswyddau, swyddogaethau a chyfrifoldebau, yn enwedig ond nid yn unig, o'r llywodraeth ganolog, ranbarthol neu leol, awdurdodau cyfagos, partneriaethau a chyrff allanol eraill lle mae'r cynigion yn berthnasol i swyddogaethau'r Pwyllgor a lle mae'r Prif Weithredwr o'r farn y dylai'r cyfryw ymateb gael ei benderfynu gan y Pwyllgor.

Y Grŵp Gwelliant Parhaus

Mae'r Grŵp Gwelliant Parhaus yn cynnwys pedwar aelod o'r Awdurdod gan gynnwys y Prif Weithredwr. Mae'r aelodaeth yn cynnwys Cadeirydd ac Is Gadeirydd yr Awdurdod, ynghyd â Chadeiryddion y ddau Bwyllgor Adolygu Perfformiad. Mae gan y Grŵp bŵer i wahodd aelodau neu swyddogion eraill i fod yn bresennol yn y Grŵp os yw'r rhaglen waith yn dangos y byddai eu presenoldeb neu brofiad yn ychwanegu gwerth at ei waith.

Archwiliad Mewnol

Mae'r adolygiad o effeithiolrwydd y system o drefniadau rheoli mewnol a llywodraethu mewnol yn cael ei lywio gan waith yr Archwilwyr Mewnol a'u hadroddiadau i'r Awdurdod. Mae'r gwaith hwn yn cael ei wneud gan Gateway Assure. Mae'r cylch gorchwyl ar gyfer yr archwiliad mewnol yn gofyn bod y gwaith yn cael ei wneud yn unol â'r safonau a bennir yng Nghod Ymarfer Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) ar gyfer Archwilio Mewnol mewn Llywodraeth Leol. Mae Gateway Assure yn rhoi barn archwilio a gyflwynir mewn adroddiad i'r Awdurdod, ac yn gweithredu fel y Prif Weithredwr Archwilio.

Archwiliad Allanol

Swyddfa Archwilio Cymru yw archwilwyr allanol yr Awdurdod sy'n gwneud sylwadau yn dilyn eu gwaith ar y cyfrifon ariannol a'r perfformiad ariannol ac yn y llythyr archwilio blynyddol. Maent hefyd yn mynegi barn am ddigonolrwydd y gwaith archwilio mewnol.

Swyddog Adran 151
Yn yr Awdurdod mae'r Rheolwr Cyllid hefyd yn gweithredu fel Swyddog Adran 151. Mae'r Awdurdod yn cydymffurfio â "Datganiad am Rôl y Prif Swyddog Ariannol mewn Llywodraeth Leol" CIPFA. Mae'r Rheolwr Cyllid hefyd yn aelod o Dîm Arweinyddiaeth yr Awdurdod.

Pwyllgor y Gronfa Datblygu Cynaliadwy
Mae gan yr Awdurdod Bwyllgor y Gronfa Datblygu Cynaliadwy sy'n cynnwys Aelodau'r Awdurdod a chynghorwyr annibynnol sy'n rhoi cyngor yngylch dyfarnu grantiau'r Gronfa.

Y Pwyllgor Gwaith
Y strwythur o swyddogion ar gyfer gwneud penderfyniadau yw Uwch Dîm Rheoli a'r Tîm Arweinyddiaeth.

Egwyddorion Llywodraethu
Mae'r adolygiad o effeithiolrwydd systemau llywodraethu yr Awdurdod yn cael ei wneud yn unol â 6 egwyddor CIPFA, fel a ganlyn:

- Canolbwyntio ar bwrpas yr Awdurdod, ar ganlyniadau ar gyfer y gymuned gan gynnwys dinasyddion a defnyddwyr gwasanaethau a chreu a gweithredu gweledigaeth ar gyfer yr ardal leol.
- Aelodau a swyddogion yn cydweithio i gyflawni pwrpas cyffredin, gyda swyddogaethau a rolau wedi eu diffinio'n glir.
- Hyrwyddo gwerthoedd i'r Awdurdod ac arddangos gwerthoedd llywodraethu da drwy gynnal safonau uchel o ymarweddiad ac ymddygiad.
- Gwneud penderfyniadau gwybodus a thryloyw sy'n ddarostyngedig i graffu effeithiol a rheoli risg.
- Datblygu capasiti a gallu Aelodau a swyddogion i fod yn effeithiol.
- Ymgysylltu â phobl leol a rhanddeiliaid eraill i sicrhau atebolrwydd cyhoeddus cadarn.

# IV. Y Camau a gymerwyd yn ystod y Flwyddyn

Mae'r materion Llywodraethu Arwyddocaol a nodwyd yn flaenorol, y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r materion hynny a'r camau gwerthuso, yn cael eu dangos yn y tabl isod:

| **Materion Llywodraethu a Glustnodwyd** | **Camau gweithredu arfaethedig** | **Gwerthuso** |
|---|---|---|
| Systemau Rheoli Dogfennau | Adolygu systemau eraill | Mae'r Awdurdod wedi diweddaru System Rheoli Dogfennau APAS yn ystod y flwyddyn |
| Effaith Rhaglen Tirweddau'r Dyfodol | Gweithio gyda phartneriaid i geisio dylanwadu ar ganlyniad y rhaglen | I'w ddiweddaru |
| Cyllid Grant y Parc Cenedlaethol | Parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru i ymateb i'r sefyllfa ariannu, a datblygu cynllun ariannol tymor canolig | Mae gwaith wedi'i wneud i baratoi ar gyfer 5% o doriad i'r gyllideb yn ystod y ddwy flynedd ariannol nesaf |
| Amhariad Busnes | Bydd grŵp mewnol yn cael ei | Mae'r grŵp yn adolygu ein |

| | | |
|---|---|---|
| | sefydlu i arwain ar bob agwedd ar barhad busnes | dull o weithredu a bydd yn treialu unrhyw newidiadau |
| Cydymffurfio â’r Ddeddf Cydraddoldeb | Parhau â’r adolygiad i sicrhau cydymffurfiaeth â’r Ddeddf | Mae llunio adroddiad ar y cynllun cydraddoldeb strategol wedi’i gynnwys yn rhan brif-ffrwd o’r Adroddiad Blynyddol ar Gwrdd â’r Amcanion Llesiant/Cynllun Gweithredu Rhan 2. Mae hyn yn cynnwys adrodd ar ddata’r gweithlu |
| Llywodraethu Gwybodaeth | Bydd adolygiad gan y Swyddog Perfformiad a Chydymffurfiaeth ar Lywodraethu Gwybodaeth a fydd yn cyfrannu at y cynlluniau hyfforddi staff | Mae gwaith wedi’i wneud i nodi camau gweithredu i gydymffurfio â’r GDPR. Mae hyn wedi cynnwys penodi DPO, adolygu polisi a gweithdrefnau a chreu cofrestr data |
| Newid yn Aelodaeth yr Awdurdod | Bydd y newid arfaethedig yn aelodaeth yr Awdurdod yn cael ei reoli’n effeithiol a darperir y broses sefydlu a’r hyfforddiant angenrheidiol | Mae proses sefydlu wedi’i chynnal i gefnogi aelodau newydd a’u galluogi i weithredu’n effeithiol fel Aelodau |

# V. <u>Adolygu Effeithiolrwydd</u>

Mae'r Awdurdod yn gyfrifol am gynnal adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd ei fframwaith llywodraethu gan gynnwys y system rheolaeth fewnol. Mae'r adolygiad hwn yn cael ei lywio gan waith Aelodau’r Awdurdod a'i Bwyllgorau, archwilwyr mewnol ac allanol, asiantaethau adolygu eraill (fel y bo'n briodol) ac uwch reolwyr sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal yr amgylchedd rheoli mewnol. Mae'r broses arferol o wneud adolygiad wedi cael ei effeithio gan yr oedi cyn bod Swyddfa Archwilio Cymru yn cynhyrchu'r Adroddiad Gwella Blynyddol.

Mae'r adolygiad yn seiliedig ar chwe egwyddor y Cod Llywodraethu Corfforaethol.

## Egwyddor 1.

**Canolbwyntio ar bwrpas yr Awdurdod, ar ganlyniadau ar gyfer y gymuned gan gynnwys dinasyddion a defnyddwyr gwasanaethau a chreu a gweithredu gweledigaeth ar gyfer yr ardal leol.**

Mae'r Awdurdod wedi bod yn canolbwyntio ar ddatblygu gwaith i sicrhau ei fod yn 'addas i'r diben’ i gwrdd â heriau'r dyfodol.

<u>Rhaglen Tirweddau’r Dyfodol Cymru</u>
Yn ystod y flwyddyn, mae swyddogion yr Awdurdod wedi bod yn rhan weithredol o raglen Tirweddau'r Dyfodol Cymru, a gwnaeth y Gweinidog ddatganiad am Dirweddau Dynodedig ar 13 Mawrth 2018.

Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol
Mae'r Awdurdod wedi gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fel Mabwysiadwr Cynnar ac wedi derbyn hyfforddiant i Aelodau ac i swyddogion gydag Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac Eryri. Mae'r Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau ar gyfer 2018/19 wedi’i baratoi i gyflawni yn erbyn y saith Nodau Llesiant a bennwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r cynllun yn dangos sut mae’r gyllideb wedi’i rhannu ar draws y Nodau Llesiant ac Amcanion Llesiant yr Awdurdod.

Yn ystod 2017/18, bu Swyddfa Archwilio Cymru yn edrych ar sefydlu’r prosiect ‘Llwybrau’ fel rhan o’i gwaith ar ddatblygu dulliau newydd o archwilio. Bydd yr Awdurdod yn defnyddio’r adborth o’r gwaith peilot a wnaed gyda’r Awdurdod ac eraill i’w helpu i ddangos y pum ffordd o weithio o dan y Ddeddf yn ei waith a’i benderfyniadau.

Dangos Arweinyddiaeth Strategol
Cymeradwywyd Cynllun Rheoli Parc Cenedlaethol cyfredol yr Awdurdod 2015/19 yn 2014 a ddatblygwyd yn dilyn ymgynghoriad llawn gyda phartneriaid, rhanddeiliaid a chymunedau sy'n pennu polisïau ac amcanion tymor hwy. Rydym yn disgwyl canllawiau newydd ar gynhyrchu Cynlluniau Rheoli yn sgil datblygu Datganiadau Ardal a newidiadau deddfwriaethol eraill.

Y Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau
Mae’r tri Awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru wedi cytuno i weithio ar sail Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau ar ffurf cyffredin er mwyn bodloni gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 a Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011. Mae’r Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau yn cynnwys amcanion llesiant yr Awdurdod (sydd hefyd yn amcanion yr Awdurdod ar gyfer gwella) a rhaglen waith am y flwyddyn. Hwn hefyd yw ein Cynllun Gwella Blynyddol Rhan 1. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus weithredu yn unol â’r egwyddorion datblygu cynaliadwy ac mae’r ddogfen hon yn ddangos sut y mae’r egwyddorion hyn wedi’u hymwreiddio yn y gwaith a gaiff ei wneud i gyflawni ein hamcanion.

Ansawdd y Gwasanaeth
Mae'r Awdurdod yn cynnal arolygon o effeithiolrwydd ei wasanaethau drwy gynnal arolygon ar fodlonrwydd cwsmeriaid, ar berfformiad yn erbyn safonau ansawdd a thrwy fonitro cwynion ffurfiol sy'n parhau ar lefel isel.

System Ffynnon
Mae'r Awdurdod wedi parhau i fabwysiadu’r system Ffynnon er mwyn sicrhau ein bod yn datblygu ac yn rheoli system gadarn o wybodaeth am berfformiad i dynnu sylw at effaith y gwaith a wnaed gan yr Awdurdod. Mae adroddiadau’r pwyllgorau adolygu perfformiad yn cael eu paratoi yn uniongyrchol o Ffynnon.

Pwysau ar y Gyllideb / Gweithio ar y cyd
Mae gwaith wedi parhau i leihau costau ac i nodi opsiynau ar gyfer gweithio ar y cyd. Mae trafodaethau ar y gweill gyda nifer o Awdurdodau eraill i glustnodi ffyrdd effeithlon o gyflawni ein gwasanaethau.

Ymgysylltu â'r Gymuned
Mae'r Awdurdod wedi cymeradwyo’r 10 Egwyddor Cenedlaethol Cyfranogaeth Cymru ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru. Yn 2017/18 cynhaliodd yr Awdurdod weithdy gyda’i Dîm

Arweinyddiaeth ac Arweinwyr Tîm i gynyddu ymwybyddiaeth o ymgysylltu ac i gynnal proses o fapio'r ymgysylltu er mwyn helpu i lunio cynllun gweithredu ar ymgysylltu.

Mae'r Awdurdod wedi ymgynghori a chynnal gweithgareddau ymgysylltu â chymunedau ar benderfyniadau allweddol fydd yn effeithio arnynt. Cyfarfu swyddogion â Chynghorau Cymuned ledled y Parc Cenedlaethol fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r strategaeth a ffefrir ar gyfer y cynllun a fydd yn disodli'r Cynllun Datblygu Lleol. Mae'r Awdurdod yn rhan o Rwydwaith Ymgysylltu Sir Benfro sy'n hyrwyddo arferion a darpariaeth ymgysylltu yn Sir Benfro. Bu'r Awdurdod yn ymgynghori'n helaeth â'r cyhoedd ar gyflwyno ei wasanaethau gwybodaeth yn y dyfodol ac yn arbennig dyfodol ei ganolfan yn Nhrefdraeth.

Aelodaeth o'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol
Mae'r Awdurdod yn aelod, drwy wahoddiad, o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro (y Bwrdd). Mae'r Bwrdd ar hyn o bryd yn gweithio i baratoi Cynllun Llesiant Sir Benfro i'w gytuno erbyn mis Mai 2018. Mae'r gwaith hwn yn adeiladu ar yr Asesiad Llesiant y cytunwyd arno ym mis Mawrth 2017 ac ar y gwaith ymgynghori â rhanddeiliaid. O 2018 ymlaen, bydd Cynllun Corfforaethol yr Awdurdod yn adlewyrchu'r Amcanion Llesiant a gytunwyd yng Nghynllun Llesiant Sir Benfro.

Y strategaeth ar gyfer y Gymraeg
O dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, rhaid i bob awdurdod lleol yng Nghymru gydymffurfio â fframwaith o Safonau ar gyfer y Gymraeg. Mae Safon 145 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod lunio strategaeth 5 mlynedd yn dangos sut yr ydym yn bwriadu hyrwyddo'r Gymraeg yn ehangach yn y Parc Cenedlaethol. Hefyd, rhaid i'r strategaeth gynnwys targed (o ran canran y siaradwyr yn y Parc Cenedlaethol) ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn y Parc Cenedlaethol erbyn diwedd y cyfnod o 5 mlynedd dan sylw, ynghyd â datganiad yn nodi sut yr ydym yn bwriadu cyrraedd y targed hwnnw.

Ar ôl chwe wythnos o gyfnod ymgynghori, cymeradwyodd yr Aelodau'r strategaeth 5 mlynedd yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Tachwedd 2017. Rhaid adolygu'r strategaeth cyn pen 5 mlynedd ar ôl ei chyhoeddi.

## Egwyddor 2

**Aelodau a swyddogion yn cydweithio i gyflawni pwrpas cyffredin, gyda swyddogaethau a rolau wedi eu diffinio'n glir.**

Gostyngiad yn y Grant i'r Parc Cenedlaethol ac yn yr Ardoll
Cymeradwywyd cyllideb refeniw gytbwys ar gyfer 2017/18 fis Chwefror 2017. Mae cyllid craidd yr Awdurdod o Grant ac Ardoll y Parc Cenedlaethol am y flwyddyn wedi aros yn ddigyfnewid ers 2016/17. Roedd hyn i'w groesawu, oherwydd ers 2013/14 bu cwtogi flwyddyn ar ôl blwyddyn gan achosi gostyngiad o £782k yn y cyllid craidd.

Yn ffodus, mae'r Awdurdod wedi gallu ymdopi â'r pwysau blwyddyn ar ôl blwyddyn o gwtogi ar ein cyllid. Mae arfer yr Awdurdod o gynnal gweithdai ar y Gyllideb wedi bod o gymorth mawr wrth ddatblygu cyllidebau gweithredol, strategaeth ariannol tymor canolig a chlustnodi meysydd i'w symleiddio.

Y Pwyllgor Craffu
Mae'r Aelodau a'r swyddogion â phroses graffu ar waith sy'n eu galluogi i asesu pa mor llwyddiannus yw polisïau yr Awdurdod Parc Cenedlaethol.

Hyfforddiant a Datblygu Aelodau a Swyddogion ar y Cyd

Yn ystod y flwyddyn cynhaliodd Aelodau a Swyddogion sawl rhaglen hyfforddiant ar y cyd oedd yn ymdrin â'r meysydd canlynol:

- Gweithdy Comisiwn Dylunio Cymru ar effaith adeiladau ar y dirwedd wledig.
- Gweithdy diwylliant llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru.
- Cyflwyniad gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar drawsnewid gwasanaethau clinigol ac iechyd meddwl.

Ymgynghori

Mae'r Aelodau wedi cyfrannu eu sylwadau at ymatebion i bapurau ymgynghori Llywodraeth Cymru, gan gynnwys: Tuag at Reoli Adnoddau Naturiol Cymru yn Gynaliadwy; Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro, ac ymgynghoriad Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ynghylch taliadau'r Aelodau.

Fforwm Gweithwyr

Mae gan yr Awdurdod Fforwm Gweithwyr. Pwrpas y fforwm yw bod yn llwyfan i'r Aelodau ac i'r staff gynnal perthynas agored a chydweithredol drwy drafod ystod o faterion sy'n ymwneud â'r staff a chael dealltwriaeth oddi wrth ei gilydd ar faterion sy'n wynebu'r Awdurdod.

Grwpiau Gorchwyl a Gorffen

Roedd grŵp gorchwyl a gorffen yr Awdurdod i'r ddarpariaeth yng nghanolfannau gwybodaeth i ymwelwyr wedi cyfrannu'n sylweddol i'r penderfyniadau ynglŷn â Chanolfannau Gwybodaeth Dinbych-y-pysgod a Threfdraeth. Roedd gwaith y grŵp gwasanaethau cymorth wedi parhau yn 2017.

## Egwyddor 3

**Hyrwyddo gwerthoedd i'r Awdurdod ac arddangos gwerthoedd llywodraethu da drwy gynnal safonau uchel o ymarweddiad ac ymddygiad.**

Mae Cod Ymddygiad ar gyfer yr Aelodau a Chod Ymddygiad ar gyfer y Swyddogion yn ei le. Ymdrinnir â materion sy'n ymwneud â thorri'r Cod Ymddygiad gan y canlynol:

Y Pwyllgor Safonau

Cyfrifoldeb Pwyllgor Safonau'r Awdurdod yw hyrwyddo safonau uchel o ymddygiad gan Aelodau a Swyddogion. Mae'n gwneud hyn drwy gynghori ar y cod ymddygiad a hyrwyddo ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r cod ymddygiad ar gyfer Aelodau a'r cod ymddygiad ar gyfer swyddogion. Mae'r ddau god wedi'u mabwysiadu gan yr Awdurdod.

Swyddog Monitro

Mae swyddogaethau'r Swyddog Monitro statudol wedi'u nodi yn Adran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (fel y'i diwygiwyd) h.y. yn gryno, i adrodd i'r Awdurdod os yw'r Swyddog Monitro o'r farn y gall unrhyw gynnig, penderfyniad, neu hepgoriad gan yr Awdurdod fod yn anghyfreithlon neu'n gamweinyddu. Yng ngoleuni ymddeoliad arfaethedig Swyddog Monitro'r Awdurdod, cynhaliwyd adolygiad ynghylch sut y byddai'r swyddogaeth yn gweithredu yn y dyfodol. Mae'r Awdurdod wedi cytuno i benodi'r Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol a Democrataidd yn Ddirprwy Swyddog Monitro i gefnogi'r Swyddog Monitro, sy'n swydd ran-amser.

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
Mae gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru awdurdodaeth dros swyddogaethau'r Awdurdod yn rhinwedd Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005. Nid yw'r Ombwdsmon wedi gwneud unrhyw ymchwiliad i'r Awdurdod naill ai mewn perthynas ag unrhyw honiad o dorri Cod Ymddygiad yr Aelodau a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod ar 25 Mehefin 2008, nac mewn perthynas ag unrhyw gŵyn a wnaed yn erbyn yr Awdurdod.

Aelodau'r Staff
Fel arfer, mae materion sy'n ymwneud ag ymddygiad y staff yn cael eu hystyried yn unol â gweithdrefnau'r Awdurdod ar Ddisgyblu. Mae pob aelod o staff yr Awdurdod yn cael arfarniad o'u perfformiad yn flynyddol ac arfarniad cyn-derfynol. Mae'r broses hon yn gyfle i reolwyr a staff adolygu perfformiad yn y gorffennol, amlygu meysydd posibl o bryder, a chytuno ar amcanion yn y dyfodol i sicrhau bod yr amcanion hynny yn gysylltiedig â'r cynllun gwasanaeth/targedau corfforaethol.

Polisi Chwythu'r Chwiban
Yn Neddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998 mae'r Llywodraeth yn amddiffyn cyflogeion yn statudol sy'n 'chwythu'r chwiban' drwy siarad allan yn erbyn llygredd a chamymddwyn yn y gwaith. Mae hyn yn eu hamddiffyn yn erbyn erledigaeth a diswyddo. Mae'r Awdurdod wedi cymeradwyo a mabwysiadu'r cyfryw bolisi yn 2002 a ddiweddarwyd yn 2009. Yn ei ymrwymiad i'r safonau uchaf o onestrwydd, cywirdeb ac atebolrwydd, dywed "Mae'r Awdurdod yn annog gweithwyr ac eraill sydd â phryderon difrifol am waith yr Awdurdod i ddod ymlaen a chodi eu pryderon gyda'r Awdurdod".

Rheolau Sefydlog
Adolygodd yr Awdurdod ei Reolau Sefydlog yn ystod y flwyddyn i adlewyrchu newidiadau yn y ddoeddfwriaeth, i ffurfioli arferion a oedd wedi esblygu dros y blynyddoedd ac i ymgorffori'r arferion gorau mewn awdurdodau lleol eraill. Mabwysiadwyd y gyfres ddiwygiedig o Reolau Sefydlog ar 14 Mehefin 2017.

Polisi Diogelu
Mae'r Awdurdod wedi cymeradwyo polisi diogelu. Nod y polisi yw sicrhau bod arferion gwaith cadarn yn eu lle sy'n rhoi diogelu yn flaenoriaeth ac sydd yn effeithiol o ran rheoli risg i'r grwpiau agored i niwed, ond fydd hefyd yn amddiffyn staff a gwirfoddolwyr rhag honiadau anghyfiawn neu faleisus. Yn ystod y flwyddyn, rhoddodd Archwilwyr Mewnol yr Awdurdod y lefel lawn o sicrwydd yn eu hadolygiad o ddiogelwch.

Polisi Gwrth-dwyll a Llwgrwobrwyo
Mae'r Awdurdod wedi cymeradwyo Polisi Gwrth-dwyll a Llwgrwobrwyo. Mae'r polisi yn cwmpasu holl weithwyr, gwirfoddolwyr ac Aelodau'r Awdurdod. Mae'r polisi yn cynnwys y newidiadau i'r ddeddfwriaeth llwgrwobrwyo sydd wedi'u cynnwys yn Neddf Llwgrwobrwyo 2010. Mae Deddf Llwgrwobrwyo 2010 yn pennu troseddau ac mae unigolion sy'n euog yn gallu wynebu dirwy ddiderfyn a charchar hyd at ddeng mlynedd. Pan fo sefydliad ei hun yn euog o'r tramgwydd yna mae'r gosb yn ddirwy ddiderfyn.

Safonau Ariannol
Yn ddiweddar, mae'r Awdurdod wedi diwygio ei Safonau Ariannol. Diben y Safonau Ariannol yw bod yn fframwaith ariannol y gall yr Awdurdod weithredu o'i fewn a bod yn gymorth i'r Awdurdod sicrhau:

- y cydymffurfir â deddfwriaeth.
- bod asedau'r Awdurdod yn cael eu diogelu.
- bod yr arian sydd ar gael yn cael ei wario'n ddoeth ac yn effeithlon.
- creu incwm priodol.
- llwyddo i gael y gwerth gorau.

Diogelu Data a chydymffurfio â GDPR
I baratoi ar gyfer y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a fyddai'n dod i rym ar 25 Mai 2018, mae'r Awdurdod wedi adolygu ei arferion ac yn clustnodi ac yn gweithredu camau i sicrhau ei fod yn cydymffurfio erbyn y dyddiad hwn. Mae'r camau a nodwyd wedi cael eu harwain gan ganllawiau Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth gan gynnwys 'Preparing for the General Data Protection Regulation (GDPR) 12 steps to take now.' Mae'r camau a gymerwyd yn cynnwys penodi Swyddog Diogelu Data, creu cofrestr data, codi ymwybyddiaeth ymhlith staff ac Aelodau drwy gyflwyniadau ar GDPR mewn cyfarfod staff ac mewn Pwyllgorau ac adolygu polisïau ac arferion.

## Egwyddor 4

**Gwneud penderfyniadau gwybodus a thryloyw sy'n destun craffu effeithiol a rheoli risg.**

Mae'r Awdurdod wedi cymryd y camau canlynol i wella ei brosesau a'i strwythurau a hefyd i fynd i'r afael â materion a nodwyd o risg.

Rheoli Risg
Mae'r Gofrestr Risg yn cael ei chyflwyno gerbron pob cyfarfod o'r Pwyllgor Adolygu Gwasanaethau Archwilio a Chorfforaethol yn ogystal â'r Pwyllgor Adolygu Gweithredol, ac yn flynyddol gerbron yr Awdurdod llawn. Mae'r Tîm Arweinyddiaeth yn adolygu'r gofrestr yn gyson pan adolygir y risgiau cyfredol a phan gaiff risgiau newydd eu gwerthuso.

Rheoli Perfformiad
Mae'r Awdurdod yn defnyddio system Ffynnon i reoli perfformiad. Mae'r staff yn gyson yn diweddaru system Ffynnon yn uniongyrchol â gwybodaeth i ddiweddaru adroddiadau ar berfformiad.

Uwchraddio systemau seilwaith
Yn ystod 2017/18 gwnaeth yr Awdurdod waith ar y systemau TG a ganlyn: y system rheoli dogfennau a system olrhain ymgeiswyr. Mae proses o wella arferion gwaith yr Awdurdod drwy ddefnyddio technoleg ddigidol hefyd yn cael ei archwilio.

Archwiliad Mewnol 2017/18
Fel rhan o raglen llywodraethu corfforaethol yr Awdurdod, roedd archwilwyr mewnol yr Awdurdod, sef Gateway Assure, wedi gwneud asesiad risg ar bob un o'i wasanaethau, oedd yn sail i'r gwaith a wnaed ganddynt yn ystod 2017/18. Roedd yr Archwiliad yn canolbwyntio ar y meysydd canlynol:

- Adolygiad Adrannol – Cyfathrebu
- Cynhyrchu Incwm
- Gwiriadau Iechyd TG
- Cynhyrchu Incwm
- Prif Reolaethau Allweddol – Y Gyflogres a Threuliau
- Adnoddau Dynol
- Incwm Grant

Barn y Prif Weithredwr Archwilio
Rhoddodd Robin Pritchard o Gateway Assure, sef Archwilwyr Mewnol yr Awdurdod, y farn archwilio ganlynol am y flwyddyn 2017/18:

"Ar y cyfan, yn ein barn ni, ar sail yr adolygiadau a berfformiwyd yn ystod y flwyddyn, mae gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro:

- system ddigonol ac effeithiol o reoli risg;
- system ddigonol ac effeithiol o lywodraethu; a
- phrosesau digonol ac effeithiol o reoli."

Pwyllgorau
Mae arweinwyr tîm gwasanaeth unigol yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am eu Pwyllgor Adolygu perthnasol gyda manylion am y gwaith sy'n mynd rhagddo o fewn y tîm. Cedwir dogfennau clir o benderfyniadau, agendâu a chofnodion cyfarfodydd. Felly mae'r Aelodau yn gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth amserol a chywir, er bod rhai penderfyniadau yn cael eu gohirio er mwyn i Aelodau gael rhagor o amser i ystyried eu penderfyniadau.

Adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru
Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn ffurfio barn ar eu hadolygiad o berfformiad yr Awdurdod a'r Datganiadau o Gyfrifon a gofnodir yn Llythyr Asesu Gwelliant Swyddfa Archwilio Cymru ac yn yr adroddiad ISA 260.

Adolygiad Llywodraethu Awdurdodau Parciau Cenedlaethol gan Swyddfa Archwilio Cymru
Yn dilyn ymgynghoriad yr Archwilydd Cyffredinol ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r archwiliad, cytunodd y tri Awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru i weithio gyda Swyddfa Archwilio Cymru wrth dreialu ymagweddau at archwilio o dan y Ddeddf. Cytunwyd y bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnal cyfres o adolygiadau llywodraethu dros y pedair blynedd nesaf a anelir at hwyluso gwell llywodraethu yng nghyd-destun Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Yn 2016-17, mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi bod yn cynnal adolygiad llywodraethu o ddiwylliant llywodraethu oedd yn cynnwys gweithgareddau arolygu a gweithdai gyda'r staff a'r Aelodau. Y prif feysydd a glustnodwyd i'w gwella ym y maes hwn oedd craffu, cyfathrebu, ymgysylltu, y broses arfarnu, cydraddoldeb a'r Gymraeg.

Yn ystod 2017/18 bu Swyddfa Archwilio Cymru yn ystyried y broses o 'Sefydlu'r Prosiect Llwybrau' fel rhan o'i waith ar ddatblygu ffyrdd newydd o archwilio. Bydd yr Awdurdod yn defnyddio'r adborth o'r gwaith peilot a wnaed gyda'r Awdurdod ac eraill i oleuo'r modd y mae'n dangos y pum ffordd o weithio o dan y Ddeddf yn ei waith a'i benderfyniadau.

Adroddiad Blynyddol ar fodloni'r Amcanion Llesiant
Yn 2017/18 cyhoeddodd yr Awdurdod ei Adroddiad Blynyddol cyntaf ar fodloni'r Amcanion Llesiant (sydd hefyd yn gweithredu fel ein Cynllun Gwella Blynyddol Rhan 2 o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru). Mae'r adroddiad hwn yn disgrifio ein perfformiad yn 2016/17 o ran cyflawni ar sail Amcanion Llesiant yr Awdurdod.

Meincnodi
Mae'r Awdurdod yn ymgymryd â gweithgareddau meincnodi ar draws nifer o feysydd. Caiff dangosyddion perfformiad allweddol o fewn y Cynllun Corfforaethol blynyddol eu meincnodi yn erbyn Awdurdodau Parciau Cenedlaethol eraill lle mae data cymharol ar gael. Mae'r Awdurdod yn cyflwyno Adroddiad Perfformiad Blynyddol bob mis Tachwedd fel rhan o Fframwaith Perfformiad

Cynllunio Llywodraeth Cymru. Mae'r adroddiad blynyddol yn trafod sut mae'r Awdurdod wedi perfformio yn erbyn y dangosyddion, gan nodi'r hyn a wnaed yn dda fel y gellir rhannu hyn gydag eraill, a pha gamau y gellid eu cymryd i fynd i'r afael â meysydd perfformiad sydd angen eu gwella. Drwy'r Fframwaith, mae'r Awdurdod yn gallu meincnodi ei berfformiad yn erbyn Awdurdodau Cynllunio eraill yng Nghymru.

## Egwyddor 5

**Datblygu capasiti a gallu Aelodau a Swyddogion i fod yn effeithiol.**

Mae'r Awdurdod wedi ymgymryd â'r canlynol i ddatblygu capasiti a gallu Aelodau:

Sefydlu Aelodau

Yn sgil etholiadau llywodraeth leol yn 2017, gwnaed 5 newid i gynrychiolaeth Aelodau Cyngor Sir Penfro ar yr Awdurdod. Hefyd, penodwyd tri Aelod newydd i gynrychioli Llywodraeth Cymru. Cynhaliwyd cyfres o sesiynau cynefino, gan gynnwys cyflwyniad cyffredinol i'r Awdurdod, Cod Ymddygiad a hyfforddiant ar gynllunio gyda'r holl Aelodau newydd. Roedd rhai o'r Aelodau blaenorol hefyd yn bresennol i loywi eu gwybodaeth.

Siarter Cymru ar gyfer Cefnogi a Datblygu Aelodau

Mae gan yr Awdurdod statws Siarter ar hyn o bryd ar gyfer Cefnogi a Datblygu Aelodau, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Datblygu Staff

Mae anghenion dysgu a datblygu yn cael eu clustnodi yn yr adolygiadau perfformiad blynyddol ac anghenion blaenoriaeth 1 yw sail y cynlluniau ar gyfer y flwyddyn. Mae pob aelod newydd o staff yn cael eu 'sefydlu' yn unigol pan fyddant yn dechrau ar eu swydd, yn ogystal â chwrs sefydlu corfforaethol blynyddol gyda'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr, a'r cyfle i fynychu digwyddiad i bob Parc Cenedlaethol yn y DU. Mae hyfforddiant priodol a ardystiwyd yn cael ei glustnodi a'i drefnu gyda chyrsiau gloywi bob hyn a hyn.

Yn 2015-16 roedd y Cytundeb Lefel Gwasanaeth 3 blynedd gyda Chyngor Sir Penfro wedi cyflwyno rhaglen o gyfleoedd dysgu yn ystod yr hydref/gaeaf ar gyfer y tîm arweinyddiaeth ac arweinwyr tîm, ynghyd â rhywfaint o hyfforddiant. Hefyd roedd y rheolwyr perthnasol wedi bod mewn gweithdy ar Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb. Cynhelir rhaglen reolaidd o ddigwyddiadau hyfforddi ac ennyn ymwybyddiaeth amser cinio. Mae rhaglen hyfforddi gyda thîm Gweithredu Iechyd Meddwl Gorllewin Cymru yn parhau, gan gynnwys ar gyfer arweinwyr tîm yn eu rôl fel rheolwyr pobl. Cymerodd dros 50 o staff ran mewn sesiynau yn cyflwyno Ymwybyddiaeth Ofalgar fel cymorth i lesiant.

Iechyd a Diogelwch

Cafodd archwiliad mewnol o Iechyd a Diogelwch ei wneud yn ystod 2015/16 pan gafwyd sicrwydd sylweddol. Mae'r Awdurdod yn cynhyrchu Cynllun Iechyd a Diogelwch blynyddol sy'n nodi ei flaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn. Derbyniodd yr Aelodau adroddiad blynyddol cynhwysfawr fis Tachwedd 2017 gan gymeradwyo set o flaenoriaethau a chamau gweithredu. Cynhaliodd Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch arolwg yn dilyn adroddiad RIDDOR am gyflwr iechyd cysylltiedig â gwaith. Mae tri arweinydd tîm wedi llwyddo i gwblhau cwrs achrededig 4 diwrnod IOSH 'Rheoli'n Ddiogel' ac mae pob rheolwr wedi cymryd rhan mewn gweithdy i loywi dealltwriaeth y rheolwyr o godi a chario yn y gwaith.

Datblygu Staff
Roedd arweinyddion tîm a'r staff gweinyddol wedi cymryd rhan mewn rhaglenni datblygu proffesiynol sy'n cael eu rhedeg gan Gyngor Sir Penfro. Yn ystod y flwyddyn dechreuwyd ar raglen ar draws yr Awdurdod i gynorthwyo staff gweinyddol.

## Egwyddor 6

**Ymgysylltu â phobl leol a rhanddeiliaid eraill i sicrhau atebolrwydd cyhoeddus cadarn.**

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae'r Awdurdod wedi ceisio ymgysylltu â phobl leol a rhanddeiliaid drwy amrywiaeth o ymgynghoriadau. Yn dilyn arolwg y llynedd o'r cynghorau cymuned, mae sesiynau hyfforddiant ar gynllunio wedi cael eu darparu i bob cyngor a ofynnodd am sesiwn.

Mae'r Awdurdod yn bwriadu parhau i ymgynghori â thrigolion, ymwelwyr, sefydliadau a rhanddeiliaid eraill ar strategaeth tymor hir ar ddarparu gwasanaethau ar y cyllid a ragwelir fydd wedi'i gwtogi dros y blynyddoedd nesaf.

Cynllun Cydraddoldeb Strategol
Cafodd Cynllun Cydraddoldeb Strategol yr Awdurdod (2016-20) ei ategu gan broses ymgynghori a oedd yn ymwneud ag arolwg mawr o'r canfyddiad o gydraddoldeb a gynhaliwyd gan gonsortiwm o gyrff cyhoeddus yn ne-orllewin Cymru, a reolwyd gan Gyngor Sir Caerfyrddin. Mae'r camau i weithredu'r cynllun hwn wedi'u cynnwys yn y Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau. Mae perfformiad ar sail y gweithgareddau hyn wedi'i gynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol ar Fodloni'r Amcanion Llesiant (Cynllun Gwella Rhan 2), ac mae hwn yn gweithredu fel ein Hadroddiad Cydraddoldeb Blynyddol, gan gynnwys adrodd ar ddata am amrywiaeth y gweithlu.

Trefniadau gweithio mewn partneriaeth
Mae'r Awdurdod yn gweithio gyda nifer o gyrff allanol i helpu i wella gwerth am arian, ac wrth gyfathrebu ag amrywiol grwpiau diddordeb, i gyflawni nifer o brosiectau cyffredin, e.e.:

- Cyngor Sir Caerfyrddin; Cytundebau Lefel Gwasanaeth Cyflogres/Pensiwn. Mwynau
- Grŵp Pwrcasu Awdurdodau Lleol De Cymru
- Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac Eryri; yswiriant broceriaeth / caffael systemau technoleg gwybodaeth ar y cyd, a phrosiect Mosaic, ymgynghori â'r Gymuned; bu ymgysylltu sylweddol â Chynghorau Tref a Chymuned ar y newidiadau yn y canllawiau cynllunio ac ar flaenoriaethau cyllideb yr Awdurdod
- Rhaglen Tirweddau'r Dyfodol Cymru
- Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
- Cynllun prentisiaeth gyda Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a Chyngor Bwrdeistref Torfaen
- Partneriaeth Parciau Cenedlaethol ar opsiynau cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol a ffynonellau eraill o nawdd
- Parciau Cenedlaethol y DU ar feincnodi gwasanaethau cymorth

**Ymwreiddio Ymgysylltu ar draws yr Awdurdod**

Mae'r Awdurdod wedi cymeradwyo 10 Egwyddor Cenedlaethol Cyfranogaeth Cymru ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru. Yn 2017/18 cynhaliodd yr Awdurdod weithdy gyda'i Dîm Arweinyddiaeth ac Arweinwyr Tîm i gynyddu ymwybyddiaeth o ymgysylltu ac i gynnal proses o fapio'r ymgysylltu er mwyn helpu i lunio cynllun gweithredu ar ymgysylltu.

## VI. Materion Llywodraethu Arwyddocaol

| Materion Llywodraethu a Glustnodwyd | Camau i'w cymryd |
|---|---|
| Gweithredu argymhellion cynllun Peilot Swyddfa Archwilio Cymru ar graffu, cyfathrebu mewnol ac allanol, ymgysylltu, y broses arfarnu, cydraddoldeb a'r Gymraeg. | Gweithdai gydag Aelodau, cynrychiolwyr staff, a'r Tîm Arweinyddiaeth. Gweithredu argymhellion y gweithdai hyn. Treialu'r cylchlythyr mewnol a dulliau a fforymau eraill i hybu cyfathrebu a chydweithredu mewnol. |
| Cyllid Grant y Parc Cenedlaethol | Parhau i weithio â Llywodraeth Cymru i ymateb i'r sefyllfa gyllido a datblygu cynllun ariannol ar gyfer y tymor canolig. |
| Staff cymorth i weithio ar gydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) | Swyddog Rheoli Data wedi'i benodi. Y gofrestr data a diweddaru'r polisi a chanllawiau ar gyfer y staff wedi'i wneud. Wythnos codi ymwybyddiaeth am ddiogelu data wedi'i chynnal. Adolygu'r Hysbysiadau Preifatrwydd. Fframwaith Asesu Effaith Diogelu Data ar waith. |
| Meincnodi – Perfformiad o ran Cynllunio: Gorfodi | Clirio'r ôl-groniad o achosion blaenorol. |

## VII. BARN

Rydym yn cynnig cymryd camau yn ystod y flwyddyn nesaf i fynd i'r afael â'r materion y cyfeirir atynt yn rhan IV i wella ein trefniadau llywodraethu eto fyth. Rydym yn fodlon y bydd y camau hyn yn mynd i'r afael â'r angen am welliannau a glustnodwyd yn ein hadolygiad o effeithiolrwydd, a byddwn yn monitro'r camau a gymerwyd i'w gweithredu fel rhan o'n hadolygiad blynyddol nesaf.

LLOFNODWYD ______________________________
Cadeirydd

DYDDIAD ______________________________

LLOFNODWYD ______________________________
Prif Weithredwr

DYDDIAD ______________________

LLOFNODWYD ______________________________
Swyddog Adran 151

DYDDIAD ______________________________

# Adroddiad archwilio yr Archwilydd Penodedig i Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

## Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Aelodau Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Adroddiad ar yr archwiliad o’r datganiadau ariannol

**Barn**

Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau ariannol Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn cynnwys y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian, a’r nodiadau cysylltiedig gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu arwyddocaol.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2018 yn seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRSs).

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ar 31 Mawrth 2018 ac o'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â'r gofynion deddfwriaethol a’r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2018.

**Sail y Farn**

Rwyf wedi cynnal fy archwiliad yn unol â’r gyfraith berthnasol a’r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (ISA) yn y DU. Mae fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hyn yn cael eu disgrifio ymhellach yn y rhan honno o’m hadroddiad sy’n ymwneud â chyfrifoldebau’r archwilydd ar gyfer archwilio datganiadau ariannol. Rwy’n annibynnol ar yr Awdurdod yn unol â’r gofynion moesegol sy’n berthnasol i’m harchwiliad o ddatganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â’r gofynion hyn. Rwyf o’r farn fod y dystiolaeth archwilio a gefais yn ddigonol ac yn briodol i fod yn sail i’r farn hon.

**Casgliadau o ran busnes gweithredol *(going concern)***

Nid oes gennyf ddim i’w adrodd mewn perthynas â’r materion a ganlyn lle mae ISA (y DU) yn ei gwneud yn ofynnol i mi adrodd i chi:

- lle nad yw’r sail busnes gweithredol o gyfrifyddu wrth baratoi’r datganiadau ariannol yn briodol; neu
- lle nad yw’r swyddog ariannol cyfrifol wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd perthnasol penodol a all fwrw amheuaeth sylweddol am allu’r Awdurdod i barhau i fabwysiadu’r sail busnes gweithredol o gyfrifyddu am gyfnod o 12 mis o leiaf o’r dyddiad pan gafodd y datganiadau ariannol eu hawdurdodi i’w cyhoeddi.

**Gwybodaeth arall**
Y swyddog ariannol cyfrifol sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall yn yr adroddiad a chyfrifon blynyddol. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth yn yr adroddiad blynyddol heblaw'r datganiadau ariannol a'm hadroddiad i ar yr archwiliad o'r datganiadau hynny. Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall, ac nid wyf, ac eithrio i'r graddau a nodir gennyf yn benodol yn fy adroddiad, yn mynegi unrhyw fath o sicrwydd amdanynt.

Mewn cysylltiad â'r archwiliad a wnaed gennyf o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb i yw darllen y wybodaeth arall i ganfod anghysondebau perthnasol â'r datganiadau ariannol a archwiliwyd ac i ganfod unrhyw wybodaeth sy'n ymddangos yn wallus mewn modd perthnasol o gymharu â'r wybodaeth a gefais wrth gyflawni'r archwiliad, neu'n anghyson â'r wybodaeth honno. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol posibl rwyf yn ystyried goblygiadau hynny ar gyfer fy adroddiad.

**Barn ar faterion eraill**
Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth a gynhwysir yn yr Adroddiad Naratif am y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Adroddiad Naratif wedi'i baratoi yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2018; ac
- mae'r wybodaeth a roddir yn y Datganiad Llywodraethu am y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol, ac mae'r Datganiad Llywodraethu wedi'i baratoi yn unol â'r canllawiau.

**Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad**

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r Awdurdod a'i amgylchedd a gafwyd wrth wneud yr archwiliad, nid wyf wedi canfod unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Naratif nac yn y Datganiad Llywodraethu.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd mewn perthynas â'r materion a ganlyn, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os, yn fy marn i,

- na chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol;
- nad yw'r datganiadau ariannol yn cytuno â'r cofnodion a'r adroddiadau cyfrifyddu; neu
- os nad wyf wedi cael yr wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

Tystysgrif cwblhau archwiliad

Yr wyf yn tystio fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'r Cod Ymarfer Archwilio a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

**Cyfrifoldebau**

Cyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol am y datganiadau ariannol

Fel yr eglurwyd yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad o Gyfrifon, a welir ar dudalen 67, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am baratoi'r datganiad o gyfrifon sy'n rhoi darlun gwir a theg, ac am y cyfryw reolaeth fewnol ag y mae'r swyddog ariannol cyfrifol o'r farn ei bod yn angenrheidiol i allu paratoi datganiadau o gyfrifon heb gamddatganiadau perthnasol, boed hynny drwy dwyll neu gamgymeriad.

Wrth baratoi'r datganiad o gyfrifon, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am asesu gallu'r Awdurdod i barhau yn fusnes gweithredol, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, faterion sy'n ymwneud â'r busnes gweithredol a defnyddio sail busnes gweithredol ar gyfer cyfrifyddu oni bai fod hynny'n amhriodol.

Cyfrifoldebau'r Archwilydd o ran archwilio'r datganiadau ariannol

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu crynswth yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny wedi'i wneud drwy dwyll neu gamgymeriad, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhaliwyd yn unol ag ISA (y DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol os oes un. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu o wall ac maent yn cael eu hystyried yn berthnasol os gallent, yn unigol neu gyda'i gilydd, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr ar sail y datgaiadau ariannol hyn.

Mae disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilio.

| | |
|---|---|
| Anthony J Barrett | 24 Heol y Gadeirlan |
| Ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru | Caerdydd |
| 14 Awst 2018 | CF11 9LJ |

# Atodiad I

## Rhestr o Lwfansau a Threuliau Aelodau a Dalwyd yn y Flwyddyn Ariannol 2017/18

| ENW | Cyflog Sylfaenol | Cyflog Uwch | Teithio a chynhaliaeth | % presenoldeb |
|---|---|---|---|---|
| **Aelodau Presennol** | | | | |
| Mr AG Archer | 3,625 | | 1244 | 75% |
| Cyngh P Baker [2] | | | | 68% |
| Cyngh D Clements [1] | 3,089 | | 208 | 95% |
| Cyngh KW Doolin [1] | 3,089 | | 423 | 60% |
| Cyngh M Evans | 3,625 | | | 50% |
| Cyngh NP Harries | 3,625 | | 722 | 86% |
| Mrs GM Hayward | | 11,047 | 1410 | 100% |
| Dr R Heath Davies [3] | 3,021 | | 815 | 79% |
| Cyngh DGM James | 2,890 | 2,499 | 1513 | 91% |
| Mrs J James [3] | 3,021 | | 667 | 65% |
| Cyngh PJ Kidney [1] | 3,089 | | | 58% |
| Mr PJ Morgan | 3,625 | | 354 | 95% |
| Cyngh RS Owens | 735 | 4,803 | 356 | 91% |
| Dr RM Plummer [4] | 604 | | 39 | 50% |
| Mr AE Sangster | 735 | 4,803 | 715 | 96% |
| Cyngh AW Wilcox | 3,625 | | | 64% |
| Cyngh M Williams | 3,625 | | 205 | 95% |
| Cyngh SJ Yelland [1] | 3,089 | | 221 | 85% |
| **Cyn Aelodau** | | | | |
| Ms CM Gwyther [5] | 2,728 | | | 65% |
| Cyngh ST Hudson [6] | 536 | | | 50% |
| Cyngh R Kilmister [6] | 536 | | 104 | 100% |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Mrs LM Jenkins [6] | 536 | | 66 | 100% |
| Cyngh R Lewis [2] | | | | 67% |
| Cyngh DWM Rees [6,7] | 536 | | 54 | 0% |
| **Cyfanswm** | **49,984** | **23,152** | **9,116** | |

[1] Ers 25/05/17, [2] Yn cael cyflog uwch gan awdurdod arall, [3] Ers 01/06/17,
[4] Ers 01/02/2018, [5] Tan 01/01/2018, [6] Tan 24/05/17, [7] Taliad mewn perthynas â blwyddyn ariannol 2016/17.